

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, MA.
Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro – Interim
Managing Director

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR ARCHWILIO	AUDIT COMMITTEE NAME
DYDD MAWRTH, 5 CHWFROR 2013 am 2.00 o'r gloch y prynhawn	TUESDAY, 5 FEBRUARY, 2013 AT 2:00 p.m.
YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI	COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

Annibynnol Gwreiddiol/Original Independent

Jim Evans, Ieuan Williams, G O Jones, Keith Evans a Eric Roberts (Is-Gadeirydd/Vice-Chair)

Llafur / Labour

C LI Everett

Llais i Fôn

T H Jones (Cadeirydd/Chair)

Plaid Cymru / The Party of Wales

Vaughan Hughes a E G Davies

Heb Ymaelodi/Unaffiliated

Alun W Mummery

Aelodau Lleyg / Lay Members – Mr Richard Barker, Mrs Sharon Warnes

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw aelod neu swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 12 RHAGFYR, 2012** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, 2012.

3 **COFRESTR RISG CORFFORAETHOL** (Tudalennau 5 - 10)

Cyflwyno adroddiad ynglyn â'r uchod.

4 **ARCHWILIO ALLANOL - DIWEDDARIAD AR RAGLEN WAITH PERFFORMIAD** (Tudalennau 11 - 12)

Diweddariad ar raglen waith perfformiad

5 **ARCHWILIO ALLANOL - DIWEDDARIAD AR GYNLLUN GWAITH AC AMSERLEN** (Tudalennau 13 - 14)

Diweddariad ar Gynllun Gwaith ac Amserlen Chwefror, 2012 - Mawrth, 2013.

6 **ARCHWILIO ALLANOL - DIWEDDARIAD AR WAITH ARCHWILIO CYLLIDOL** (Tudalennau 15 - 20)

Diweddariad ar waith archwilio cyllidol

7 **ARCHWILIO ALLANOL - AMLINELLIAD O ARCHWILIAD ARIANNOL BLYNYDDOL** (Tudalennau 21 - 34)

Amlinelliad o Archwiliad Ariannol Blynyddol.

8 **ARCHWILIO ALLANOL - LLYTHYR ASESIAID GWELLA** (Tudalennau 35 - 40)

Llythyr Aseiad Gwella

9 **ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 41 - 46)

Cyflwyno adroddiad cynnydd Archwilio Mewnol.

10 **GWELLA'R PWYLLGOR ARCHWILIO** (Tudalennau 47 - 58)

Cyflwyno adroddiad ynglyn â'r uchod.

11 **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2012/13** (Tudalennau 59 - 66)

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor Archwilio.

12 **RHEOLI TRYSORLYS** (Tudalennau 67 - 100)

12.1 Cyflwyno Adroddiad Rheoli Trysorlys Chwarter 3

12.2 Cyflwyno Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2013/14 drafft

This page is intentionally left blank

PWYLLGOR ARCHWILIO

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2012

YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Thomas Jones (Cadeirydd) Y Cynghorydd Eric Roberts (Is-Gadeirydd)
	Y Cynghorwyr Jim Evans, E. G. Davies, Keith Evans, Cliff Everett, G. O. Jones, Alun Mummery
	Aelodau Lleyg - Mr. Richard Barker a Mrs Sharon Warnes
WRTH LAW:	Pennaeth Swyddogaeth Dros Dro (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) Rheolwr Archwilio Mewnol (JF) Swyddog Pwyllgor (ATH)
YMDDIHEURIADAU	Y Cynghorwyr Vaughan Hughes, Ieuan Williams
HEFYD YN BRESENNOL:	Mr. Patrick Green (RSM Tenon), Mrs Lynn Pamment, Joe Hargreaves (PwC), Andy Bruce (SAC)

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Archwilio. Ar ran Aelodau'r Pwyllgor, estynnodd ei longyfarchiadau a'i ddymuniadau gorau i Mrs Lynn Pamment, PwC ar ei phriodas yn ddiweddar.

1 DATGANIAD O DDIDDRDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

2 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 25 Medi 2012.

3 COFRESTR RISG GORFFORAETHOL

Cafwyd diweddariad llafar gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro ar ddatblygiadau yng nghyswllt y Gofrestr Risg Corfforaethol.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro wrth yr Aelodau bod gwaith sylweddol o ran datblygu'r cynllun trawsnewid ar gyfer Môn yn cael ei wneud ar hyn o bryd a bod nifer o faterion eraill ynglŷn â'r ffordd ymlaen hefyd yn cael eu hystyried gan y Tîm Uwch Arweinyddiaeth. Ynghyd â'r gwaith hwnnw, fe geir adolygiad cyffredinol o'r prif risgiau corfforaethol. Mae'r Tîm Uwch Arweinyddiaeth yn y broses o adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol gyda'r nod o'i chwto'i i'r 10 prif risg gorfforaethol y mae angen eu rheoli. Felly mae adolygiad trwyadl o sut y mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei rheoli ar y gweill gyda golwg ar sicrhau bod y ffocws ar y prif risgiau, a hynny'n golygu bod rhai eitemau penodol yn cael eu tynnu allan tra bod rhai eraill yn cael eu cynnwys fel is-benawdau. Mae'r gwaith hwnnw yn ei dro yn bwydo i mewn i'r gwaith a wnaed mewn perthynas â datblygu model gweithredu, ac wedi hynny i'r Cynllun Trawsnewid sy'n cael ei ddatblygu i fynd â materion rhagdynt yn ystod y 6 mis nesaf. Mae'r Gofrestr Risg, y Strategaeth a chyfarwyddyd cysylltiedig wedi cael eu cymeradwyo a sefydlwyd grŵp prosiect i reoli'r strategaeth risg ac fe drefnwyd cyfarfod cychwynnol. Gan dderbyn bod yna gryn waith ar hyn o bryd yng nghyswllt y Gofrestr Risg Gorfforaethol a bod y gofrestr honno yn newid yn gyson, ystyriwyd na fyddai o unrhyw fantais ei chyflwyno i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Archwilio gan y byddai wedi bod yr un fersiwn â'r un

a gyflwynwyd i'r cyfarfod diwethaf. Rhagwelir y bydd y Gofrestr newydd yn cael ei chyflwyno i gyfarfod mis Chwefror 2013 o'r Pwyllgor Archwilio.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

CAMAU GWEITHREDU : Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Dros Dro i gyflwyno'r Gofrestr Risg Gorfforaethol i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio yn Chwefror 2013.

4 ARCHWILIO

4.1 Cyflwynwyd y Llythyr Archwilio Blynyddol am 2011/12 er ystyriaeth y Pwyllgor.

Nododd Mrs Lynn Pamment, PwC y negeseuon allweddol o'r Llythyr Blynyddol fel a ganlyn –

- Barn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifo wedi ei rhyddhau ar 28 Medi, 2012 yn cadarnhau eu bod yn adlewyrchiad gwir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor a'i weithgareddau.
- Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael â materion gyda chynhyrchu'r datganiad cyfrifon a chwrdd â'r amser cau ar gyfer cyhoeddi'r cyfrifon ar 30 Medi.
- Pwysleisiodd yr Archwiliwr Allanol ei fod yn bwysig sicrhau bod y gwelliannau hyn yn cael eu cynnal a bod adnoddau priodol a digonol yn cael eu neilltuo ar gyfer cynhyrchu'r cyfrifon statudol yn unol â'r cyfnodau amser angenrheidiol.
- Roedd yr Archwilydd Allanol yn gyffredinol yn fodlon fod gan y Cyngor drefniadau priodol yn eu lle i sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Roedd meysydd lle'r oedd effeithlonrwydd y trefniadau hyn eto i'w gweld neu lefydd y gellid gwneud gwelliannau wedi eu nodi yn y Llythyr a dygir sylw atynt yn Adroddiad Gwella Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol.
- Nid oedd tystysgrif o gwblhau wedi ei rhyddhau yng nghyswllt y datganiadau cyfrifo hyd yn hyn hyd nes y byddir wedi datrys gwrthwynebiad i'r cyfrifon gan etholwr lleol.

Roedd yr Aelodau yn cydnabod y gwelliannau a'r ymdrechion a wnaed gan y Gwasanaeth Cyllid mewn perthynas â darparu'r datganiad cyfrifon ar amser ac yn unol â'r amserlen statudol. Yn y drafodaeth a ddilynodd ar y Llythyr Archwilio, fe godwyd y materion canlynol –

- Y sefyllfa staffio a'r cynnydd sy'n cael ei wneud i lenwi swyddi uwch gyfrifwyr allweddol yn barhaol ac roedd yr Aelodau yn ystyried fod hynny'n peri risg o gofio am yr angen i gryfhau'r sefyllfa fel y gellir bod yn barod ar gyfer y broses o lunio a pharatoi'r cyfrifon am 2012/13. Eglurodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Dros Dro'r camau ailstrwythuro oedd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater yn cynnwys llenwi bylchau o ran gwybodaeth a sgiliau o fewn cyd-destun y datblygiadau eraill yn cynnwys cyflwyno system ledjer ariannol newydd a goblygiadau hynny i'r ffordd y mae'r Cyngor yn rhedeg ei fusnes.
- Y cynnydd sy'n cael ei wneud gyda datblygu cynlluniau parhad busnes a chynlluniau adfer trychineb wedi i'r ffaith nad oedd cynlluniau o'r fath yn bodoli gael ei hamlygu mewn adroddiadau archwilio allanol ers nifer o flynyddoedd.

Penderfynwyd derbyn y Llythyr Archwilio Blynyddol am 2011/12 a nodi ei gynnwys.

4.2 Cyflwynwyd y Cynllun Gwaith Archwilio Allanol a'r Amserlen am y cyfnod o Chwefror 2012 i Fawrth 2013 er gwybodaeth y Pwyllgor.

Rhoddodd Mr Andy Bruce, Arweinydd Perfformiad Archwilio SAC ddiweddariad i'r Aelodau ar statws y gweithgaredd rheolaethol ar hyn o bryd ar sail Cymru gyfan ac ar sail Ynys Môn gan nodi'r broses a'r amserlen ar gyfer adrodd yn ôl i'r Cyngor ynglŷn â phob darn o waith.

Ceisiwyd eglurhad ar y materion canlynol –

- Gofynnwyd a fydd yr atborth a geir gan yr Archwiliwr Allanol ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2011/12 ar gael mewn pryd i sicrhau arfer dda wrth baratoi ar gyfer Datganiad 2012/13. Cadarnhaodd Mr. Andy Bruce y byddai'n fwy na pharod i ddarparu atborth lleol ynglŷn â Datganiad Llywodraethu Blynyddol Ynys Môn, ond ni allai roddi sicrwydd y byddai atborth ar gael ar waith gwerthuso cyffredinol ar ddatganiadau'r 22 awdurdod yng Nghymru.

- Ym mha ffordd y mae gweithgaredd Bwrdd Adfer Addysg Estyn a'r Cynllun Gwaith Ôl-Arolwg yn ffitio i mewn i'r Rhaglen Rheolaethol prif lif a gyflwynwyd. Nodwyd y disgwylir y bydd y Pwyllgor Archwilio yn derbyn gwybodaeth gyfredol a manylion am unrhyw ddatblygiadau ynglŷn â Chynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Estyn fel rhan o'i swyddogaeth gyffredinol o oruchwylio gweithgaredd rheoleiddiol ar draws y Cyngor.

Penderfynwyd derbyn y diweddariad ar y Cynllun Rheoleiddio fel gwybodaeth.

CAMAU GWEITHREDU : SAC i egluro sut y mae Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Estyn a'r Bwrdd Adfer Addysg yn asio gyda'r Cynllun Gwaith Rheoleiddiol.

4.3 Cyflwynwyd yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Ariannol er gwybodaeth y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa o safbwynt cynnydd yn erbyn cerrig milltir allweddol oedd wedi eu nodi yn y gwaith Archwilio Ariannol amlinellol ar gyfer 2011/12 a'r gwaith ardystio grant.

Rhoddodd Mrs Lynn Pamment, PwC ddiweddariad ar y cynnydd mewn perthynas â'r gwaith ardystio grantiau 2011/12 a hefyd grantiau 2010/11 gyda'r holl hawliadau ar gyfer y flwyddyn honno bellach wedi eu hardystio ac eithrio'r Budd-dâl Tai a'r Cymhorthdal Dreth Gyngor a oedd wrthi'n cael eu hadolygu cyn eu hardystio.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth.

5 ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad cynnydd ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill i 16 Tachwedd 2012.

Tynnodd y Rheolwr Archwilio sylw'r Aelodau at y prif bwyntiau yn yr adroddiad fel a ganlyn –

- Roedd dau adolygiad yn y cyfnod wedi derbyn barn "Sicrwydd Coch" - Diogelwch Data a Rheoli Cofnodiadau Modern ac roedd crynodebau gweithredol yn atodiad B a C yr adroddiad. Roedd yr argymhellion a wnaed mewn nifer o adolygiadau Llywodraethu / Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch Data a gynhaliwyd gan Archwilio Mewnol, PwC a SAC dros y flwyddyn ddiwethaf wedi eu casglu ynghyd yn un Cynllun Gweithredu sydd yn cael sylw gan Grŵp Rheoli Gwybodaeth dan arweiniad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Dros Dro.
- Nifer yr adroddiadau ymgynghorol / ymchwiliol a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod (17). Roedd gwaith cyfeirio wedi tynnu adnoddau o waith Archwilio Mewnol a Gynlluniwyd gan olygu mai dim ond 46% o adolygiadau archwilio sydd wedi eu cwblhau i'r cyfnod drafft, gyda hynny yn 90% yn is na'r targed.
- Roedd y perfformiad gyda gweithredu ar argymhellion archwilio mewnol yn y cyfnod yn is na'r targed gyda 67% o argymhellion Uchel a Chanolig yn cael eu cofnodi fel rhai a weithredwyd.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, nododd yr Aelodau'r materion canlynol -

- Pryder ynglŷn â sefyllfa incwm Oriol Ynys Môn o ystyried bod y costau rhedeg net yn 2011/12 (gwariant llai incwm - yn cynnwys £250k o incwm o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn) yn £33k dros y gyllideb am y flwyddyn. Roedd yr Aelodau o'r farn y dylid ymchwilio ymhellach i incwm hanesyddol yr Oriol. Cytunwyd y dylid codi'r mater yn y lle cyntaf yn y cyfarfod nesaf o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn.
- Y potensial a'r cyfleon i gysylltu gwaith adolygu archwilio mewnol gyda'r rhaglen arbedion ac yn benodol yr agwedd gwerth am arian o fewn y meysydd a adolygwyd. Roedd Mr. Patrick Green, RSM Tenon yn cydnabod y pwynt a wnaed a dywedodd y byddai'r mater o sgopio adolygiadau archwilio i gynnwys y dimensiwn hwnnw yn cael ei drafod gyda swyddogion yn y flwyddyn nesaf os mai dyma'r dull y bydd y Pwyllgor yn ei ffafrio.
- Angen eglurder ynglŷn â'r camau dilynol i'r adolygiad archwilio a wnaed o drefniadau pwrcasu'r Uned Cynnal a Chadw Adeiladau. Eglurodd y Swyddog beth yn union fu'r ysgogiad ar gyfer cynnal yr adolygiad cychwynnol a ddechreuwyd gyda SAC er mwyn cael barn gyffredinol ynglŷn â'r Uned Cynnal a Chadw Adeiladau o ran y modd y mae'n gweithredu a gwerth am arian a beth oedd wedi digwydd fel datblygiadau dilyn i fyny. Mae'r mater yn cael ei ystyried gan y TUA.

- Adolygiad dilyn i fyny o argymhellion ysgolion a'r farn mai cynnydd anfoddhaol a wnaed gan yr ysgolion oedd yn rhan o'r adolygiad yn nhermau gweithredu a'r argymhellion archwilio mewnol blaenorol mewn perthynas â materion llywodraethu. Rhoddodd y Swyddogion amlinelliad o'r mesurau sy'n cael eu cymryd i ddatblygu system i hwyluso ac i sicrhau cydymffurfiaeth gan ysgolion o safbwynt gofynion rheoli a llywodraethu.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.

CAMAU GWEITHREDU : Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Dros Dro i drefnu bod adroddiad gan y Grŵp Rheoli Gwybodaeth ar gael i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio.

6 DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS A'R STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL : ADRODDIAD ADOLYGU CANOL BLWYDDYN 2012/13

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor ac ar gyfer ei sylwadau adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) yn cynnwys datganiad adolygiad canol blwyddyn mewn perthynas â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) at y materion canlynol –

- Y cefndir economaidd, y rhagolygon ar gyfer y tymor byr (gyda sylwadau llawn ar hynny yn Atodiad 1 yr adroddiad) a rhagamcanion
- Sefyllfa gyfalaf y Cyngor fel y ceir manylion amdani yn adran 4 yr adroddiad.
- Portffolio Buddsoddi'r Cyngor am 2012/13 a'i berfformiad ynghyd â'r meini prawf gwrth barti buddsoddi
- Trefniadau a gweithgareddau benthyca
- Cynlluniau cychwynnol ar gyfer 2013/14

Tynnodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) sylw'r Aelodau hefyd at newid sydd ar ddod mewn perthynas â Rheoli'r Trysorlys a benthyca ar ffurf disgwyliad y bydd y trefniant ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai yn dod i ben i'r 11 awdurdod yng Nghymru sydd wedi cadw eu stoc. Fe wneir hyn trwy brynu'r ddyled neu trwy drosglwyddo dyled a rhoddodd amlinelliad o'r hyn sy'n cael ei wneud i baratoi ar gyfer y newid hyd nes y ceir gwybodaeth bendant gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd y Swyddog y byddai'r Pwyllgor Archwilio yn cael gwybodaeth ar y mater hwn cyn gynted ag y bydd honno ar gael.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad canol blwyddyn ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi a'i gyfeirio i'r Cyngor Sir.

**Y Cynghorydd T. H. Jones
Cadeirydd**

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD:	PWYLLGOR ARCHWILIO
DYDDIAD:	5 CHWEFROR 2013
TEITL YR ADRODDIAD:	RHEOLI RISG
PWRPAS YR ADRODDIAD:	ER GWYBODAETH
ADRODDIAD GAN:	PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)
GWEITHREDIAD:	ER GWYBODAETH / YSTYRIED Y GOFRESTR RISG CORFFORAETHOL

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor yn galw a'r y Pwyllgor Archwilio i adolygu'r fframwaith Rheoli Risg ac adolygu a herio'r Gofrestr Risg Corfforaethol a'r cynlluniau gweithredu canlyniadol ar gyfer y prif risgiau corfforaethol.
- 1.2 Fe gyflwynwyd y Gofrestr Risg Corfforaethol cychwynol i'r Pwyllgor Archwilio ym Medi 2012.

2. CYNNYDD AR WEITHREDU'R FFRAMWAITH RHEOLI RISG

- 2.1 Cymeradwywyd y Strategaeth Rheoli Risg a'r Canllawiau Rheoli Risg gan y Pwyllgor Gwaith a'r y 15fed Hydref 2012.
- 2.2 Cyflwynwyd hyfforddiant Rheoli Risg i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith ar y 6ed o Dachwedd 2012.
- 2.3 Cadarnhawyd aelodaeth y Grwp Rheoli Risg yn Nhachwedd 2012 a cynhaliwyd cyfarfod cychwynol y Grwp ar y 18fed o Ragfyr 2012.
- 2.4 Bu'r UDA gwrdd i adolygu'r Gofrestr Risg Corfforaethol ar y 23ain o Ionawr 2013. Dylid nodi bod y cyfarfod hwn wedi ei drefnu'n wreiddiol ar gyfer y 18fed o Ionawr 2013 ond gohirwyd oherwydd yr eira.
- 2.5 Mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant yn parhau i gefnogi Penaethiaid Gwasanaeth i ddatblygu eu Cofrestrau Risg Gwasanaeth.

3. COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

- 3.1 Atodir i'r adroddiad hwn fel Atodiad A y Gofrestr Risg Corfforaethol wedi ei adolygu.

- 3.2 Mae'r diffiniadau risg (y Bregysrwydd), Sbardynion a'r Effeithiau i gyd wedi eu hadolygu gan yr UDA ynghyd â'r Lefelau Risg. Yn anffodus, oherwydd y cyfyngiadau o ran amser yn ystod y cyfarfod ar y 23ain o Ionawr 2013 nid yw'r Mesurau Rheoli wedi eu hadolygu. Gofynnwyd i'r UDA adolygu a diweddarau'r Mesurau Rheoli erbyn diwedd Chwefror 2013
- 3.3 Mae adolygiad yr UDA wedi adnabod y canlynnol fel y pump risg uchaf y Cyngor:-
- YM33 Methu â darparu gwasnaethau o fewn y gyllideb a ddarperir
 - YM36 Methu â chynllunio ar gyfer effaith diwygiadau yn y sector iechyd
 - YM2 Methu â chynnal y gwelliannau wnaes yn nhermau Llywodraethu
 - YM7 Dim yn rheoli gwybodaeth yn effeithlon na'n effeithiol
 - YM38 Methu â chynllunio tai fforddiadwy ac addas i gwrdd ag anghenion y boblogaeth
- 3.4 Bydd y Gofrestr Risg Corfforaethol wastad yn ddogfen byw ac yn datblygu ac, felly, bydd yr UDA a'r Grwp Rheoli Risg yn parhau i adolygu a diweddarau'r ddogfen fel bo'r angen.

4. ARGYMHELLION

- 4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y Gofrestr Risg Corfforaethol.

COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

Cyfeirnod Risk	Perchennog Risg/ Swyddog Arwain	Dyddiad Adnabuwyd neu Diwygiwyd	Risg Adnabuwyd			Lefel Risg			Mesurau Rheoli Ychwanegol / Triniaeth ei angen			Lefel Risg Gweddilliol			Dyddiad Arolygu / Amllder
			Bregysrwydd / Perygl	Sbardun	Effeithiau / Beth neu pwy fydd yn cael eu heffeithio a sut / Canlyniad / Effaith ar amcanion	Tebygrwydd	Llymder	Sgôr	Gweithrediad	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Targed	Tebygrwydd	Llymder	Sgôr	
YM2	Prif Weithredwr	10/2011	Methu â chynnal y gwelliannau wnaed yn nhermau Llywodraethu	<ul style="list-style-type: none"> Etholiadau a chyflwyno wardiau mwy nac un aelod ayb Ansefydlogrwydd gwleidyddol 	<ul style="list-style-type: none"> Amcanion heb eu cyflawni Niwed i enw da Ymyrraeth pellach Ansicrwydd Morâl isel 	3	5	15							
YM1	Prif Weithredwr	10/2011	Methu â gweithio ar y cyd gydag eraill er budd y Cyngor, neu parhau i weithio ar y cyd lle nad oes buddiannau i'r Cyngor o wneud hyn	<ul style="list-style-type: none"> Pwysau Cyllidebol Agenda LIC Perthnasau Gwael Diffyg hyder yn y Cyngor Diffyg Cynllunio Diffyg Ymgynghori Rhwystrau Gwleidyddol 	<ul style="list-style-type: none"> Niwed i enw da Gwasanaethau llai effeithiol Amcanion heb eu cyflawni Diffyg gwelliant ym meysydd allweddol Ymyrraeth allanol (dim cydweithio) Colli gwneud penderfyniadau yn lleol (pan yn cydweithio) Colli cyllid (dim cydweithio) 	4	3	12							
YM8	Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)	10/2011	Methu â chynllunio am ostyngiad mewn cyllid	<ul style="list-style-type: none"> Setliad llai gan LIC Llai o incwm Ddim yn gymwys i ymgeisio am rhai ffynonellau cyllido Effeithiau chwyddiannol a chyfraddau llog Blaenoriaethau fforddiadwy - arbedion heb eu cyflawni 	<ul style="list-style-type: none"> Amcanion heb eu cyflawni Lleihad yn y gwasanaethau a ddarperir Ansawdd is o wasanaethau a ddarperir Niwed i enw da Diffyg gwelliant ym meysydd allweddol Ymyrraeth allanol 	3	4	12							
YM33	Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)	01/2013	Methu â darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb a ddarperir	<ul style="list-style-type: none"> Cyllidebau yn lleihau Cynnydd yn y galw am wasanaeth Diffyg gwybodaeth amserol i rheolaeth ariannol / rheolaeth gyllidebol 	<ul style="list-style-type: none"> Lleihad yng ngwasanaethau a ddarperir mewn blynyddoedd sydd i ddod Niwed i enw da Diffyg gwelliant ym meysydd allweddol 	5	4	20							
YM9	Dirpwy Prif Weithredwr	10/2011	Diffyg capasiti a/ neu'r gallu i ymgymryd llwyth gwaith y Cyngor	<ul style="list-style-type: none"> Dyletswyddau cynyddol neu ychwanegol Awdurdod bach Diffyg systemau cyfunedig Trefniadau cynllunio gweithlu gwan Gofynion allanol Prosiectau mawr (e.e. Wylfa, Ynys Ynni) 	<ul style="list-style-type: none"> Amcanion heb eu cyflawni Oediadau Lleihad yn y gwasanaethau a ddarperir Ansawdd is o wasanaethau a ddarperir Niwed i enw da Morâl staff isel Lefelau damweiniau a salwch uwch Anodd cadw staff Cynnydd yn y dibyniad ar staff dros dro a rhai asiantaeth Ansicrwydd 	3	4	12							
YM32	Dirpwy Prif Weithredwr/ Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)	10/2011	Methu â chwblhau yr adolygiad Arfarnu Swyddi	<ul style="list-style-type: none"> Gofyn statudol i ymgymryd Adolygiad Tâl a Graddfeydd Amser cymerwyd hyd yma i ymgymryd Adolygiad Tâl a Graddfeydd (>10 mlynedd) 	<ul style="list-style-type: none"> Morâl staff isel Lefelau tâl anghystadleuol Risg uwch o anghydraddoldeb tâl yn parhau 	3	2	6							
YM34	Dirpwy Prif Weithredwr	01/2013	Methu â chyraedd cytundeb mewn perthynas â hawliadau tâl cyfartal	<ul style="list-style-type: none"> Oedi yn cwblhau Arfarnu Swyddi 	<ul style="list-style-type: none"> Niwed i enw da Costau ariannol uwch 	3	4	12							
YM3	Dirpwy Prif Weithredwr	10/2011	Trefniadau Cynllunio Busnes, Rheoli Risg, a Rheoli Perfformiad gwan	<ul style="list-style-type: none"> Diffyg capasiti Heb ei wreiddio'n llawn Gweithrediadau digysylltiad Diffyg gwerthfawrogiad am y gofyn a'r angen i gynllunio Trawiad prosiectau mawr (e.e. Wylfa, Ynys Ynni) Targedau perfformiad ddim yn cael eu gweld yn bwysig o fewn y Cyngor 	<ul style="list-style-type: none"> Ansicrwydd Gwneud penderfyniadau anaddas Deunydd aneffeithiol o adnoddau Beirmiadaeth gan rheoleiddwyr Diffyg atebolrwydd, cydymffurfiaeth a sicrwydd Methu â chyflawni targedau allweddol Effaith ariannol 	3	4	12							

COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

Cyfeirnod Risk	Perchennog Risg/ Swyddog Arwain	Dyddiad Adnabuwyd neu Diwygiwyd	Risg Adnabuwyd			Lefel Risg			Mesurau Rheoli Ychwanegol / Triniaeth ei angen			Lefel Risg Gweddilliol			Dyddiad Arolygu / Amllder
			Bregysrwydd / Perygl	Sbardun	Effeithiau / Beth neu pwy fydd yn cael eu heffeithio a sut / Canlyniad / Effaith ar amcanion	Tebygrwydd	Llymder	Sgôr	Gweithrediad	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Targed	Tebygrwydd	Llymder	Sgôr	
YM13	Dirpwy Prif Weithredwr	10/2011	Cyfathrebu mewnol annigonol ac aneffeithiol	<ul style="list-style-type: none"> Cyfathrebu gwael Diffyg gwerthfawrogi'r angen i ymgynghori 	<ul style="list-style-type: none"> Niwed i enw da Amser a chost o ddelio â chwynion Penderfyniadau anaddas Dyblygu Darpariaeth gwasanaeth llai effeithiol 	3	2	6							
YM22	Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy	10/2011	Methu â rheoli Adeiladau a Thir yn effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> Cyfngiadau cyllidebol Gofynion deddfwrol Diffyg hanesyddol o fuddsoddi Gofynion datblygol parhaus y Cyngor Dirywiad economaidd 	<ul style="list-style-type: none"> Colli / llai o incwm Costau uwch atgyweiriadau a chynnal a chadw Yr angen am atgyweiriadau argyfwng Staff yn gweithio mewn cyflyrau anaddas (e.e. adeiladau dros dro, diffyg lle) Gormodedd o gapasiti lle mewn rhai llefydd Tor-cyfraith iechyd a diogelwch Adeiladau gwag yn draen ar adnoddau 	3	4	12							
YM7	Pennaeth Swyddogaeth - Adnoddau	10/2011	Risg o beidio rheoli gwybodaeth yn effeithlon na'n effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> Systemau TG mawr nad yw'n addas Diffyg buddsoddi yn systemau TG Cyfngiadau cyllidebol Gofynion deddfwrol Gofyn datblygol parhaus y Cyngor 	<ul style="list-style-type: none"> Analluedd i gydymffurfio ag anghenion cyfreithiol / statudol / contract Data cywir a chyfredol ddim ar gael yn cael effaith ar benderfyniadau Dyblygu Gwasanaethau llai effeithlon Colli / llai o incwm 	5	3	15							
YM31	Pennaeth Swyddogaeth Cyfreithiol a Gweinyddol / Pennaeth Swyddogaeth Adnoddau	08/2012	Risg o beidio gydymffurfio â gofynion data	<ul style="list-style-type: none"> Systemau anniogel Gwall dynol Trefniadau storio/gwaredu annigonol Diffyg arweiniad corfforaethol 	<ul style="list-style-type: none"> Niwed i enw da Cosbau Ariannol 	4	3	12							
YM20	Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy	10/2011	Ddim hefo trefniadau Rheoli Parhad Busnes addas na chadarn yn eu lle	<ul style="list-style-type: none"> Rheoli Parhad Busnes aneffeithiol Diffyg gwerthfawrogi o'r anghenion statudol a'u heffaith Diffyg capasiti 	<ul style="list-style-type: none"> Methu ag ymateb yn briodol Amharu ar wasnaethau Y Cyngor yn methu â chydymffurfio a'i ddyletswydd o dan y Ddeddf Argyfwng Sifil Niwed i enw da Adfer hir 	2	4	8							
YM28	Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy	10/2011	Methu â chwrdd â thargedau effeithlonrwydd ynni	<ul style="list-style-type: none"> Prisiau farchnad cynyddol Methu â diogelu/adnewyddu termau contract ffafriol Targedau mwy llym Diffyg cyfranogiad cydranddeiliaid Diffyg cyllideb ar gael 	<ul style="list-style-type: none"> Costau uwch Effaith ar y gyllideb ar gael 	3	3	9							
YM19		10/2011	Methu â chynllunio ar gyfer effaith y		<ul style="list-style-type: none"> Gwaethygu cynhwysiant ariannol 	2	4	8							

Tudalen 8

Tebygolrwydd: 1 = Prin 2 = Annhebygol 3 = Posib/Cymedrol 4 = Tebygol 5 = Bron yn Bendant / Digwydd yn Barod Llymder: 1 = Dibwys 2 = Bychan 3 = Cymedrol 4 = Mawr 5 = Trychinebus

Risg Uchel Risg Canolig Risg Isel Aros am Wybodaeth

COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

Tudalen 9

Cyfeirnod Risk	Perchennog Risg/ Swyddog Arwain	Dyddiad Adnabuwyd neu Diwygiwyd	Risg Adnabuwyd			Lefel Risg			Mesurau Rheoli Ychwanegol / Triniaeth ei angen			Lefel Risg Gweddilliol			Dyddiad Arolygu / Amllder
			Bregysrwydd / Perygl	Sbardun	Effeithiau / Beth neu pwy fydd yn cael eu heffeithio a sut / Canlyniad / Effaith ar amcanion	Tebygrwydd	Llymder	Sgôr	Gweithrediad	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Targed	Tebygrwydd	Llymder	Sgôr	
			Diwygiadau Buddiannau Lles	<ul style="list-style-type: none"> Newidiadau i'r system Buddiannau Lles yn genedlaethol Diwygiadau Gronfa Gymdeithasol Diffyg manylder darparir o Llywodraeth Ganol a Chymraeg 	<ul style="list-style-type: none"> Cynnydd yn ymddygiad gwrth-gymdeithasol a gweithgareddau troseddol yn cynnwys twyll Cynnydd sylweddol yn ôl-ddyledion y Dreth Gyngor a Rent - £1m diffyg posibl yn y Dreth Gyngor Colli incwm i Gwasanaethau Tai, yn effeithio ymarferoldeb y cynllun busnes 30 mlynedd Cynnydd yn ddigartrefedd a dyled unigolyn Lleihad incwm wrth i'r gallu i dalu am wasanaethau penodol leihau Costau uwch Galw uwch am wasanaeth, yn cynnwys cefnogaeth ychwanegol a gwasanaethau cynghori Amser ychwanegol i asesu ceisiadau 										
YM23	Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes	08/2012	Methu â gweithredu cynnwys y cynllun ôl – arolygiad Estyn a gwella perfformiad yn erbyn y dangosyddion allweddol	<ul style="list-style-type: none"> Darganfyddwyd arolygiad Estyn fod perfformiad a'r rhagolygon i wella yn anfodddhaol Disgwyliadau Gweinidog Addysg a Sgiliau Disgwyliad ar y Cyngor i gyflwyno gwelliannau 	<ul style="list-style-type: none"> Ymyrraeth allanol pellach Canlyniadau difrifol i wasanaethau Addysg ar Ynys Môn 	2	4	8							
YM24	Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes	08/2012	Ddim yn delio â llyfdd dros ben yn ysgolion cynradd ac uwchradd y Cyngor.	<ul style="list-style-type: none"> Anghydwysedd yn y galw a'r cyflenwi Disgwyliadau LIC a'r rheoleiddwyr allanol Yr angen am ddefnydd mwy effeithlon o adnoddau Diffyg cyllideb i gynnal adeiladau ysgolion Capasiti arweinyddiaeth 	<ul style="list-style-type: none"> Canlyniadau ariannol tymor hwy Cost uwch o ddarparu gwasanaeth Canfyddiad rheoleiddwyr allanol o'r Cyngor 	2	5	10							
YM25	Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes	08/2012	Methu ag ymateb i adroddiad Estyn mewn perthynas ag Ysgol Uwchradd Caergybi, yn enwedig y diffyg yn y gyllideb	<ul style="list-style-type: none"> Disgwyliadau Estyn Disgwyliadau'r Awdurdod o'r Ysgol. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall gosod yr ysgol o dan fesurau arbennig, fyddai'n dylanwadu canfyddiad Estyn o'r Awdurdod. Niwed i enw da'r ysgol a'r Cyngor Lleihad yn nifer y disgyblion yn dewis yr ysgol 	4	3	12							
YM27	Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes	08/2012	Gwasanaeth rhanbarthol gwella ysgol ddim yn cael ei sefydlu.	<ul style="list-style-type: none"> Agenda cydweithio – disgwyliadau LIC Arbedion effeithlonrwydd 	<ul style="list-style-type: none"> Ansicrwydd ac effaith ar capasiti cefnogaeth ar amser pan fo hyn yn flaenoriaeth Lleihad yn ansawdd gwasanaeth ac amser ymateb 	2	3	6							
YM5	Cyfarwyddwr Cymuned	10/2011	Methu â chwrrd â gofynion y boblogaeth oedolion, yn enwedig y rheini sy'n gymwys am gefnogaeth	<ul style="list-style-type: none"> Newidiadau demograffeg Cyffredinolrwydd uwch o orffwylltra Newid yng nghyllido o'r Gwasanaeth Iechyd a LIC Newidiadau i Buddiannau Lles Dyfarniad diweddar yn ymwneud â setlo ffioedd ar gyfer cartrefi Preswyl / Nyrsio Annibynnol 	<ul style="list-style-type: none"> Galw uwch am wasanaethau yn y dyfodol Llai o incwm Costau cynyddol, yn enwedig mewn perthynas â'r cyllidebau ar gael Lleihad yn ansawdd gwasanaeth Ymyrraeth allanol Niwed i enw da Anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid heb eu cwrrd 	3	3	9							
YM16	Cyfarwyddwr Cymuned	10/2011	Methu â chwrrd â gofynion Plant Ynys Môn, yn enwedig y rhieni sy'n gymwys am gefnogaeth ac amddiffyniad	<ul style="list-style-type: none"> Asesiadau a monitro annigonol Diffyg dogfennaeth Diffyg canllawiau priodol a hyfforddiant Cyfathrebu gwael Trosiant uchel o staff 	<ul style="list-style-type: none"> Ymyriadau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant dan fygythiad Cyflawni canlyniadau da ar gyfer plant dan fygythiad Amcanion allweddol na thargedau heb eu cyflawni 	3	4	12							

COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

Cyfeirnod Risk	Perchennog Risg/ Swyddog Arwain	Dyddiad Adnabuwyd neu Diwygiwyd	Risg Adnabuwyd			Lefel Risg			Mesurau Rheoli Ychwanegol / Triniaeth ei angen			Lefel Risg Gweddilliol			Dyddiad Arolygu / Amllder
			Bregysrwydd / Perygl	Sbardun	Effeithiau / Beth neu pwy fydd yn cael eu heffeithio a sut / Canlyniad / Effaith ar amcanion	Tebygrwydd	Llymder	Sgôr	Gweithrediad	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Targed	Tebygrwydd	Llymder	Sgôr	
				<ul style="list-style-type: none"> Diffyg capasiti Galw cynyddol am wasanaethau 	<ul style="list-style-type: none"> Ymyrraeth allanol Anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid heb eu cwrdd Penderfyniadau yn cael eu gwneud heb ystyried barn / buddiannau cydranddeiliad Gwasanaeth llai effeithiol Cynnydd mewn cwynion, hawliadau ac ymrwymadau Cynnydd yn y pwysau ar y cyllidebau Morâl staff isel a lefelau salwch uchel Diffyg darpariaeth arall, yn cynnwys allsirol 										
YM38	Cyfarwyddwr Cymuned	11/2011	Methu â cynllunio tai fforddiadwy ac addas i gwrdd ag anghenion y boblogaeth	<ul style="list-style-type: none"> Diffyg mewnbwn/cynnydd Diffyg capasiti 	<ul style="list-style-type: none"> Dim yn cwrdd â'r targedau Colli arian grant o LIC i'r Awdurdod (Cytundeb Canlyniad) Cynnydd yn y galw am wasanaethau eraill (digartref, gwasanaethau cymdeithasol ayyb) 	3	5	15							
YM37	Cyfarwyddwr Cymuned	08/2012	Methu â cynllunio ar gyfer mynediad i wasanaethau hamdden i gwrdd ag anghenion y boblogaeth	<ul style="list-style-type: none"> Diffyg penderfyniadau Corfforaethol. Diffyg cyfleusterau addas a darpariaeth gwasanaeth. Diffyg buddsoddiad yn hanesyddol. 	<ul style="list-style-type: none"> Dirywiad pellach yn y cyfleusterau (adeiladau) a'r gwasanaethau ar gael Diffyg darpariaeth ar gyfer gweithgareddau gofal cymunedol Cynnydd yn y galw am wasanaethau eraill (ymddygiad gwrth-gymdeithasol ayyb) 	2	3	6							
YM29	Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy	10/2011	Methu â chwrdd â thargedau Rheoli Gwastraff.	<ul style="list-style-type: none"> Targedau mwy llym Diffyg cyfranogiad cydranddeiliaid 	<ul style="list-style-type: none"> Effaith ar y gyllideb ar gael Cosbau ariannol 	3	4	12							
Tudalen 10 YM35	Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy	10/2011	Ddim hefo trefniadau Cynllunio Argyfwng addas na chadarn yn eu lle	<ul style="list-style-type: none"> Diffyg gwerthfawrogi o'r anghenion statudol a'u heffaith Diffyg capasiti 	<ul style="list-style-type: none"> Methu ag ymateb yn briodol Y Cyngor yn methu â chydymffurfio a'i ddyletswydd o dan y Ddeddf Argyfwng Sifil Niwed i enw da 	4	2	8							
YM36	Cyfarwyddwr Cymuned	01/2013	Methu â chynllunio ar gyfer effaith diwygiadau yn y sector iechyd	<ul style="list-style-type: none"> Diffyg gwybodaeth gan LIC a'r Ymddirololaeth Iechyd Diffyg capasiti 	<ul style="list-style-type: none"> Beichiau ychwanegol yn nhermau darparu gwasanaeth Costau ychwanegol Costau heb eu cyllido amdanynt 	4	4	16							



Diweddariad ar raglen waith perfformiad ar gyfer y Pwyllgor Archwilio 5 Chwefror 2013 Cyngor Sir Ynys Môn

Astudiaeth Gwella – Effeithiolrwydd Craffu

Mae'r prosiect yma'n mynd yn ei flaen ac yn ymwneud â'n tîm arolygu canolog. Bydd tîm cyfnewid dysgu gan gymheiriaid Ynys Môn ym ymweld â dau bwyllgor yng Nghonwy dros y misoedd nesaf, tra bydd tîm Gwynedd yn ymweld â dau bwyllgor yn Ynys Môn. Mae adborth wedi ei amserlennu rhwng mis Mawrth a mis Medi 2013, a bydd yn cael ei gefnogi gan adroddiad cenedlaethol.

Astudiaeth Gwella – Paratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae'r gwaith maes ar gyfer y prosiect wedi'i gwblhau. Bydd adborth lleol ar gyfer Ynys Môn yn cael ei ddarparu ym mis Chwefror, fodd bynnag, byddem yn argymhell fformat cyffredin ar gyfer adborth lleol. Cafwyd awgrym y dylir rhoi adborth i 'ymarferwyr' gyntaf, ac yna crynhoi â'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr mewn cyfarfod dilynol. Efallai fod y Pwyllgor Archwilio yn awyddus i glywed ein canfyddiadau yn y dyfodol. Dylai'r adborth cenedlaethol ledled Cymru fod wedi cael ei roi erbyn mis Mai 2013 ac mae Swyddfa Archwilio Cymru yn bwriadu cynnal nifer o ddigwyddiadau rhannu dysgu ar gyfer swyddogion ac aelodau'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2013.

Profi ac Archwilio Cyhoeddiad Asesu Perfformiad y Cyngor

Mae'r gwaith wedi ei gwblhau ac yn rhan o Lythyr Asesu Gwelliant 2 o dan y Mesur. Mae hwn yn adolygiad o pa mor dda mae'r Cyngor wedi adrodd ar ei berfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r llythyr yma wedi cael ei anfon ac mae ar agenda'r Pwyllgor Archwilio.

Archwilio Mekanweithiau Hunan-werthuso

Mae'r gwaith yma yn rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol sydd wedi ei drefnu ar gyfer mis Chwefror 2013. Mae'n edrych ar ba mor gadarn mae'r Cyngor yn hunan-werthuso.

Arolygu Budd-daliadau Tai a'r Treth Gyngor

Mae'r gwaith wedi ei gwblhau, ac mae adborth wedi cael ei roi yn uniongyrchol gan y tîm adolygu canolog. Bydd y canfyddiadau o'r adolygiad yn ffurfio rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol; y bwriad yw i'w gwblhau erbyn diwedd mis Chwefror 2013.

Cydweithio

Bydd yr astudiaeth yma yn cymryd lle tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon ac ar ddechrau 2013-14. Bydd yn canolbwyntio ar y graddau y mae awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithio â'i gilydd i atal cwmpo ymhlith pobl hŷn. Mae atal cwmpo yn debygol o leihau costau yn y dyfodol i wasanaethau cymdeithasol a'r GIG, ynghyd â gwella safon bywyd pobl hŷn.

Gwaith sy'n benodol i Ynys Môn

Digartrefedd

Mae'r adolygiad yn agos at gael ei gwblhau a bydd y canfyddiadau yn cael eu nodi yn hwyrach eleni yn Llythyr Asesu Gwelliant 1.

This page is intentionally left blank

	A	B	D	E	F	G	H	I	J	K	L
2	Cynllun Gwaith ac Amserlen Chwe 2012 - Mawrth 2013		Rheolwr Rhanbarthol Llywodraeth Leol					Huw Lloyd Jones			
3			Arweinydd Archwiliad Perfformiad					Andy Bruce			
4			Arweinydd Ymgysylltu ag Archwilio Ariannol					Lynn Hine			
5			Rheolwr Archwilio Ariannol					James Quance			
6			Arolygydd cyswilt AGGCC					Marc Roberts			
7	ENW'R AWDURDOD - Cyngor Sir Ynys Môn		Arolygydd Cyswilt Estyn					Maldwyn Pryse			
8											
9	Sefyllfa ar ddiwedd Chwefror 2013										
10											
11											
12			2012				2013				
13	Gweithgarwch	Allbwn	Chwe-Mawrth	Ebrill-Mehefin	Gorff-Medi	Hyd-Rhag	Ion-Mawrth	Statws	Unigolyn Cyswilt Rheoleiddio	Unigolyn Cyswilt y	Sylw
14	Gwaith sy'n cael ei wneud ym mhob un o'r cyngorau										
15	Gwirio cynnydd - meysydd i'w gwella	Llythyr IA 1 2012									
16	TRhC Newydd							Parhaus	James Quance	Neville Evans	Gan fod y rhain yn barhaus, gall fod mwy o albynnau yn Llythyr IA 2 a'r Adroddiad Gwella Blynnyddol
17	Trosglwyddo pŵer i aelodau							Parhaus	Huw Lloyd Jones	Neville Evans	Gan fod y rhain yn barhaus, gall fod mwy o albynnau yn Llythyr IA 2 a'r Adroddiad Gwella Blynnyddol
18	Cynhwysedd a Gallu							Parhaus	James Quance	Neville Evans	Gan fod y rhain yn barhaus, gall fod mwy o albynnau yn Llythyr IA 2 a'r Adroddiad Gwella Blynnyddol
19	Mesurau llwyddiant, amcanion gwella, ac ati							Cwblhawyd	John Roberts	Neville Evans	Adborth
20	Arall amrywiol							Parhaus	James Quance	Neville Evans	Gan fod y rhain yn barhaus, gall fod mwy o albynnau yn Llythyr IA 2 a'r Adroddiad Gwella Blynnyddol
21	Gwirio cynnydd - meysydd eraill i'w monitro	Llythyr AG 1 2012						Cwblhawyd	Andy Bruce	Neville Evans	Adroddwyd i'r Cyngor ym mis Medi 2012
22	Archwilio Cynllun Gwella 2012	Llythyr AG 1 2012						Cwblhawyd	Andy Bruce	Neville Evans	Adroddwyd i'r Cyngor ym mis Medi 2013
23	Astudiaeth Wella - Effeithiolrwydd craffu	adroddiad cenedlaethol						Parhaus	Andy Bruce	Neville Evans	Mae'r prosiect yma'n mynd yn ei flaen ac yn ymwneud â'n tim arolygu canolog. Bydd tim cyfnewid dysgu gan gymheiriaid Ynys Mae'r gwaith maes ar gyfer y prosiect wedi'i gwblhau. Bydd adborth lleol ar gyfer Ynys Môn yn cael ei ddatparu ym mis Chwefror, fodd bynnag, byddem yn argymhell fformat cyffredin ar gyfer adborth lleol. Dylai'r adborth cenedlaethol ledled Cymru fod yn parhau'n ddwyreolaidd.
24	Astudiaeth Wella - Paratoi Datganiadau Llywodraethu Blynnyddol	Adborth Lleol /Cenedlaethol						Parhaus	Andy Bruce	Neville Evans	Bydd y gwaith yn cael ei fwyo yn ôl drwy'r rhwydwaith arfer da (GPX) ac o bosib rhai seminarau, gynnar yn 2013
25	Profi ac Archwilio Cyhoeddiad Asesu Perfformiad Cyngorau	Llythyr AG 2 2012						Cwblhawyd	Andy Bruce	Neville Evans	
26	Archwiliad o Ddangosyddion Perfformiad	Llythyr AG 2 2012						Cwblhawyd	James Quance	Neville Evans	
27	Archwilio mecanweithiau hunanwerthuso	AGB 2013						Parhaus	Andy Bruce	Neville Evans	Mae'r gwaith yn ffurfio rhan o'r Adroddiad Gwella Blynnyddol yn cael ei gynnal ym mis Ionawr 2013. Bydd yr adroddiad yn ddyledus yn Chwefror 2013
28	Astudiaeth Cymru Gyfan Llywodraeth Leol 2011-12 – Her Ariannol	GPX						Cwblhawyd	John Roberts	Neville Evans	Bydd y gwaith yn cael ei fwyo yn ôl drwy'r rhwydwaith arfer da (GPX) ac o bosib rhai seminarau, gynnar yn 2013
29	Arolygu budd-dal Tai a Threth y Cyngor	adborth i'r Cyngor						Cwblhawyd	Andy Bruce	Neville Evans	Mae'r gwaith wedi ei gwblhau, ac mae adborth wedi cael ei roi yn uniongyrchol gan y tim adolygu canolog. Bydd y canfyddiadau o'r adolygiad yn ffurfio rhan o'r Adroddiad Gwella Blynnyddol; y bwriad yw i'w gwblhau erbyn diwedd mis Chwefror 2013.
30	Astudiaeth Cymru Gyfan Llywodraeth Leol 2012-13 – NACH	Adroddiad Cymru Gyfan						Heb ddechrau	Andy Bruce	Neville Evans	Mae'r gwaith yn cael ei gynllunio ar gyfer Mawrth 2013
31	Gwirio cynnydd - meysydd i'w gwella	Llythyr AG 1 2013						Heb ddechrau	Andy Bruce	Neville Evans	
32	Gwirio cynnydd - meysydd eraill i'w monitro	Llythyr AG 1 2013						Heb ddechrau	Andy Bruce	Neville Evans	

	A	B	D	E	F	G	H	I	J	K	L
13	Gweithgarwch	Allbwn	Chwe-Mawrth	Ebrill-Mehefin	Gorff-Medi	Hyd-Rhag	Ion-Mawrth	Statws	Unigolyn Cyswllt Rheoleiddio	Unigolyn Cyswllt y	Sylw
73											

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad ar gynnydd yr archwiliad ariannol i'r Pwyllgor Archwilio - 5 Chwefror 2013

Chwefror 2013

Y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilwyr a Chyrff Archwiliatedig

Rydym yn cynnal ein harchwiliad yn unol â Chod Ymarfer Archwilio (y Cod) Archwilydd Cyffredinol Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2010. Caiff hwn ei ategu gan y Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilwyr a Chyrff Archwiliatedig, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005. Mae'r ddwy ddogfen ar gael gan Brif Weithredwr pob corff archwiliatedig. Diben y datganiad hwn yw cynorthwyo archwilwyr a chyrff archwiliatedig drwy esbonio cumpas cyfrifoldebau archwilwyr, a'r hyn a ddisgwylir gan gyrff archwiliatedig mewn meysydd penodol. Paratoir ein hadroddiadau a'n llythyrau yng nghyd-destun y datganiad hwn ac yn unol â'r Cod.

Caiff yr adroddiadau a'r llythyrau a baratoir gan archwilwyr a benodwyd a'u cyfeirio at aelodau neu swyddogion eu paratoi at ddefnydd y corff archwiliatedig yn unig, ac nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr archwilwyr i unrhyw Aelod neu swyddog yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.



Tabl Cynnwys

Datganiad am sefyllfa archwiliad ariannol 2012/13.....	3
Datganiad Cyfrifon 2011/12.....	3
Grantiau.....	3
Trefniadau cysylltu.....	4

Datganiad am sefyllfa archwiliad ariannol 2012/13

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt yr archwiliad ariannol yn erbyn y cerrig milltir allweddol terfynol a nodir yn yr amlinelliad o Archwiliad ariannol 2012/13 a gwaith ardystio grantiau i reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio.

	Erbyn	Cynnydd hyd yma
Cyfrifon		
Amlinelliad o archwiliad ariannol 2012/13	Chwefror 2013	Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Chwefror.
Adolygiad interim a chynllunio'r archwiliad o'r cyfrifon	Mawrth/Ebrill 2013	Cytunir ar y trefniadau gyda'r rheolwyr.
Profi datganiadau ariannol	Gorffennaf – Medi 2013	I'w gynnal o ddechrau mis Gorffennaf.
Adroddiad ar y cyfrifon terfynol (ISA 260)	Medi 2013	Cyflwynwyd i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2013.
Barn archwilio a thystysgrif gwblhau	Medi 2013	Rhoddyd gan yr archwilydd penodedig cyn diwedd mis Medi 2013
Cyfrifon y llywodraeth gyfan	Medi 2013	I'w cwblhau a'u hardystio cyn diwedd mis Medi 2013.
Llythyr blynyddol	Tachwedd 2013	I'w gyflwyno i'r Cyngor erbyn diwedd mis Tachwedd 2013.

Datganiad Cyfrifon 2011/12

Gwnaethom hysbysu cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio na roddodd yr Archwilydd Penodedig dystysgrif gwblhau am fod etholwr lleol wedi gwneud nifer o wrthwynebiadau i'r cyfrifon a oedd yn gofyn am ragor o wybodaeth a gwaith ymchwil. Cawsom ragor o wybodaeth gan y Cyngor a'r etholwr ac rydym wedi gwneud gwaith maes archwilio i ddilysu'r dystiolaeth a roddwyd gan y Cyngor. Rydym yn gwneud gwaith dilynol ar nifer fach o ymholiadau er mwyn dod â'r mater hwn i ben.

Grantiau

Grantiau 2010/11

Rydym bellach wedi ardystio pob un o hawliadau 2010/11.

Grantiau 2011/12

Ar dystiwyd y rhan fwyaf o hawliadau 2011/12 yr oedd yn ofynnol eu cyflwyno cyn diwedd mis Hydref, mis Tachwedd a mis Rhagfyr, ac eithrio'r Cymhorthdal Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Gyngor, Cronfa Ganlyniadau Cymunedau yn Gyntaf Porthyfelin a'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae gwaith maes yn mynd rhagddo ar gyfer pob un o'r hawliadau hyn. Gwnaed cynnydd da hefyd o ran hawliad grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol y mae'n ofynnol ei gyflwyno erbyn 31 Ionawr 2013.

Trefniadau cysylltu

â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r gwasanaeth archwilio mewnol i sicrhau dull archwilio effeithiol. Adolygwyd Cynllun Gweithredol y gwasanaeth Archwilio Mewnol sy'n cynnwys meysydd gwaith ar systemau ariannol craidd a ddefnyddir gennym i lywio ein gwaith ar gyfrifon 2012/13.

â'r rheolwyr

Rydym yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â'r rheolwyr i sicrhau ein bod yn deall y materion allweddol a wynebier gan y Cyngor er mwyn asesu eu heffaith ar ein dull archwilio. Rydym yn parhau i weithio gyda'r rheolwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer rhoi system gyfrifyddu newydd ar waith a pharhau â momentwm y gwelliant a nodwyd yn ystod proses cyfrifon ac archwilio 2011/12.

â SAC

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda SAC ac yn ei chefnogi gyda'i gwaith parthed y Mesur Llywodraeth Leol.

Rydym hefyd yn mynd i gyfarfodydd rheolaidd gyda'r Archwilydd Penodedig, Anthony Barrett a chydag archwilydd eraill awdurdodau lleol yng Nghymru yn y Grŵp Ymarferwyr Llywodraeth Leol sy'n cyfarfod bob chwarter.

Os derbynir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw'r deiliad, Cyngor Sir Ynys Môn, at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r Cod hwn yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, fel ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae trydydd partïon perthnasol yn cynnwys PricewaterhouseCoopers LLP ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Am ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost i infoofficer@wao.gov.uk.

(h) 2013 PricewaterhouseCoopers LLP. Cedwir pob hawl. Mae "PricewaterhouseCoopers" yn cyfeirio at PricewaterhouseCoopers LLP (partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn y Deyrnas Unedig) neu, gan ddibynnu ar y cyd-destun, gwmnïau eraill sy'n aelodau o PricewaterhouseCoopers International Limited, y mae pob un ohonynt yn endid cyfreithiol annibynnol ac ar wahân.

Diogelir yr adroddiad hwn o dan gyfreithiau hawlfraint y Deyrnas Unedig a gwledydd eraill. Ni chaniateir defnyddio'r wybodaeth hon, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, na'i datgelu heb ganiatâd ysgrifenedig PricewaterhouseCoopers LLP.

This page is intentionally left blank



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol

Cyngor Sir Ynys Môn

Blwyddyn archwilio: 2012-13

Cyhoeddwyd: Ionawr 2013

Cyfeirnod y ddogfen: C13111

Statws y ddogfen

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn fel rhan o'r gwaith a gyflawnir/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

I'r graddau a ganiateir yn ôl y gyfraith, nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn derbyn unrhyw atebolrwydd am golledion yr aed iddynt gan unrhyw aelod, swyddog neu gyflogai arall yn unigol, nac unrhyw drydydd parti o ganlyniad i ddefnyddio'r ddogfen hon.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiïon perthnasol.

Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n berthnasol, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Lluniwyd y ddogfen hon gan PwC.

Cynnwys

Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol

Rolau a chyfrifoldebau	4
------------------------	---

Y dull archwilio	5
------------------	---

Cyflwyno adroddiadau	8
----------------------	---

Ffi archwilio	9
---------------	---

Atodiadau

Elfennau allweddol o'r gwaith archwilio	11
---	----

Tîm yr archwiliad ariannol	12
----------------------------	----

Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol

Rolau a chyfrifoldebau

1. Paratowyd yr Amlinelliad hwn o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol i fodloni gofynion y safonau archwilio ac arferion archwilio priodol. Mae'n rhoi amlinelliad i Gyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) o'r gwaith archwilio ariannol sydd ei angen ar gyfer datganiadau ariannol 2012-13.
2. O dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am benodi archwilwyr allanol (archwilwyr penodedig) ar gyfer cyrff llywodraeth leol.
3. Fel Archwilydd Penodedig, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi ystyried ac ardystio cyfrifon yr Awdurdod. Yn unol â safonau proffesiynol sy'n gymwys yn rhinwedd y Cod Ymarfer Archwilio a bennwyd o dan y ddeddf, mae hyn yn cynnwys rhoi barn ar b'un a yw'r cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn. Mae'r ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i mi fodloni fy hun o ran y pethau hyn:
 - bod y cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â rheoliadau o dan adran 39 o'r ddeddf (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005);
 - bod y cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion yr holl ddarpariaethau statudol eraill sy'n berthnasol iddynt;
 - bod arferion priodol wedi'u dilyn wrth lunio'r cyfrifon;
 - bod yr Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.
4. Mae hefyd yn ofynnol i mi ardystio bod yr archwiliad wedi cael ei gwblhau yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
5. Nid yw'r archwiliad yn golygu nad oes angen i'r Awdurdod gyflawni'r cyfrifoldebau canlynol:
 - rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
 - cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;

-
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
 - sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
6. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod a dogfennau cysylltiedig, gofyn cwestiynau i fi, fel yr Archwilydd Penodedig, am y cyfrifon a, lle y bo'n briodol, herio eitemau yn y cyfrifon.
 7. Nodir elfennau allweddol yr archwiliad yn **Atodiad 1**.
 8. Caiff dogfen ar wahân, *sef Rhaglen Reoleiddio'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Archwilio Perfformiad*, ei chyhoeddi yn nodi'r gwaith sydd i'w gyflawni gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.
 9. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ardystio hawliadau a ffurflenni grant penodol. Yr Archwilydd Penodedig, gan weithredu fel asiant ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n cyflawni'r gwaith archwilio mewn perthynas â'r hawliadau a'r ffurflenni hynny.

Y dull archwilio

Y tîm archwilio

10. Rhoddir gwybodaeth am dîm yr archwiliad ariannol yn **Atodiad 2**.

Archwiliad o ddatganiadau ariannol

11. Deallaf y caiff rheolaethau mewnol eu cynllunio, eu gweithredu a'u cynnal gan yr Awdurdod i fynd i'r afael â risgiau busnes a nodir sy'n bygwth y gallu i gyflawni amcanion corff a archwilir o ran:
 - dibynadwyedd ei adroddiadau ariannol;
 - effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ei weithrediadau;
 - ei gydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau cymwys.
12. Byddaf yn:

-
- asesu effeithiolrwydd rheolaethau mewnol lefel uchel a rheolaethau mewnol lefel systemau allweddol i atal a chanfod gwallau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu;
 - asesu effeithiolrwydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol;
 - adolygu gwaith a gyflawnwyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol a cheisio dibynnu arno, fel sy'n briodol;
 - datblygu gweithdrefnau cadarn i ymateb i risgiau sy'n gysylltiedig â chamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu.
- 13.** Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig yn gywir ac yn deg, ond mabwysiadaf y cysyniad o berthnasedd. Felly, wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rwyf yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, sef y camddatganiadau hynny a allai gamarwain unigolyn sy'n darllen y cyfrifon.
- 14.** Caiff y lefelau a ddefnyddiaf i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol eu nodi yn fy adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio cyn cwblhau'r archwiliad.

Risgiau sy'n gysylltiedig â chamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu

15. Mae Arddangosyn 1 yn rhoi gwybodaeth am y prif risgiau gweithredol ac ariannol a wynebwr gan yr Awdurdod a allai effeithio ar fy archwiliad. Dyma'r prif risgiau a nodais yn ystod y broses gychwynnol o gynllunio'r archwiliad, yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, a'r camau a gynigiwyd i fynd i'r afael â hwy. Mae'n bosibl y bydd angen i mi newid y cynllun archwilio os bydd unrhyw risgiau newydd yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau i'r cynllun archwilio heb eu trafod yn gyntaf â swyddogion a, lle y bo'n berthnasol, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

Exhibit 1: Summary of main audit risks and proposed responses

Risgiau sylweddol	Camau gweithredu arfaethedig
Risgiau sy'n ymwneud â datganiadau ariannol	
<p>Cydnabod refeniw a gwariant</p> <ul style="list-style-type: none">Mae risg y gallai'r Cyngor fabwysiadu polisïau cyfrifyddu neu drin trafodion incwm a gwariant mewn ffordd sy'n arwain at gamddatganiad perthnasol yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant.	<ul style="list-style-type: none">Byddwn yn deall ac yn gwerthuso'r rheolaethau sydd ar waith i liniaru'r risg hon ac yn gwneud y canlynol:<ul style="list-style-type: none">profi rheolaethau allweddol i gadarnhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol.profi gwaith cysoni allweddol.profi incwm a gwariant nad yw'n safonol i sicrhau ei fod wedi'i gynnwys yn briodol yn y cyfrifon.profi bod trafodion sy'n digwydd tua diwedd y flwyddyn wedi'u dosbarthu'n briodol yn y flwyddyn ariannol maent yn ymwneud â hi.Byddwn yn ystyried y polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd gan y Cyngor ac yn cynnal y lefel briodol o brofion ar incwm a gwariant er mwyn

	canfod unrhyw gamddatganiad perthnasol.
<p>Rheolwyr yn anwybyddu rheolaethau</p> <ul style="list-style-type: none"> Mewn unrhyw sefydliad, gall rheolwyr fod mewn sefyllfa i anwybyddu'r rheolaethau ariannol sydd ar waith gennych. Gall y fath achos o dorri'r rheolaethau arwain at gamddatganiad perthnasol. 	<ul style="list-style-type: none"> Byddwn yn deall ac yn gwerthuso prosesau a gweithdrefnau rheolaeth fewnol fel rhan o'n gwaith cynllunio ac yn ceisio dibynnu ar waith archwilio mewnol ar reolaethau allweddol a/neu brofi rheolaethau perthnasol fel rhan o'r archwiliad. Byddwn yn adolygu priodoldeb y dyddlyfrau a broseswyd yn ystod y flwyddyn. Byddwn hefyd yn edrych yn ofalus ar unrhyw amcangyfrifon a wnaed gan y rheolwyr ac yn ystyried a oes unrhyw duedd yn perthyn iddynt. Byddwn yn cynllunio ac yn cyflawni gweithdrefnau mewn perthynas â'r rhesymeg busnes dros drafodion sylweddol. Mae ein gweithdrefnau archwilio hefyd wedi'u cynllunio i gynnwys elfen anrhagweladwy sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn.
<p>Amcangyfrifon rheolwyr</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae nifer o amcangyfrifon rheolwyr yn y datganiadau ariannol a all fod, o gofio eu natur feirniadol, wedi'u camddatgan mewn modd perthnasol. Gall y rhain gynnwys y ddarpariaeth Cyflog Cyfartal / Statws Sengl, darpariaethau cyffredinol megis ar gyfer drwgddyledion, croniadau ar gyfer tâl gwyliau neu ddarpariaeth Penhesgyn. 	<ul style="list-style-type: none"> Byddwn yn gweithio gyda'r rheolwyr i flaenoriaethu'r gwaith archwilio ar y meysydd barn allweddol er mwyn sicrhau bod unrhyw broblemau sy'n codi yn cael eu hystyried mor gynnar â phosibl.

Rydym eisoes wedi cynnig addasiadau o ran darpariaeth Penhesgyn a'r ddarpariaeth Cyflog Cyfartal / Statws Sengl sy'n nesáu at ein trothwy perthnasedd ac felly mae risg y gallai unrhyw addasiadau o'r fath a gynigir yn y dyfodol fod yn berthnasol.

Risgiau uwch

Camau gweithredu arfaethedig

Risgiau sy'n ymwneud â'r amgylchedd rheoli

Paratoi cyfrifon

- Cafodd anawsterau o ran llenwi swyddi'n barhaol yn y Tîm Cyllid effaith andwyol ar broses llunio cyfrifon y Cyngor yn 2009/10 a 2010/11. Llwyddodd staff interim profiadol i gwblhau'r gwaith erbyn y terfynau amser yn 2011/12. Mae rhai rolau cyfrifyddu allweddol yn dal i gael eu cyflawni gan staff interim ond mae swydd swyddog a151 wedi'i llenwi'n barhaol bellach. Mae'n hanfodol bod perfformiad 2011/12 yn parhau a bod adnoddau digonol a phriodol yn cael eu neilltuo i lunio'r cyfrifon statudol yn unol â'r amserlenni gofynnol.

- Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r rheolwyr er mwyn monitro'r cynnydd a wneir wrth baratoi a llunio cyfrifon 2012/13. Cyflwynwn adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar ein barn ynghylch trefniadau'r Cyngor ar gyfer llunio cyfrifon 2012/13.
- Byddwn mewn cysylltiad â'r rheolwyr drwy gydol y broses o lunio cyfrifon a chynnal archwiliad ac yn rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) a'r Pwyllgor Archwilio am unrhyw broblemau sy'n codi o ran ansawdd ac amseroldeb y cyfrifon a thystiolaeth ategol.

Risgiau sy'n ymwneud â systemau ariannol

Eiddo, offer a chyfarpar

Mae'n ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod ei eiddo, ei offer a'i gyfarpar a ddelir ar y Fantolen yn cael eu prisio'n ddigon rheolaidd er mwyn sicrhau nad yw'r

Byddwn yn ystyried dull arfaethedig y Cyngor o asesu a chyfiawnhau'r prisiad o'i eiddo, ei offer a'i gyfarpar ar 31 Mawrth 2013 ac yn ystyried a yw'n ddigonol ac yn briodol.

<p>swm cario yn sylweddol wahanol i werth teg yr asedau hyn ar ddiwedd y flwyddyn.</p> <p>Rydym eisoes wedi nodi addasiadau archwilio o ran asedau na chânt eu prisio'n ffurfiol yn ystod y flwyddyn nas addaswyd ar sail amherthnasedd. Mae risg y gallai unrhyw addasiadau o'r fath a gynigir yn y dyfodol fod yn berthnasol.</p>	
<p>System rhenti tai a chyfrifyfr cyffredinol newydd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoddodd y Cyngor system rhenti tai newydd ar waith ym mis Tachwedd 2012, a bydd yn rhoi system cyfrifyfr cyffredinol newydd ar waith ym mis Ebrill 2013. Mae risg y gallai'r broses drosglwyddo achosi problemau, megis , trosglwyddo data anghywir neu anghyflawn. 	<p>Mae archwilyr mewnol y Cyngor wedi adolygu'r broses o drosglwyddo o'r hen system rhenti tai i'r system newydd ac maent wedi profi cywirdeb y cofnodion a drosglwyddwyd. Ni nodwyd unrhyw broblemau. Maent yn bwriadu cynnal adolygiad tebyg o'r broses o drosglwyddo i'r system cyfrifyfr cyffredinol ym mis Ebrill.</p> <p>Byddwn yn adolygu'r gwaith a wnaed gan archwilyr mewnol y Cyngor o ran trosglwyddo i'r systemau newydd ym mis Ebrill ac yn ceisio dibynnu arno.</p>

Y defnydd o adnoddau

16. Er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o ran y trefniadau a sefydlwyd gan yr Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau, byddaf yn dibynnu ar y canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;

-
- system rheolaeth fewnol yr Awdurdod, fel y nodir yn ei ddatganiad llywodraethu a'm hadroddiad cysylltiedig;
 - canlyniadau gwaith a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys gwaith a gynhaliwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ardystiadau o hawliadau a ffurflenni ac ymarferion paru data;
 - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle y bo hynny'n berthnasol i'm cyfrifoldebau;
 - unrhyw waith arall sy'n ymdrin â materion nas cwmpesir gan yr uchod, ac yr wyf o'r farn ei fod yn angenrheidiol i gyflawni fy nghyfrifoldebau.

Cyflwyno adroddiadau

17. Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr penodedig gydymffurfio â safonau archwilio a moesegol perthnasol. Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau ffurfiol gael eu cyflwyno ar gamau amrywiol yn ystod yr archwiliad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.
18. Yn benodol, rhaid i archwilwyr nodi'r canlynol:
 - cydberthnasau a all ddylanwadu ar annibyniaeth yr archwilydd;
 - gwybodaeth am gynllunio'r archwiliad;
 - materion penodol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (sy'n wahanol i reolwyr) cyn iddynt roi barn ar y datganiadau ariannol.
19. **Mae Atodiad 1** yn tynnu sylw at elfennau allweddol o'r broses archwilio yn yr Awdurdod, a chadarnhaf nad oes unrhyw fygythiadau hysbys i'm hannibyniaeth fel Archwilydd Penodedig nac annibyniaeth staff na chontractwyr sy'n gweithio i mi.
20. Rhydd y ddogfen hon wybodaeth am gynllunio'r archwiliad.
21. Byddaf yn cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio, a lle bo angen, i'r Cabinet/Cyngor mewn modd amserol.
22. Byddaf yn darparu adroddiadau eraill, neu allbwn arall, fel y cytunir arnynt. Nodir y cerrig milltir allweddol yn **Arddangosyn 2**.

Arddangosyn 2: Cerrig milltir allweddol

Yr hyn y bwriedir ei gyflawni	Dyddiad cychwyn arfaethedig	Llunio'r adroddiad terfynol
Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol	Ionawr 2013	Chwefror 2013
Adroddiad (ISA260) ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol	Medi 2013	Medi 2013
Barn Archwilio ar Ddatganiadau Ariannol 2012-13	Medi 2013	Medi 2013
Llythyr Archwilio Blynyddol	Tachwedd 2013	Tachwedd 2013

Ffi archwilio

23. Mae'r ffi arfaethedig ar gyfer gwaith archwilio ariannol 2012-13 yn dal i fod yn destun proses gymedrol yn Swyddfa Archwilio Cymru. Codir y ffi (gan gynnwys TAW) mewn rhandaliadau cyfwerth rhwng mis Tachwedd 2012 a mis Hydref 2013.
24. Mewn blynyddoedd blaenorol, prin fu'r gwrthwynebiadau ffurfiol i ddatganiadau ariannol yr Awdurdod. Fodd bynnag, caf nifer o ymholiadau ac eitemau o ohebiaeth gan y cyhoedd a phartïon eraill â diddordeb. Mae ychydig o amser wedi'i gynnwys yn y ffi i ymdrin â mân ymholiadau, fel rhan o'r broses gyffredinol o reoli'r archwiliad.
25. Bydd unrhyw ymchwiliadau manwl neu waith arall sydd angen ei gyflawni i ymateb i ymholiadau a gwrthwynebiadau yn arwain at ffi ychwanegol. Codir unrhyw ffi ychwanegol o'r fath ar gyfraddau dyddiol yn seiliedig ar y radd neu'r cymysgedd sgiliau penodol sydd eu hangen ar gyfer y gwaith, ond trafodir hyn gyda'r Awdurdod cyn ymgymryd â'r gwaith.
26. O ran pob grant neu ffurflen, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol adennill swm sy'n cwmpasu cost lawn y gwaith perthnasol a gyflawnir. Caiff y ffi ar gyfer gwaith ardystio grantiau a ffurflenni ei chodi ar sail ddyddiol, yn unol â'r graddfeydd ffioedd sy'n ymwneud â sgiliau a nodir yn llythyr ffioedd llywodraeth leol yr Archwilydd Cyffredinol.

Bydd y ffioedd yn adlewyrchu maint, cymhlethdod a materion neilltuol y grantiau penodol.

- 27.** Er bod gwaith ardystio grant yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ar sail profiad blaenorol ac arwyddion cynnar o newidiadau mewn cynlluniau ac amodau grant, amcangyfrifaf y bydd cyfanswm ffi'r gwaith grant rhwng £120,000 a £140,000.

Atodiad 1

Elfennau allweddol o'r gwaith archwilio

Elfennau allweddol	Gofynion	Rôl yn yr Awdurdod
Gweithgareddau ymgysylltu		
Telerau'r gwaith archwilio	Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi'r cyfrifoldeb am benodi archwilydd allanol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru.	Nodir rolau a chyfrifoldebau archwilydd penodedig uchod ac yn yr atodiad hwn. Gellir gweld y Datganiad llawn o Gyfrifoldebau yn: http://www.wao.gov.uk/assets/english_documents/statement_of_responsibilities_of_auditors_eng.pdf
Penodi archwilydd ac arweinydd ymgysylltu	Cyfrifoldeb yr Archwilydd Cyffredinol yw penodi archwilydd allanol llywodraeth leol a phennu cyfrifoldeb am bob ymgysylltiad i arweinydd ymgysylltu.	Rhoddir manylion yr Archwilydd Penodedig a'r Arweinydd Ymgysylltu yn Atodiad 2 i'r ddogfen hon.
Gwaith dewisol drwy gytundeb	Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi meini prawf clir ar gyfer cymeradwyo unrhyw waith dewisol y gofynnir amdano gan gyrff a archwilydd.	Ni ofynnwyd am unrhyw waith dewisol ac nid oes unrhyw waith o'r fath yn yr arfaeth.
Ystyriaethau moesegol		

Elfennau allweddol	Gofynion	Rôl yn yr Awdurdod
Annibyniaeth	<p>Mae'n ofynnol i archwilwyr penodedig ystyried y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bygythiadau i annibyniaeth yr archwilydd (gan gynnwys ymglyfreitha); • cydberthnasau teuluol a chydberthnasau personol eraill; • cysylltiad hirdymor â'r corff a archwilir (gweler polisi Swyddfa Archwilio Cymru o gylchdroi archwiliadau); • materion dadleuol neu anodd. 	<p>Gallaf gadarnhau nad oes unrhyw fygythiadau hysbys i'm hannibyniaeth fel Archwilydd Penodedig nac i annibyniaeth staff na chontractwyr sy'n gweithio i mi, ac fy mod wedi cydymffurfio â pholisi cylchdroi Swyddfa Archwilio Cymru.</p>
Perfformiad ymgysylltu	<p>Mae angen i arweinwyr ymgysylltu ystyried pa lefel o sicrwydd ansawdd a lefelau adolygu sy'n briodol.</p>	<p>Mae gweithdrefnau adolygu rheoli ansawdd Swyddfa Archwilio Cymru ar waith ar gyfer yr archwiliad, ac mae'r Arweinydd Ymgysylltu wedi pennu lefelau adolygu priodol yn seiliedig ar brofiad y staff sy'n ymgymryd â'r gwaith archwilio.</p>

Atodiad 2

Tîm yr archwiliad ariannol

Enw	Rôl	Ffôn cyswllt #	Cyfeiriad e-bost
Anthony Barrett	Archwilydd Penodedig	029 2032 0500 / 012 4452 5970	anthony.barrett@wao.gov.uk
Lynn Pamment	Partner Ymgysylltu	029 2080 2390	lynn.pamment@uk.pwc.com
James Quance	Uwch Reolwr Archwilio	029 2080 2654	james.quance@uk.pwc.com
Joe Hargreaves	Rheolwr yr Archwiliad	029 2080 2198	joe.hargreaves@uk.pwc.com
Martin George	Arweinydd Tîm yr Archwiliad Ariannol	029 2080 2014	martin.r.george@uk.pwc.com



WALES AUDIT OFFICE

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Ffôn: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Ffacs: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

E-bost: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk



24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Epost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Richard Parry Jones
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

Cyfeirnod	619A2012
Dyddiad	4 Rhagfyr 2012
Tudalennau	1 o 6

Annwyl Richard

Llythyr Asesiad Gwella

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r casgliadau allweddol sy'n codi o'm gwaith mewn perthynas ag adrodd ar welliannau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Mae gofyn i mi adrodd ar fy ngwaith archwilio ac asesu i bennu a gyflawnodd Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) ei ddyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur.

Yn dilyn fy Llythyr Asesiad Gwella ar 24 Medi 2012, mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy sylwadau ar i ba raddau mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran adrodd am welliant;
- fy sylwadau, a sylwadau rheoleiddwyr perthnasol, ar i ba raddau y gellir dibynnu ar hunanwerthusiad y Cyngor; a
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion.

Byddaf hefyd yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n cefnogi dulliau rheoli perfformiad ac adrodd y Cyngor dros y misoedd nesaf.

Byddaf yn crynhoi fy holl waith a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2012-13 ac yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor erbyn diwedd mis Chwefror 2013.

Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur. Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod y Cyngor wedi cydymffurfio'n llawn â'i ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur; ond
- gellir cynnwys a strwythur Adroddiad Perfformiad y Cyngor gynnwys mwy o wybodaeth ansoddol er mwyn darparu sail dystiolaeth fwy cyflawn.

Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio'n llawn â'i ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur

Cyhoeddodd y Cyngor Adroddiad Perfformiad 2011-12 (yr Adroddiad) ar 30 Hydref 2012, gan fodloni'r terfyn amser statudol ar gyfer gwneud hynny.

Mae'r Adroddiad yn cynnwys yr holl elfennau gofynnol. Yn arbennig, mae'r Adroddiad yn:

- esbonio sut mae ei gynnwys yn cyfrannu at ddyletswydd statudol y Cyngor i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus a bod yn atebol;
- crynhoi, mewn ffordd gytbwys, brif lwyddiannau a methiannau'r gwaith o gyflawni prosiectau allanol sy'n cefnogi amcanion gwella a blaenoriaethau strategol eraill y Cyngor;
- amlinellu perfformiad y Cyngor yn erbyn yr holl ddangosyddion perfformiad statudol yn 2011-12, ac yn cynnwys ffigurau perfformiad y flwyddyn hon a'r flwyddyn flaenorol;
- cynnwys gwybodaeth sy'n galluogi darllenwyr i gymharu perfformiad y Cyngor yn erbyn ei dargedau, gyda pherfformiad cynghorau eraill yn y Gogledd a chynghorau ledled Cymru;
- nodi gwahanol enghreifftiau o weithio ar y cyd gyda chynghorau eraill yn y Gogledd a chyrrff sector cyhoeddus a phreifat, er nad yw bob amser yn nodi amcanion y cydweithio nac a lwyddodd i sicrhau ei ganlyniadau disgwylidig; a
- darparu gwybodaeth bwysig am: ymyrraeth diweddar gan Lywodraeth Cymru yng ngwaith y Cyngor; ei gynnydd o ran mynd i'r afael â 10 thema gwella llywodraethu corfforaethol y Comisiynwyr; a chanlyniadau gwaith rheoleiddio gan Estyn, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Swyddfa Archwilio Cymru.

Gellir cynnwys a strwythur Adroddiad Perfformiad y Cyngor gynnwys mwy o wybodaeth ansoddol er mwyn darparu sail dystiolaeth fwy cyflawn

Mae'r Cyngor wedi defnyddio cymysgedd cytbwys o gynnydd yn erbyn camau gweithredu allweddol a dulliau mesur perfformiad meintiol fel tystiolaeth i bennu ei lwyddiant neu ei fethiant o ran cyflawni ei flaenoriaethau strategol a'i amcanion gwella. Mae'r Adroddiad yn crynhoi cynnydd a pherfformiad gan ddefnyddio system cod lliwiau coch, ambr a gwyrdd sy'n darparu gwerthusiad cryno defnyddiol. Mae rhai adrannau'n esbonio beth achosodd y lliw gwyrdd, ambr neu goch. Fodd bynnag, nid oes gwybodaeth ddigonol i gefnogi rhai blaenoriaethau eraill er mwyn galluogi darllenwyr i ddeall y rhesymau dros asesiad y Cyngor o'i gynnydd neu faint o fudd sydd i'r cyhoedd. Mae yna le i gynnwys mwy o wybodaeth ansoddol i ddarparu sail dystiolaeth fwy cyflawn fel y gall asesu ei berfformiad.

Mae'r Adroddiad ar gael yn ddwyieithog ac mae wedi ei nodi'n glir ar wefan y Cyngor, ac mae gwybodaeth perfformiad ar gael yn y papur bro lleol â chysylltiadau i'r wefan a'r Adroddiad. Dosbarthir y papur bro i bob tŷ ar Ynys Môn. Mae copi caled o'r Adroddiad ar gael ym mhrif adeiladau cyhoeddus y Cyngor ac mae fersiynau Braille, print bras, tâp neu CD ar gael ar gais.

Mae'r Adroddiad yn 73 tudalen, sy'n fyrrach na nifer o adroddiadau perfformiad cynghorau eraill. Cynhyrchir grynodedb o'r Adroddiad ac mae ar gael ar wefan y Cyngor. Fodd bynnag, mae arddull ac eglurder yr Adroddiad yn amrywio rhywfaint. Er enghraifft, mae'r adran perfformiad ariannol yn drylwyr ac yn ymarferol, ond mae'n anodd ei ddilyn mewn manau ac efallai na fydd darllenwyr yn ei ddeall yn llawn. I'r gwrthwyneb, mae'r adran 'Digartrefedd, tai gwag ac ailosod unedau busnes gwag' wedi'i hesbonio'n dda ac yn dangos manteision gwaith y Cyngor i'r cyhoedd.

Gellid gwella'r Adroddiad trwy wneud gwaith sgrinio golygyddol trylwyr i sicrhau bod jargon technegol a pharagraffau mwy cymhleth yn cael eu symleiddio. Byddai hyn yn gwneud yr Adroddiad yn haws ei ddarllen ac yn sicrhau bod gwallau argraffyddol sylfaenol yn cael eu dileu.

Mae asesiadau allanol yn dangos na ellir dibynnu'n gyson ar hunanwerthusiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2011-12

Yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2012, pwysleisiwyd bod y Mesur yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynghorau fod yn fwy hunanfeirniadol a gwerthuso sut y maent yn darparu eu gwasanaethau, ac y dylent ganolbwyntio mwy ar effaith gwasanaethau ar ddinasyddion a'r canlyniadau i ddinasyddion.

Ym mis Hydref 2012, dechreuodd y Cyngor ar Gam 2 ymyrraeth Llywodraeth Cymru, gyda pwerau penderfynu yn dychwelyd o'r Comisiynwyr i'r Weithrediaeth. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n bwysig bod y Cyngor yn dangos yn glir ei fod yn gallu: cynllunio a

sicrhau newid; asesu ei gryfderau a'i wendidau'n gywir a chyson ar draws gwasanaethau; a dysgu o brosiectau sydd wedi llwyddo a'r rhai nad ydynt wedi bod mor llwyddiannus. Nid yw'r Cyngor wedi bod yn hunanwerthuso'n gyson yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Roedd Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru'n feirniadol o werthusiad y Cyngor o'i wasanaethau addysg i blant a phobl ifanc

Ym mis Mai 2012, daeth Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad bod gwasanaethau addysg y Cyngor yn anfoddhaol a bod ganddo ragolygon anfoddhaol ar gyfer gwella. Wrth ddod i'r casgliadau hyn, daethant i'r casgliad:

- nad yw prosesau cynllunio busnes ac asesu risg yn ddigon cadarn i nodi a mynd i'r afael ag arafwch y cynnydd mewn gwasanaethau addysg ac ysgolion; a
- bod prosesau hunanwerthuso wedi bod yn anghyson ac mai ychydig iawn o gynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn argymhellion a wnaed mewn arolygiadau blaenorol.

O ganlyniad i'r arolygiad, argymhellodd Estyn y dylai'r Cyngor gyflwyno mesurau arbennig ac mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Bwrdd Adfer i oruchwylio ei gynnydd o ran mynd i'r afael â'r saith argymhelliad yn yr adroddiad arolygu. Mae'n debygol y bydd Estyn yn ymweld eto yn ystod 2013 er mwyn monitro cynnydd.

Mae AGGCC o'r farn bod gwerthusiad blynyddol y Cyngor o'i wasanaethau cymdeithasol yn gytbwys ac yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth

Yn ei Adroddiad Blynyddol a'i Werthusiad o Berfformiad yn 2011-12, nododd AGGCC fod 2011-12 yn flwyddyn o newid sylweddol i adran gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor. Penododd y Cyngor gyfarwyddwr dros dro newydd ar ddiwedd Ionawr 2012, a chafodd Cyfarwyddwr parhaol ei benodi ym mis Medi. Mae'r swydd newydd, a grëwyd ar ôl ad-drefnu'r tîm uwch reoli, yn cyfuno dyletswyddau statudol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn rôl ehangach Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden.

Roedd AGGCC o'r farn bod adroddiad hunanwerthuso'r cyfarwyddwr dros dro'n darparu trosolwg cryno o berfformiad y Cyngor ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Roedd y canfyddiadau'n gytbwys ac yn cael eu cefnogi gan adroddiadau gan wasanaethau oedolion a phlant. Roedd y dystiolaeth sy'n cefnogi'r hunanwerthusiad yn eang ac yn ddefnyddiol i asesu perfformiad y Cyngor. Er hynny, mae AGGCC yn pwysleisio bod angen penderfyniad corfforaethol parhaus i wella gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig o ystyried yr heriau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Byddwn yn adrodd yn fanylach ar adroddiad AGGCC yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol yn gynnar yn 2013.

Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor ar gyfer 2011-12 yn darparu asesiad cytbwys o'i berfformiad, ond nid yw'n darparu digon o wybodaeth i gefnogi gwerthusiad y Cyngor yn erbyn rhai o'i amcanion gwella

Fel y nodais yn gynharach yn y llythyr hwn, mae'r Adroddiad yn gytbwys ar y cyfan ac yn nodi'r hyn a gyflawnwyd, yr hyn nas cyflawnwyd a lle y gellir gwneud gwelliannau. Nid oes unrhyw awgrym bod y Cyngor yn gorbwysleisio ei gryfderau nac yn tanbwysleisio ei wendidau. Mae ein harchwiliad o sampl fach o ddangosyddion perfformiad y Cyngor eleni'n awgrymu bod ansawdd y data yn yr Adroddiad yn gadarn ar y cyfan.

Fodd bynnag, mae ansawdd y gwerthusiad yn yr Adroddiad yn anghyson. Nid oes digon o wybodaeth mewn rhai adrannau i gyfiawnhau'r asesiad a yw'r Cyngor wedi cyflawni amcan gwella penodol ai peidio. Mae adrannau fel 'Hyrwyddo ffyrdd iach a bywiog o fyw ar draws pob grŵp oedran' yn cynnwys targedau a dangosyddion perfformiad penodol sy'n cefnogi'r gwerthusiad ehangach. I'r 'gwrthwyneb, mae gwerthusiad y Cyngor o'i gydweithredu i hyrwyddo diogelwch cymunedol' yn cyfeirio at y tasgau a gyflawnwyd yn unig, heb gyfeirio at fanteision cydweithredu neu ddadansoddi ei effaith ar ddiogelwch cymunedol.

Cynigion pellach ar gyfer gwella

Ceir rhai cynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

Cynigion ar gyfer gwella

C1 Dylai'r Cyngor hyrwyddo mwy o gysondeb ar draws gwasanaethau mewn perthynas ag ansawdd yr hunanwerthuso.

C2 Dylai'r Cyngor sicrhau rheolaeth olygyddol gryfach yn ei Adroddiad er mwyn ei wneud yn haws ei ddarllen a dileu gwallau argraffyddol.

Yn gywir

HUW VAUGHAN THOMAS

ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Copi: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	PWYLLGOR ARCHWILIO
DYDDIAD:	5 CHWEFROR 2013
TEITL YR ADRODDIAD:	ADRODDIAD CYNNYDD AR ARCHWILIO MEWNOL 1 EBRILL 2012 - 31 RHAGFYR 2012
PWRPAS YR ADRODDIAD:	ER GWYBODAETH
ADRODDIAD GAN:	PENNAETH GWASANAETH (ARCHWILIO)
GWEITHREDU:	PENDERFYNIADAU/CYMEADWYAETH FEL Y NODWYD YN YR ADRODDIAD

1. RHAGARWEINIAD

- 1.1 Cytunwyd ar Gynllun Gweithredol 2012-13 yn y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 24 Mai 2012. Paratowyd y Cynllun mewn ymgynghoriad gyda'r Archwiliwr Allanol, gyda'r Swyddog Adran 151 a thrwy gyfarfodydd a gohebiaeth gyda'r Pennaethiaid Gwasanaeth.
- 1.2 Yn yr adroddiad hwn, crynhoir gwaith yr Adain Archwilio Mewnol hyd at 31 Rhagfyr 2012 a hefyd mae ynddo grynodedb o bob un o'r adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd.
- 1.3 Yn achos pob adroddiad terfynol y rhoddwyd iddo farn 'Sicrwydd Coch', cynhelir Adolygiad Dilyn-i-fyny ac yn hwnnw, nodir beth yw barn yr Adain Archwilio ar gynnydd y rheolwyr yn y broses o ran gweithredu ar argymhellion yn y categori Uchel a Chanolig yn codi o'r adroddiad terfynol gwreiddiol. Cyflwynir canlyniadau'r adolygiad Dilyn-i-fyny i'r Pwyllgor Archwilio nesaf.
- 1.4 Ni chafwyd unrhyw adroddiadau yn y cyfnod hwn a arweiniodd at farn 'Sicrwydd Coch'. Caiff Crynodebau Gweithredol ar gyfer adroddiadau barn 'Sicrwydd Coch' eu cyflwyno fel Atodiadau lle mae hynny'n berthnasol.
- 1.5 Mae'r Uned Archwilio Mewnol yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg lle bynnag y mae hynny'n bosib, ond gall ddefnyddio Adolygiadau System, Adolygiadau Rheolaethau Allweddol, Adolygiadau Sefydliad neu Adolygiadau Ymgynghorol os yw'r dulliau hyn yn fwy priodol.
- 1.6 Mae'r adroddiadau terfynol unigol ar gael i aelodau'r Pwyllgor hwn, ar sail gyfrinachol, ar gais i'r Pennaeth Gwasanaeth - Archwilio.

2. YR ADRODDIADAU A GYHOEDDWDYD HYD YMA A GWAITH SY'N MYND RHAGDDO

- 2.1 Mae Tabl 1 isod yn dangos statws yr adolygiadau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ac/neu sydd wedi eu cwblhau hyd at adroddiad terfynol yn y cyfnod hwn ynghyd â'r farn archwilio gyffredinol.

Tabl 1

Teitl yr Adolygiad	Maes Gwasanaeth	Blwyddyn y Cynllun AM	Statws	Barn CAG
Adolygiadau sy'n seiliedig ar risg/Adolygiadau System				
Pwrcasu Corfforaethol	Corfforaethol	2012/13	TERFYNOL	YMGYNGHOROL
Taliadau Uniongyrchol – Gwas Cym	Gwas. Cym	2012/13	TERFYNOL	COCH/AMBER
Adolygiad Thematig o'r Ysgolion	Addysg	2012/13	TERFYNOL	YMGYNGHOROL
Menter Genedlaethol – Twyll	Corfforaethol	2012/13	*GYMR	
Pennu'r Gyllideb a'i Monitro	Corfforaethol	2012/13	DRAFFT	
Lwfansau Aelodau	Corfforaethol	2012/13	DRAFFT	
Cludiant Ysgol	Trafnidiaeth	2012/13	DRAFFT	
Incwm Meysydd Parcio	Priffyrdd	2012/13	DRAFFT	
Arforol – Incwm	Priffyrdd	2012/13	*GYMR	
Rheoli Risg – Gweithredu	Corfforaethol	2012/13	*GYMR	
Y Dreth Gyngor	Cyllid	2012/13	*GYMR	
Trethi Cenedlaethol Annomestig	Cyllid	2012/13	*GYMR	
Budd-dal Tai	Cyllid	2012/13	*GYMR	
Cyflogau a Goramser	Cyllid	2012/13	*GYMR	
Credydwy'r	Cyllid	2012/13	*GYMR	
Mân-Ddyledwyr	Cyllid	2012/13	*GYMR	
Ysgolion				
Ysgol Bodffordd	Addysg	2012/13	DRAFFT fel y cyfnod blaenorol	

* Gwaith yn mynd rhagddo

2.2 Casgliadau Allweddol o'r Adroddiadau a Gyhoeddwyd

- 2.2.1 Caffael Corfforaethol** - Cynhaliwyd archwiliad o Drefniadau Caffael Corfforaethol fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol Cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2012/13.

Canfu'r adolygiad bod nifer o feysydd lle gellir cryfhau'r fframwaith pwrcasu cyfredol. Cafodd argymhellion eu cynnwys yn yr adroddiad i roi sylw i'r gwendidau a nodwyd.

Cydnabyddir bod nifer o'r meysydd hyn wrthi'n cael sylw ar hyn o bryd gan y Gwasanaethau Cyllid, er enghraifft, adolygiad o'r Rheolau Gweithdrefn Contract, dwyn cofrestr ganolog o gontractau at ei gilydd, datblygu strategaeth a pholisi pwrcasu, darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth pwrcasu.

Fodd bynnag, mae'n bwysig parhau i gymryd camau i sicrhau fod risgiau yn y maes hwn yn cael eu rheoli.

Adolygiad ymgynghorol oedd hwn ac nid oes barn archwilio ffurfiol ar ei gyfer.

- 2.2.2 Taliadau Uniongyrchol (Gwasanaethau Cymdeithasol)** - Cynhaliwyd archwiliad o Daliadau Uniongyrchol fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol Cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2012/13.

Mae'r cynllun Taliadau Uniongyrchol yn golygu fod yr Awdurdod Lleol yn talu yn uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaeth fel y gallant brynu eu gofal a'u cefnogaeth eu hunain. Mae Taliadau Uniongyrchol yn golygu y gall unigolion brynu'r cymorth neu'r gwasanaethau y byddai'r Awdurdod Lleol fel arall wedi trefnu i'w darparu. Mae'r Cynllun Taliadau Uniongyrchol yn cefnogi byw'n annibynnol oherwydd gall defnyddwyr gwasanaeth wneud eu penderfyniadau eu hunain a chael rheolaeth wirioneddol dros eu bywydau eu hunain.

Ar hyn o bryd, mae 31 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn derbyn Taliadau Uniongyrchol. Gwariwyd cyfanswm o £213,024 ar y Cynllun Taliadau Uniongyrchol yn 2011/12.

Dyma oedd canfyddiadau allweddol yr adolygiad hwn:

Dylunio fframwaith rheoli

- Nid oedd polisi clir a chanllawiau gweithdrefnol ar gael i sicrhau bod defnyddwyr y Gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol yn cael y gwiriadau SCT angenrheidiol os oedd hynny'n briodol.

Defnyddio'r fframwaith rheoli a chydymffurfio â fo

- Mewn rhai achosion, nid oedd Cynlluniau Gofal wedi cael eu hadolygu'n flynyddol neu erbyn y dyddiad a nodwyd ar y Cynllun Gofal ar gyfer 'yr adolygiad nesaf'.
- Nodwyd achosion lle nad oedd ffurflen cytundeb Taliadau Uniongyrchol newydd wedi cael ei llenwi ar adeg trosglwyddo i Gynllun Gofal Defnyddiwr Gwasanaeth ac nid oedd copi o'r Cynllun Gofal newydd wedi cael ei roddi i'r Swyddog Taliadau Uniongyrchol.
- Nid oedd Taliadau Uniongyrchol wedi cael eu cysoni i'r Ledger Ariannol er mwyn sicrhau mai taliadau dilys a chywir yn unig oedd wedi cael eu gwneud.
- Nodwyd rhai gwendidau o ran gweinyddu Taliadau Uniongyrchol gan gynnwys monitro a chael prawf o yswiriant priodol; defnydd cyson o restrau gwirio monitro; cadw dogfennau Aseidiadau Ariannol ar y ffeil Taliadau Uniongyrchol a chyhoeddi ffurflenni monitro chwarterol.
- Nodwyd mân gamgymeriadau mewn perthynas â threfniadau hanesyddol ar gyfer Taliadau Uniongyrchol; mewn un achos, nid oedd Taliadau Uniongyrchol wedi cael eu hadolygu'n unol â Chynllun Gofal a oedd yn ymwneud â chyfnod blaenorol ac nid oedd cyfraniad cleient a dalwyd i ddau Ddefnyddiwr a oedd wedi bod yn defnyddio'r gwasanaeth ers tro byd wedi cael ei adolygu ers i'r trefniadau Taliadau Uniongyrchol gychwyn.

Arweiniodd yr adolygiad at wneud dau argymhelliad lefel Uchel, un Canolig a saith Lefel isel a barn archwilio gyffredinol a oedd yn GOCH / AMBR. Dylid nodi bod nifer o wendidau rheoli a'r argymhellion cysylltiedig yn ymwneud â gweithgareddau y tu allan i Taliadau Uniongyrchol – Cyllid Cleient ac nad oes gan yr Uned Cyllid Cleient reolaeth dros y rhain. Mae'r farn gyffredinol, felly, yn adlewyrchiad o'r holl weithgareddau cysylltiedig ac nid y gweithgareddau hynny sy'n ymwneud â'r Uned Cyllid Cleient yn unig.

2.2.3 Adolygiad Thematig o'r Ysgolion – Mae gan y Tîm Archwilio Mewnol raglen dreigl tair blynedd i archwilio dulliau allweddol ar gyfer rheoliadau ariannol a llywodraethu yn yr ysgolion. O ganlyniad i'r broses hon, mae'r Tîm Archwilio yn nodi rhai meysydd cyffredinol lle mae rheoliadau'n wan neu achosion lle nad ydynt yn cael eu defnyddio'n gyson.

Dyluniwyd yr adroddiad hwn i ddwyn ynghyd y meysydd hyn lle nodwyd gwendidau rheoli ac i wneud argymhellion a fyddai, o'u gweithredu, yn cynorthwyo ysgolion i gryfhau'r fframwaith rheoli mewnol yn y meysydd hyn.

Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar y gwendidau yn y system rheoliadau mewnol a ganfuwyd yn yr adolygiadau ysgolion hynny a gynhaliwyd yn 2011/12 a 2012/13 hyd yma. Cylchredwyd yr adroddiad i'r Gwasanaeth Addysg gydag argymhelliad y dylid ei ddisbarthu i'r holl ysgolion cynradd er mwyn rhoi gwybod iddynt am y materion a nodwyd ac i gychwyn adolygiad o'r systemau yn y meysydd hyn fel sy'n briodol.

Adolygiad ymgynghorol oedd hwn ac nid oes barn archwilio ffurfiol ar ei gyfer.

2.3 Crynodeb o Ganlyniadau'r Adroddiadau a Gyhoeddwyd hyd yma – Ers 1 Ebrill 2012, rydym wedi cyhoeddi 2 o adroddiadau terfynol o Gynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2011-12; 20 o gynllun 2012-13 ac 11 o adroddiadau cyfeirio. Hyd yma, mae cyfanswm o 33 o adroddiadau Terfynol wedi cael eu cyhoeddi yn 2012/13.

Mae crynodeb o'r graddfeydd a roddwyd ar gyfer yr adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd i'w weld yn y tabl isod. Mae crynodeb o'r graddfeydd fel a ganlyn:

Barn / Graddfa CAG	Beth yw ystyr y raddfa newydd	Ers y Pwyllgor Archwilio Diwethaf Yn y Cyfnod	Ebrill i Tachwedd 2012
Gwyrdd (Graddfa A&B)	Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd rhesymol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.	0	3
Gwyrdd Ambr (Graddfa C)	Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd rhesymol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. Fodd bynnag, rydym wedi canfod rhai pethau fydd, oni chânt sylw, yn ychwanegu at y tebygrwydd y bydd y risg yn troi'n ddigwyddiad.	0	5
Coch Ambr (Graddfa D) Yn cynnwys ychydig o gynnydd	Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd rhywfaint o sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas, yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. Angen cymryd camau i reoli'r risg.	1	3
Coch (Graddfa E)	Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, ni all yr Awdurdod gymryd sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas nac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. Rhaid cymryd camau i reoli'r risg.	0	3
Cynghorol / Ymchwiliad	Arolwg cynghorol wedi'i gynllunio i bwrpas rhoddi cyngor ymarfer da – Dim barn ffurfiol.	2	19
	Cyfanswm	10	33

3. PERFFORMIAD YN ERBYN TARGEDAU AM Y CYFNOD 01/04/12 – 16/11/12

3.1 Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt ac a nodwyd yng Nghynllun Datblygu Busnes y Gwasanaeth ar gyfer 2012/13. Adroddir ar gynnydd yn erbyn y targedau hyn hefyd i'r Cyfarfodydd Perfformio Chwarterol.

Mesur Perfformiad	Targed 2011/12	Gwirioneddol wedi ei addasu ar gyfer y cyfnod	Statws Targed	Cyfeiriad y Daith ers y cyfnod blaenorol
% o'r adolygiadau archwilio 2011/12 a gwblhawyd yn y flwyddyn hyd at adroddiad drafft (63 o adolygiadau yn y cynllun – 5 adroddiad drafft yn y cyfnod a 20 adroddiad terfynol – ac eithrio cyfeiriadau).	90%	53%	☹	↑
Lefelau boddhad cyffredinol y cwsmer yn seiliedig ar holiaduron.	90%	100%	☺	↔
% o'r holl argymhellion archwilio mewnol Uchel a Chanolig a weithredwyd o 01/04/10	80%	68%	☹	↑
Nifer yr adolygiadau cynlluniedig o Feysydd Risg Uchel Corfforaethol a nodwyd.	8	3	☹	↑
Cynnal dwy sesiwn hyfforddi ar gyfer y Pwyllgor Archwilio yn y cyfnod	2	2	☺	↑

- 3.2** Mae'r ganran o'r Cynllun Archwilio a gwblhawyd wedi cynyddu o 46% i 53% ond mae'n parhau i fod ymhell islaw'r targed o 90%. Mae hyn yn bennaf oherwydd yr 11 o gyfeiriadau sydd wedi cael eu cwblhau ac yr adroddwyd arnynt yn y cyfnod ac sydd wedi tynnu adnoddau oddi wrth y gwaith Archwilio Mewnol a gynlluniwyd. Mae ymchwiliad sy'n mynd rhagddo wedi cymryd llawer o amser Archwilydd Amser Llawn Cyfatebol yn ystod saith mis cyntaf y flwyddyn hon. Mae'r ymchwiliad bellach wedi cael ei gyfeirio'n ôl gan yr Heddlu i'r Uned Archwilio am ychwaneg o wybodaeth.

Yn ogystal, mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud ar nifer o adolygiadau a nodir fel rhai 'gwaith yn mynd rhagddo' ac adroddir arnynt cyn diwedd 2012-13.

- 3.3** Mae canran yr argymhellion categori Uchel a Chanolig a weithredwyd yn is na'r targed ar 68% sy'n cymharu gyda'r 67% a adroddwyd i'r Pwyllgor diwethaf. Bydd Archwilio Mewnol yn parhau i anfon nodiadau atgoffa er mwyn cael diweddariadau yn hyn o beth er mwyn sicrhau bod yr holl gamau gweithredu a gymerir mewn perthynas ag argymhellion yn cael eu cofnodi ar y system.

4. CYFEIRIADAU

- 4.1** Yn ystod y flwyddyn, mae'r Adain Archwilio Mewnol yn gorfod gwneud gwaith ar faterion sy'n dod i'r fei yn ystod gwaith archwilio rhagledig neu oherwydd materion a ddygir i sylw'r Adain gan Adrannau eraill a gwaith hefyd y mae adrannau eraill yn gofyn i'r Adain Archwilio Mewnol ei wneud. Hefyd, mae'n bosib y bydd yr Archwiliwr Allanol yn gofyn iddynt am wybodaeth neu am gymorth i ddarparu gwybodaeth. Yn sgil rhai o'r ymchwiliadau hyn, cyhoeddir adroddiadau archwilio ffurfiol ond weithiau ni chyhoeddir adroddiad o'r fath (e.e. pan fo'r haerid/gwybodaeth yn anghywir ac o'r herwydd does dim byd i'w adrodd yn ôl, neu pan nad yw swm a sylwedd y gwaith yn ddigon i gyfiawnhau adroddiad archwilio llawn neu pan fo'r mater wedi cael sylw mewn adroddiad gan yr Archwiliwr Allanol).


- 4.2** Mae 11 o adroddiadau mewn perthynas â chyfeiriadau wedi cael eu cyhoeddi hyd yma yn 2012/13.

5. TRACIO ARGYMHELLION

- 5.1** Ar gyfer adrodd i'r Pwyllgor hwn, dim ond argymhellion wnaed ers 01-04-10 sydd wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad tracio argymhellion.
- 5.2** Mae perfformiad gweithredu argymhellion yn y cyfnod yn is na'r targed gyda 68% o argymhellion Uchel a Chanolig wedi eu cofnodi fel rhai y gweithredwyd arnynt. Mae graff yn dangos manylion yr argymhellion y gweithredwyd arnynt fesul Gwasanaeth ynghlwm yn Atodiad A.

Tabl Tracio Argymhellion - yr Holl Argymhellion sydd wedi cael eu creu ers 01-04-2010

Tabl Cynnydd: % Argymhellion a weithredwyd / na weithredwyd fesul Gwasanaeth lle gwnaed mwy na 10 o Argymhellion.



Yn ein barn ni felly, yn seiliedig ar y data hunanasesu yn y Tablau Cynnydd uchod, mae'r Cyngor wedi gwneud **'cynnydd rhesymol'** yn ystod y cyfnod o ran gweithredu'r argymhellion Archwilio Mewnol a oedd yn y categorïau Uchel a Chanolig. Mae hyn yn seiliedig ar y ganran o argymhellion (ac eithrio'r rheiny sydd heb gyrraedd eto'r dyddiad gweithredu y cytunwyd arno) y mae eu statws hunanasesu yn 'gweithredwyd' neu 'disodlwyd', sef **68%** o'r holl argymhellion o'r fath ar ddiwedd y cyfnod.

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	PWYLLGOR ARCHWILIO
DYDDIAD:	5 CHWEFROR 2013
TEITL YR ADRODDIAD:	GWELLA'R PWYLLGOR ARCHWILIO
ADRODDIAD GAN:	PENNAETH GWASANAETH - ARCHWILIO
GWEITHREDU:	CYTUNO AR GYNLLUNIAU GWELLA AR GYFER 2013-14

1. RHAGARWEINIAD

- 1.1 Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cynnal adolygiad ffurfiol o'i effeithlonrwydd yn flynyddol a hynny yn unol â'r arfer dda sy'n cael ei nodi yn Pwyllgorau Archwilio CIPFA : Cyfarwyddyd Ymarferol i Awdurdodau Lleol. Cafodd yr hunanasesiad cyntaf o'r fath gan y pwyllgor hwn ei fabwysiadu ym mis Ionawr 2010.
- 1.2 Mae'r cyfarwyddyd uchod gan CIPFA yn darparu fframwaith da ar gyfer y gwaith hwn ac yn cynnwys holiadur / rhestr wirio hunanasesu.
- 1.3 Er mwyn gallu mesur effeithiolrwydd a gwelliant flwyddyn ar ôl blwyddyn bydd 'siartiau pry copyn' yn cael eu cynhyrchu'n flynyddol er mwyn crynhoi canlyniad y gweithdai mewn ffordd sy'n weledol. Defnyddir y siartiau i benderfynu ar gyfeiriad y daith rhwng blynyddoedd o safbwynt cydymffurfio gyda'r arfer orau a nodwyd yn yr holiadur / rhestr wirio. (Gweler Atodiad A). Ar gyfer y rhan fwyaf o reolaethau disgwylidig / gweithdrefnau yn y canllawiau yr ymateb 'Ydyw' yw'r ymateb positif, fodd bynnag, mae yna achlysuron lle mai 'na' yw'r ymateb positif. Yr ymtebion positif sy'n cael eu defnyddio i bwrpas cymharu, bydded y rhain wedi'u hasesu fel 'ydyw' neu 'na' fel yn briodol. (Gwler Atodiad A).
- 1.4 Mae llawer o'r cyfarwyddyd yn rhoi pwyslais ar y wybodaeth arbenigol y mae Aelodau'r Pwyllgor Archwilio ei hangen. Darparwyd sesiynau hyfforddi yn ystod y flwyddyn ar Reoli Risg, Rheoli'r Trysorlys ac ar rôl Aelodau mewn perthynas ag adolygu'r Datganiad Cyfrifon. Cynhaliwyd sesiwn gynefino hefyd i Aelodau newydd y Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn hon.

2. CANLYNIAD HUNANASESIAD EFFEITHIOLRWYDD 2013

- 2.1 Cynhaliwyd gweithdy ar 16 Ionawr 2013 gyda'r Pennaeth Swyddogaeth - Adnoddau, Pennaeth Gwasanaeth – Cyllid, Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio a'r Archwilydd Budd-daliadau a hefyd saith aelod o'r Pwyllgor Archwilio.
- 2.2 Roedd y meysydd ar gyfer eu gwella a nodwyd yn y gweithdy hwn yn cynnwys gwella hyfforddiant cynefino a dadansoddi anghenion hyfforddiant unigol i Aelodau. Rhai meysydd eraill a nodwyd oedd egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Pwyllgorau Archwilio a Sgriwtini; yn arbennig mewn perthynas â Rheoli Risg a'r angen i fabwysiadu canllawiau Atal Twyll a Llygredd fel y gellir mesur effeithlonrwydd trefniadau cyfredol y Cyngor. Mynegodd yr Aelodau ddymuniad hefyd i ymwneud mwy â'r broses o gynllunio Archwilio Allanol (gan gynnwys ffioedd) a hefyd i gael gwybodaeth am berfformiad Archwilio Allanol yn rheolaidd.

3. TREFNIADAU ATAL TWYLL

- 3.1** Yn 2012-13, diwygiwyd y Polisi Atal Twyll a Llygredd gydag argymhelliad gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 25 Medi 2012 y dylai'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo. Yn yr un cyfarfod, argymhellwyd hefyd bod y Cynllun Ymateb i Dwyll a'r Polisi Gwyngalchu Arian yn cael eu cymeradwyo.
- 3.2** Roedd y gweithdy ym mis Ionawr 2013 yn cynnwys cyflwyniad gan yr Ymchwilydd Budd-dal ar drefniadau atal twyll budd-dal a pherfformiad yn 2012-13.
- 3.3** Mae Cyfarwyddyd CIPFA i Awdurdodau Lleol yn cynnwys cyfeiriad at rôl y Pwyllgor Archwilio o ran sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i atal twyll a llygredd. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio yn adlewyrchu hyn ac mae paragraff 3.4.8.1.3 y Cyfansoddiad yn dweud:

'Bydd y Pwyllgor hefyd yn cynghori ar Bolisi'r Cyngor ar gyfer Atal Twyll a Llygredd gan gynnwys:-

- (i) adolygu effeithiolrwydd y polisi;*
- (ii) derbyn adroddiad blynyddol gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid ar weithredu'r polisi'.*

- 3.4** Mae Cyfarwyddyd CIPFA i Awdurdodau Lleol yn cynnwys mesurau ar gyfer mabwysiadu "Rheoli'r Risg o Dwyll - Camau i Atal Twyll a Llygredd" ac yn dweud y dylai'r Pwyllgor sicrhau fod y camau ynddo'n cael eu gweithredu. Yn Ebrill 2012, adolygodd y Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio a'r Archwilydd Budd-daliadau, ar ran y Pwyllgor Archwilio, drefniadau atal twyll y Cyngor yn erbyn canllawiau tebyg a oedd wedi'u cynnwys yn Niagnostig Gwerthuso Risg Twyll CIPFA (FRED1). Canfu'r adolygiad fylchau sylweddol yn y trefniadau cyfredol. Mae hwn yn faes, felly, y mae angen i'r Pwyllgor weithredu yn ei gyloch er mwyn cael sicrwydd bod y trefniadau cyfredol yn rhai effeithiol ac yn rhai sy'n cael eu gweithredu.
- 3.5** Cyn mabwysiadu'r ddogfen CIPFA "Rheoli'r Risg o Dwyll - Camau i Atal Twyll a Llygredd" yn ffurfiol, cynghorir y Pwyllgor i gynnal sesiwn fer ar ymwybyddiaeth o dwyll yn cynnwys sut y gellir gwneud y defnydd gorau o ganllawiau CIPFA. Yn hyn o beth, gellir defnyddio Llyfr Coch 2 CIPFA 'Rheoli'r Risg o Dwyll' i feincnodi gallu gwrth-dwyll y Cyngor a'i drefniadau llywodraethu. Trwy fabwysiadu ei ganllawiau, bydd y Pwyllgor yn dangos ymrwymiad i fabwysiadu dull cynhwysfawr o ran lleihau i'r eithaf y colledion i'r Cyngor o ganlyniad i dwyll.
- 3.6** Argymhellir, felly, bod sesiwn fer ar Ymwybyddiaeth Twyll yn cael ei chynnal ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Archwilio i roi cefndir i'r trefniadau a'r materion cyfredol ac i gynnwys gofynion y canllawiau Rheoli'r Risg o Dwyll a sut y gellir defnyddio'r canllawiau i gyfarfod â chyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas ag atal twyll a llygredd o fewn ac yn erbyn y Cyngor.

4. CAMAU PELLACH

- 4.1** Mae gwella'r Pwyllgor yn broses barhaus, gydag adolygiad o brosesau a chanlyniadau'r hunanasesiad yn arwain at adolygu, diweddarau a gwella ar sail barhaol. Mae asesuadau 2013, er eu bod yn dangos gwelliant o gymharu â 2012, hefyd yn dangos nifer o gyfleon ar gyfer datblygu ymhellach y modd y mae'r Pwyllgor yn gweithio.
- 4.2** Mae'r tabl yn Atodiad B yn rhoi canlyniad y gweithdy ym mis Ionawr 2013 yn erbyn y cwestiynau hunanasesu o gymharu â'r canlyniadau ar gyfer 2011-12. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried canlyniadau'r gweithdy, i newid os credir bod angen gwneud hynny, ac yna i'w gymeradwyo'n ffurfiol.

4.3 Mae'r tabl yn Atodiad C yn dangos y Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwella am 2013-14 o ganlyniad i waith y Pwyllgor yn y Gweithdy ym mis Ionawr 2013.

5. CASGLIADAU AC ARGYMHELLION



Argymhellir bod y Pwyllgor yn:-

- 5.1** mabwysiadu canlyniad yr hunanasesiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor gan gynnwys y Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwella yn Atodiad C;
- 5.2** cynnwys sesiwn hyfforddi ymwybyddiaeth twyll yn ei raglen Hyfforddiant ar gyfer 2013-14 i roi gwybodaeth ar gyfer ffurfio barn ar effeithiolrwydd trefniadau presennol y Cyngor i atal twyll a llygredd; a
- 5.3** cynnwys yn ei raglen waith ar gyfer 2013-14 hunanasesiad diwygiedig ar effeithiolrwydd y Pwyllgor.

JOHN FIDOE
PENNAETH GWASANAETH (ARCHWILIO)

5 CHWEFROR 2013

‘GRAFFIAU PRY COPYN’ O GANLYNIAD I HUNANASESIADAU YN EBRILL 2012 AC IONAWR 2013



NODER - Pe bai holl feysydd yr hunanasesiad wedi'u cyflawni, byddai'r llinell fewnol yn cyfarfod â'r llinell allanol. Y pellaf yw'r llinellau oddi wrth ei gilydd, lleiaf yw cydymffuriad y Pwyllgor gydag arfer orau'r Hunan Asesiad.

Mae'r graffiau'n dangos cyfeiriad y daith o ran sut y mae sefyllfa'r Pwyllgor yn gwella yn erbyn arfer orau. Y meysydd a nodwyd uchod ar gyfer gwaith cychwynnol pellach i'w wneud yw meysydd Hunanasesu 2, 4, a 7 sy'n ymwneud â:

Maes 2 – Aelodaeth – gwella Asesiad Anghenion Hyfforddiant Aelodau'r Pwyllgor Archwilio.

Maes 4 – Rheolaeth Fewnol – angen mabwysiadu'r cyfarwyddyd “Rheoli'r Risg o Dwyll – Camau Gweithredu i Atal Twyll a Llygredd”, neu gyfatebol, er mwyn rhoi sicrwydd am y trefniadau sydd yn eu lle yn y Cyngor ac fel y gellir monitro effeithiolrwydd trefniadau o'r fath.

Maes 7 - Archwilio Allanol - gwell gwybodaeth ar gynllunio gwaith Archwilio Allanol, monitro perfformiad a ffioedd.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwella yn Atodiad C yn nodi sut y byddir yn parhau gyda'r gwelliant.

RHESTR WIRIO HUNANASESU'R PWYLLGOR ARCHWILIO
ADOLYGWYD – 16 Ionawr 2013

SEFYDLIAD, GWEITHREDIAD A DYLETSWYDDAU			
1	Rôl a Chylch Gorchwyl		
Cyf	Mater	Ymateb PA 24.04.12	Hunanasesiad Ionawr 2013
1.1	Oes gan y Pwyllgor Archwilio gylch gorchwyl ysgrifenedig?	Oes – yn y Cyfansoddiad	Oes – yn y Cyfansoddiad – ond mae angen egluro'r berthynas a'r cyfrifoldeb am gylch gorchwyl tebyg i Bwyllgorau eraill – e.e. Sgriwtini Corfforaethol mewn meysydd fel Rheoli Risg.
1.2	Ydi'r cylch gorchwyl yn delio gyda swyddogaethau sylfaenol y Pwyllgor Archwilio fel a nodir yng nghyfarwyddyd CIPFA?	Ydyw - ond angen ei ddiweddarau.	Ydyw – wedi ei ddiweddarau ac yn awr yn cynnwys anghenion y Mesur Lleol.
1.3	Ydi'r cylch gorchwyl wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor ac yn cael ei adolygu yn ysbeidiol?	Na - angen ei adolygu a'i ddiweddarau yn 2012-13.	Ydyw - gwnaed hynny yn 2012-13 a'i ddiweddarau.
1.4	A oes digon o Aelodau yn y Pwyllgor Archwilio ag awdurdod ac adnoddau i gyflawni ei rôl yn effeithiol ac yn annibynnol?	Oes – ond mae adroddiadau hwyr wedi bod yn wendid difrifol yn 2011-12 – Angen rhoi sylw i hyn.	Ydyw
1.5	All y Pwyllgor Archwilio fynd i Bwyllgorau eraill ac i'r Cyngor llawn fel bo'r angen?	Gall - Mewn theori, ond anaml mae hyn yn digwydd.	Ydyw - ond peth trafodaeth ar sut y gwneid hyn yn ymarferol – i gael sylw fel rhan o'r ymateb i 1.1 uchod.
1.6	A yw Datganiad yr Awdurdod ar reolau mewnol yn cynnwys disgrifiad o sefydliad a gweithgareddau'r Pwyllgor Archwilio?	Ydyw – wedi'i gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.	Ydyw - Mae gennym hefyd y Côd Llywodraethu Lleol erbyn hyn.
1.7	Fydd y Pwyllgor Archwilio weithiau'n asesu ei effeithlonrwydd ei hun?	Bydd – Blynyddol – ers Rhagfyr 2009 – diweddaraf Ebrill 2012.	Ydyw – eto ym mis Ionawr 2013.
1.8	Fydd y Pwyllgor Archwilio yn gwneud adroddiad blynyddol ffurfiol ar ei waith a'i berfformiad yn ystod y flwyddyn i'r Cyngor llawn?	Bydd - dechreuodd wneud hynny yn 2011.	Bydd – adroddiad blynyddol gan y Cadeirydd.
2	Aelodaeth, Cynefino a Hyfforddiant		
2.1	A gafwyd cytundeb ffurfiol ar aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a gosod cworwm?	Do - yn y cyfansoddiad.	Do - yn y Cylch Gorchwyl yn y cyfansoddiad.
2.2	A yw'r Cadeirydd yn annibynnol o'r Pwyllgor Gwaith?	Ydyw - Nid yw'r Cadeirydd yn aelod o'r grwpiau a gynrychiolir ar y Pwyllgor Gwaith.	Ydyw
2.3	A oes gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio wybodaeth flaenorol, neu a yw wedi derbyn hyfforddiant priodol ar reoli cyllid a risg, safonau a chysyniadau cyfrifo a'r drefn reolaethol?	Oes - Y cyn aelod portffolio ar gyfer Cyllid - cyn gyfarwyddwr cwmni - ynghyd â hyfforddiant mewnol yn ystod y flwyddyn.	Do – cafwyd trafodaeth ar ffurf hyfforddiant o'r fath – gofynnwyd am i hyfforddiant bellach ar y Datganiad Cyfrifon gael ei wneud cyn yr adolygiad y flwyddyn hon.
2.4	A yw Aelodau newydd y Pwyllgor Archwilio yn derbyn hyfforddiant cynefino priodol?	Na - angen cynhyrchu pecyn cynefino - wedi ei gefnogi gyda chyfarfod cynefino cychwynnol gyda'r Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Archwilio - angen sefydlu hyn ar gyfer unrhyw aelodau newydd ym mis Mai. Gellid mabwysiadu deunydd cynefino o Gyngor arall?	Do - cynhaliwyd sesiwn gynefino i aelodau newydd y Pwyllgor a'r rhai presennol, y flwyddyn hon. Fodd bynnag, roedd Aelodau yn teimlo y byddai sesiwn gynefino i Aelodau'r Pwyllgor yn dilyn ethol y Cyngor newydd ym Mai yn arbennig o berthnasol ac y dylai fod yn fwy cynhwysfawr.
2.5	A yw sgiliau a phrofiad yr holl Aelodau wedi'u hasesu a hyfforddiant wedi'i roi ar gyfer y bylchau a nodwyd?	Ydynt ond – bydd holiadur ffurfiol ar gyfer anghenion hyfforddi yn cael ei gyflwyno ar gyfer pob Aelod.	NA - Aelodau'n teimlo - er bod yna broses gorfforaethol o asesu anghenion hyfforddiant yn seiliedig ar adolygiad cymheiriaid ac yn cael ei wneud gan AD, gellid gwneud mwy i nodi anghenion hyfforddi Aelodau'r Pwyllgor eu hunain.

2	Aelodaeth, Cynefino a Hyfforddiant		
Cyf	Mater	Ymateb PA 24.04.12	Hunanasesiad Ionawr 2013
2.5			Gwnaed sylw hefyd y gellid nodi anghenion mewn rhai amgylchiadau ond nad oedd yr adnoddau / sgiliau bob amser ar gael i'w cyflawni. Roedd angen Aseiad Anghenion Hyfforddi penodol i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio gyda chysylltiad i'r sesiynau cynefino ac asesiadau cymheiriaid.
2.6	A yw pob Aelod wedi datgan ei ddiddordebau busnes?	Ydyw - Angen Cyfansoddiadol i'r holl Aelodau.	Ydyw - fel sydd ei angen yn y Cyfansoddiad
2.7	A yw'r Aelodau'n ddigon annibynnol o bwyllgorau allweddol eraill yn y Cyngor?	Ydynt - o fewn cyfyngiadau'r Cyfansoddiad.	Ydynt - Gwnaeth Aelodau sylw y bydd angen o bosib ailystyried hyn ar ôl mis Mai 2013 oherwydd y gostyngiad mewn niferoedd.
3	Cyfarfodydd		
3.1	Ydi'r Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod yn rheolaidd?	Ydyw	Ydyw
3.2	Ydi'r cylch gorchwyl yn nodi amledd y cyfarfodydd?	Ydyw - er mewn gwirionedd, cyfarfu'r Pwyllgor yn fwy aml yn 2011-12.	Ydyw
3.3	A yw calendr y Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod anghenion busnes yr Awdurdod, anghenion llywodraethu a'r calendr ariannol?	Ydyw - mae'r PA wedi cynhyrchu amserlen o eitemau rhaglen - ond angen ei diweddarau yn 2012-13.	Ydyw - ond peth trafodaeth ar yr amser sydd ar gael i'r Pwyllgor adolygu'r Datganiad Cyfrifon - yn y gorffennol, ychydig o amser oedd ar gael rhwng cylchredeg y papurau a'r cyfarfod. Cytunwyd y byddai'r mater hwn yn derbyn sylw yn yr adolygiad parhaus o galendr y Pwyllgor.
3.4	A yw'r Aelodau'n mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd ac os nad ydynt, a gymerir y camau priodol?	Ydynt - ni nodwyd unrhyw broblemau gydag Aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn 2011-12.	Ydynt - Fodd bynnag, nid oedd yn glir i'r Aelodau lle y gellid canfod y wybodaeth hon. Pwy sy'n cofnodi; yn monitro ac yn adrodd yn ôl, pryd ac yn lle? Byddai'r Cadeirydd yn hoffi cynnwys presenoldeb Aelodau yn ei adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor.
3.5	A yw'r cyfarfodydd yn rhydd ac yn agored heb unrhyw arwyddion o ddylanwadau gwleidyddol?	Ydynt - ni nodwyd unrhyw broblemau gydag Aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn 2011-12.	Ydynt - Roedd peth trafodaeth ar y geiriad yma a'r ffaith bod y Cyngor o'i natur yn sefydliad gwleidyddol. Y geiriad i'w adolygu ar gyfer yr hunanasesiad nesaf.
3.6	A yw Swyddog Adran 151 yr Awdurdod neu ddirprwy yn mynychu'r holl gyfarfodydd?	Ydyw	Ydyw
3.7	A yw'r swyddogion priodol yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio?	Ydynt	Ydynt
4	Rheolaeth Fewnol		
4.1	A fydd y Pwyllgor Archwilio yn ystyried canfyddiadau'r arolwg blynyddol o effeithlonrwydd y System o Reolaeth Mewnol (fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio) yn cynnwys adolygiad o effeithlonrwydd y system Archwilio Mewnol?	Bydd - fel rhan o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.	Bydd - fel rhan o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
4.2	A yw'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am adolygu a chymeradwyo'r System o Reolaeth Mewnol ac a yw yn ei ystyried ar wahân i'r cyfrifon?	Ydyw	Ydyw - fel rhan o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
4.3	A fydd y Pwyllgor Archwilio'n ystyried pa mor ystyrion yw'r System o Reolaeth Mewnol	Bydd - fel rhan o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.	Bydd - fel rhan o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

4 Rheolaeth Fewnol			
Cyf	Mater	Ymateb PA 24.04.12	Hunanasesiad Ionawr 2013
4.4	A yw'r Pwyllgor Archwilio yn bodloni ei hun bod y System o Reolaeth Fewnol wedi gweithredu'n effeithiol trwy gydol y cyfnod adrodd yn ôl?	Ydyw - Mae Adroddiadau Cynnydd AM yn rhoi hyn - argymhelliad diweddar i roi sgôr rhwng 1-10 i atgyfnerthu hyn.	Ydyw - unwaith yn rhagor y flwyddyn hon, mae adroddiadau cynnydd AM wedi rhoi darlun o'r system reoli fewnol a chafodd yr holl adroddiadau Sicrwydd Coch a'r gwendidau sylweddol o ran rheolaeth eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio.
4.5	A yw'r Pwyllgor Archwilio wedi ystyried sut y mae'n integreiddio gyda phwyllgorau eraill all fod â chyfrifoldeb am reoli risg?	Ydyw - I'w gynnwys mewn gweithdy/hyfforddiant ar y cyd ar y Fframwaith Rheoli Risg gyda'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.	Ydyw - cafwyd trafodaeth ar y tebygrwydd rhwng rhai o swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio. Roedd Cadeiryddion y ddau Bwyllgor wedi cyfarfod i drafod y mater ond roedd teimlad bod angen mwy o eglurhad o'r swyddogaeth mewn perthynas â Rheoli Risg.
4.6	A yw'r Pwyllgor Archwilio (gyda chyfrifoldeb dirprwyedig) neu'r Cyngor llawn wedi mabwysiadu "Rheoli'r Risg o Dwyll - Gweithrediadau i Wrthsefyll Twyll a Llygredd?"	Na - ond yn dilyn gweithdy mis Ebrill - bydd adroddiad yn cael ei baratoi i'w fabwysiadu yn y Pwyllgor yn 2012-13.	Na - bydd hyn yn digwydd yn 2013-14.
4.7	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n sicrhau bod y "Gweithrediadau i Wrthsefyll Twyll a Llygredd" yn cael eu gweithredu?	Na - ond bydd rhestr wirio yn cael ei chwblhau a'r cynllun gweithredu yn cael ei gynhyrchu yn 2012-13.	Na - bydd hyn yn digwydd yn 2013-14 yn dilyn ei fabwysiadu.
4.8	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n ymwybodol o rôl Rheoli Risg gyda pharatoi'r Cynllun Archwilio Mewnol?	Ydyw - rhan o'r rhagarweiniad i'r Cynllun.	Ydyw - Y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn gynyddol wedi ei chysylltu i'r Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol ac wedi'i groesgyfeirio iddo.
4.9	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n adolygu cofrestr risg strategol yr Awdurdod o leiaf yn flynyddol?	Na - ond gwneir hyn yn 2012-13 - mae Cofrestr Risg Gorfforaethol ddrafft bellach wedi ei chynhyrchu.	Ydyw - Y Gofrestr Risg Gorfforaethol ddrafft wedi'i chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn 2012-13 a Chofrestr ddiwygiedig ar raglen y Pwyllgor Archwilio sydd i'w gynnal ar 05-02-13.
4.10	A yw'r Pwyllgor Archwilio yn monitro sut y mae'r Awdurdod yn asesu ei risg?	Na - ond bydd yn gwneud hynny yn 2012-13.	Ydyw - cyflwynwyd Strategaeth Rheoli Risg a Chyfarwyddyd i'r Pwyllgor eu cymeradwyo yn 2012-13.
4.11	A yw Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio yn cynnwys trosolwg o'r broses Rheoli Risg?	Ydyw	Ydyw - Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddarau gyda chanllawiau'r Mesur Llywodraeth Leol a rôl y Pwyllgor Archwilio.
5 Adroddiadau Ariannol a Materion Rheolaethol			
5.1	A yw rôl y Pwyllgor Archwilio yn ystyried ac / neu yn cymeradwyo'r cyfrifon blyneddol wedi'i ddiffinio'n glir?	Ydyw - yn y cylch gorchwyl.	Ydyw
5.2	A yw'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried yn benodol:- • Addasrwydd polisiâu a thriniaethau cyfrifo; • Penderfyniadau Mawr yn cael eu gwneud; • Gwaith Dileu Dyledion Mawr; • Newidiadau mewn triniaethau cyfrifo; • Pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifo; Yr agweddau naratif o adrodd yn ôl?	Ydyw - hyfforddiant yn parhau ar gyfer y PA - mae adroddiadau Archwilwyr Allanol a nodiadau briffio gan y Gwasanaeth Cyllid yn cynorthwyo - fodd bynnag, mae amseru yn ystyriaeth - e.e. ar ôl y digwyddiad?	Ydyw - gofynnwyd i Aelodau edrych ar y polisi ynglŷn â dileu dyledion.
5.3	A drefnwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio i dderbyn adroddiad yr Archwilydd Allanol i'r rhai sy'n llywodraethu yn cynnwys trafodaeth am newidiadau arfaethedig i'r cyfrifon a materion eraill yn codi o'r archwiliad?	Do	Do
5.4	A yw'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu llythyr sylwadau'r rheolwyr?	Ydyw	Ydyw

5	Adroddiadau Ariannol a Materion Rheolaethol		
Cyf	Mater	Ymateb PA 24.04.12	Hunanasesiad Ionawr 2013
5.5	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n adolygu polisiau cyfrifo'r Awdurdod yn flynyddol?	Ydyw	Ydyw
5.6	A yw'r Pwyllgor Archwilio yn cael dealltwriaeth o weithdrefnau rheoli ar gyfer paratoi cyfrifon blynyddol yr awdurdod?	Ydyw - drwy gyfrwng adroddiadau Cyllid.	Ydyw
5.7	A oes system ar gael i'r Pwyllgor Archwilio i'w gadw'n ymwybodol o faterion cyfreithiol a rheolaethol, er enghraifft trwy dderbyn cylchlythyrau a thrwy hyfforddiant?	Oes - adroddiadau Swyddogion i'r Pwyllgor - ond gallai wella trwy gyhoeddi cylchlythyrau rheolaidd a hyfforddiant ar bynciau'r dydd.	Ydyw
6	Archwilio Mewnol		
6.1	A yw'r Pwyllgor Archwilio yn cymeradwyo, yn flynyddol ac mewn manylder, gynlluniau Archwilio Mewnol strategol a blynyddol yn cynnwys ystyried a yw sgôp gwaith Archwilio Mewnol yn delio â risgiau arwyddocaol yr Awdurdod?	Ydyw - Bellach mae'r Cynllun Gweithredol AM yn cael ei groesgyfeirio lle mae hynny'n briodol i'r Risgiau Corfforaethol yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol.	Ydyw - mynegwyd pryder ynglŷn â nifer yr ymchwiliadau oedd yn cael effaith ar y Cynllun.
6.2	A oes gan yr Adran Archwilio Mewnol linell adrodd yn ôl priodol i'r Pwyllgor Archwilio.	Oes	Oes
6.3	A yw'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiadau ysbeidiol gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnwys adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Archwilio Mewnol?	Ydyw - Adroddiadau Gwaith AM i bob cyfarfod ac adroddiad blynyddol yn y cyfarfod cyntaf ar ôl diwedd mis Mawrth.	Ydyw
6.4	A yw archwiliadau dilynol gan Archwilio Mewnol yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Archwilio ac a yw'r Pwyllgor yn ystyried pam mor ddigonol yw gweithredu ar argymhellion?	Ydynt - ym mhob cyfarfod fel rhan o adroddiad cynnydd ar waith AM.	Ydynt
6.5	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n cynnal trafodaethau preifat ysbeidiol gyda'r Pennaeth Archwilio Mewnol?	Ydyw - ond penderfyniad ymwybodol nad oes angen hyn - sefydlwyd bod cyfle yno pan fo'r naill barti neu'r llall ei angen.	Ydyw - fel y flwyddyn ddiwethaf - dim yn teimlo'r angen i wneud hynny ond fe ellir gwneud os ystyrir bod angen hynny.
6.6	A oes cydweithrediad priodol rhwng yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol?	Oes - ond angen gwell cynllunio.	Oes - ond unwaith yn rhagor mae lle i wella o safbwynt cynllunio.
6.7	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n adolygu pa mor ddigonol yw staff ac adnoddau eraill Archwilio Mewnol?	Ydyw - rhan o Gynllun Gweithredu AM bob blwyddyn.	Ydyw
6.8	A yw'r Pwyllgor Archwilio wedi gwerthuso a yw ei wasanaeth Archwilio Mewnol yn cydymffurfio gyda Chôd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y DU?	Ydyw - adolygiad allanol gan Archwilio Allanol.	Ydyw
6.9	A yw mesurau perfformio Archwilio Mewnol yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Archwilio?	Ydynt - fel rhan o Adroddiad cynnydd ar waith AM wedi ei gysylltu i'r Cynllun Busnes.	Ydynt
6.10	A yw'r Pwyllgor Archwilio wedi ystyried y wybodaeth y mae'n dymuno ei derbyn gan Archwilio Mewnol?	Ydyw - yn parhau - gwnaed cais am enghraifft o adroddiad llawn AM fel y gall Aelodau weld y fethodoleg yn gweithio'n ymarferol a nodi unrhyw anghenion adrodd ychwanegol.	Ydyw - mae fformat newydd wedi ei ddatblygu ar gyfer 2012-13 gyda gwybodaeth ychwanegol ar ganlyniadau pob adolygiad.
7	Archwilio Allanol		
7.1	A yw'r Archwilwyr Allanol yn cyflwyno ac yn trafod eu cynlluniau archwilio a'u strategaeth gyda'r Pwyllgor Archwilio (gan gydnabod dyletswyddau statudol Archwilio Allanol)?	Ydyw	Ydyw - ond gellid cryfhau yn y maes hwn.
7.2	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n cynnal trafodaethau preifat yn ysbeidiol gyda'r Archwilydd Allanol?	Ydyw - Ond penderfyniad ymwybodol nad oes angen hyn - fodd bynnag, sefydlwyd bod cyfle i wneud hynny pan fo'r naill barti neu'r llall ei angen.	Ydyw - fel y flwyddyn ddiwethaf.
7.3	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n adolygu adroddiad blynyddol yr Archwilydd Allanol i'r rhai sy'n llywodraethu?	Ydyw	Ydyw

7 Archwilio Allanol			
Cyf	Mater	Ymateb PA 24.04.12	Hunanasesiad Ionawr 2013
7.4	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n sicrhau bod swyddogion yn monitro'r camau gweithredu a gymerir o ran argymhellion archwilio allanol?	Na - ond mae'r Adain Archwilio Mewnol wedi cynhyrchu adroddiad ar Ddilyn i Fyny Argymhellion nad ydynt yn ymwneud ag AM gan gynnwys yr angen i gael cofrestr ganolog o'r holl argymhellion ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgorau perthnasol.	Ydyw
7.5	A yw adroddiadau ar waith Archwilio Allanol ac asiantaethau archwilio eraill yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor, yn cynnwys Llythyr Archwilio ac Archwiliad Blynyddol y Comisiwn Archwilio?	Ydyw - Archwilio Allanol Ydyw - Gall eraill fynd i rywle arall.	Ydyw
7.6	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n asesu perfformiad yr Archwilwyr Allanol?	Na - angen edrych ar fabwysiadu DP perthnasol ar gyfer adrodd arnynt fel rhan o adroddiadau gwaith Archwilwyr Allanol i'r Pwyllgor.	Na - roedd yr Aelodau yn ystyried bod hwn yn faes blaenoriaeth ar gyfer gwella a chysylltiadau gyda 7.7 isod.
7.7	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n ystyried ac yn cymeradwyo ffi'r Archwilwyr Allanol?	Na - ffi ar gyfer y Datganiad Cyfrifon wedi'i gosod - dylid ystyried a chyfiawnhau gwaith ychwanegol mewn perthynas ag ymyrraeth.	Na - mwy o gyfarfodydd rhwng cynrychiolwyr y Pwyllgorau Archwilio a Sgriwtini gyda rheoleiddwyr. Roedd yr Aelodau yn ystyried bod hwn yn faes blaenoriaeth ar gyfer gwelliant.
GWEINYDDU			
8 Rheoli Rhaglenni			
8.1	A oes gan y Pwyllgor Archwilio ysgrifennydd penodol o'r Gwasanaethau Pwyllgor / Aelodau?	Oes	Oes
8.2	A yw papurau agenda'n cael eu dosbarthu ymlaen llaw i'r cyfarfodydd fel y gall Aelodau'r Pwyllgor Archwilio baratoi'n ddigonol.	Ydynt - roedd materion yn ymwneud â phapurau yn hwyr yn 2011-12 - angen mynd i'r afael â hyn.	Ydynt
8.3	A yw rhaglenni amlinellol yn cael eu cynllunio un flwyddyn ymlaen llaw i ddelio â materion ar sail dreigl ?	Ydynt - yn ôl y calendr.	Ydynt
8.4	A ofynnir am fewnbwn i Unrhyw Fater Arall yn ffurfiol ac ymlaen llaw gan Aelodau'r Pwyllgor, swyddogion perthnasol, Archwilio Mewnol ac Allanol?	D/B - nid yw'n arferol caniatáu UFA mewn cyfarfodydd Pwyllgor ffurfiol.	D/B - fel y llynedd
9 Papurau			
9.1	A yw'r adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio yn cyfathrebu gwybodaeth berthnasol yn ddigon aml, ar amser, ac mewn fformat sy'n effeithiol?	Ydyw - ond roedd rhai Aelodau yn cwestiynu faint o amser y maent yn ei gael i ystyried adroddiadau hir ac/neu gymhleth - gan gynnwys y Datganiad Cyfrifon.	Ydyw
9.2	A yw'r Pwyllgor Archwilio'n cyhoeddi cyfarwyddyd ac / neu pro fforma ynglŷn â fformat a chynnwys y papurau sydd i'w cyflwyno?	Ydyw - Fformat adrodd y Pwyllgor Corfforaethol.	Ydyw
10 Gweithredu yn codi			
10.1	A yw'r cofnodion yn cael eu paratoi a'u dosbarthu ar unwaith i'r bobl briodol?	Ydynt - ond mae amseru yn broblem - gallai'r cofnodion i'r Cadeirydd fod yn fwy prydlon. Y polisi Corfforaethol yw nad yw Cadeiryddion yn cael y cofnodion drafft ond eu bod yn cael fersiynau terfynol ar yr un adeg â phawb arall - Angen gweld a oes modd adolygu'r polisi Corfforaethol os oes angen. Cymeradwywyd y dylai Cadeiryddion dderbyn cofnodion drafft.	Ydynt - ond byddai'r Aelodau'n hoffi gweld y cofnodion drafft ac ymgynghori gyda hwy ynglŷn â'r cofnodion cyn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor.

10 Gweithredu yn codi			
Cyf	Mater	Ymateb PA 24.04.12	Hunanasesiad Ionawr 2013
10.2	A fydd adroddiad yn cael ei baratoi ar faterion sy'n codi a'i gofnodi yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio?	Bydd – dan y cofnodion ar y rhaglen nesaf – ond nid yw gwybodaeth ynghylch dilyn i fyny gamau a nodwyd yn y cofnodion diwethaf ar gael fel mater o drefn.	Bydd
10.3	A geir pwyntiau gweithredu yn nodi pwy sydd i wneud beth ac erbyn pa bryd?	Na – nid yw'r pwyntiau gweithredu yn cynnwys manylion ynghylch pwy sy'n gyfrifol amdanynt nac erbyn pa bryd fel y gellir dilyn i fyny yn y cyfarfod nesaf.	Ydynt - mae'r cofnodion yn dweud pwy sydd i wneud beth - angen sicrhau bod hyn yn fwy cyson ac yn cynnwys dyddiad ar gyfer cwblhau'r gwaith.

DIWEDD Y RHESTR WIRIO

**RHESTR WIRIO HUNANASESU EFFEITHLONRWYDD PWYLLGOR ARCHWILIO
CYNLLUN GWEITHREDU GWELLA - 16 IONAWR 2013**

Cyf	Mater	Camau Gwella sydd eu hangen	Gweithredu erbyn a dyddiad
1.1 & 4.5	Nid yw'n glir mewn rhai meysydd beth yw swyddogaethau'r Pwyllgorau Archwilio a Sgriwtini. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â'r rôl a'r cyfrifoldeb am Reoli Risg.	Angen egluro swyddogaethau'r Pwyllgorau Archwilio a Sgriwtini yn arbennig mewn perthynas â Rheoli Risg. Trafod gyda Chyfreithiol a Gweinyddol.	Pennaeth Swyddogaeth Adnoddau - Erbyn Pwyllgor Archwilio – Mai 2013
1.5	Sut y gall y Pwyllgor Archwilio yn ymarferol gael mynediad i Bwyllgorau eraill a'r Cyngor llawn fel bo'r angen?	Angen canfod pa weithdrefnau sydd ar gael i hwyluso hyn. Trafod gyda Chyfreithiol a Gweinyddol.	Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio Erbyn Pwyllgor Archwilio – Mai 2013
2.3	Yr Aelodau yn gofyn am gael hyfforddiant pellach ar y Datganiad Cyfrifon cyn yr adolygiad y flwyddyn hon.	Angen sicrhau y ceir sesiwn hyfforddiant ar Ddatganiad Cyfrifon y flwyddyn hon cyn adolygu cyfrifon 2012-13. Angen cysylltu gyda'r Aelodau ar gynnwys yr hyfforddiant i sicrhau ei fod yn bodloni eu hanghenion yn y maes hwn.	Pennaeth Gwasanaeth – Cyllid Cyn yr Adolygiad o'r Datganiad o Gyfrifon 2013
2.4	Trefniadau cynefino i Aelodau newydd y Pwyllgor Archwilio angen eu gwella. Ystyrir bod hyn yn arbennig o bwysig i Aelodau newydd yn dilyn yr etholiad ym Mai 2013.	Mae angen cynnal adolygiad o'r trefniadau cyfredol a darparu sesiwn gynefino a deunyddiau priodol i Aelodau.	Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio a Phennaeth Gwasanaeth – Cyllid Ar gyfer Mai 2013.
2.5	Roedd yr Aelodau yn teimlo, er bod yna broses Gorfforaethol o Asesu Anghenion Hyfforddi yn seiliedig ar Adolygiad Cymheiriaid ac yn cael ei wneud gan AD, gallai mwy gael ei wneud i nodi anghenion hyfforddi Aelodau'r Pwyllgor.	Roedd angen Asesiad Anghenion Hyfforddi penodol i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio sy'n cysylltu gyda'r sesiwn gynefino ac asesiadau cymheiriaid. Holiadur anghenion hyfforddiant / archwiliad sgiliau i'w gyflwyno ac i'w gwblhau'n flynyddol gan Aelodau.	Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio Ar gyfer Mai 2013
3.4	Nid oedd yn amlwg pwy oedd yn gyfrifol am gofnodi; monitro ac adrodd yn ôl ar bresenoldeb Aelodau yn y Pwyllgor na phryd y gwneid yr adrodd yn ôl ac i bwy. Y Cadeirydd yn dymuno cynnwys presenoldeb Aelodau yn ei adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor.	Angen sicrhau pwy sydd â'r cyfrifoldeb am gofnodi a monitro presenoldeb yn y Pwyllgor Archwilio a rhoi'r ffigyrau am 2012-13 i'r Cadeirydd.	Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio Erbyn Pwyllgor Archwilio Chwefror 2013.
3.5	Cafwyd peth trafodaeth ar y geiriad yma a'r ffaith bod y Cyngor yn ei hanfod yn sefydliad gwleidyddol.	Y geiriad i'w adolygu ar gyfer yr hunanasesiad nesaf	Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio Erbyn yr hunanasesiad nesaf.
4.6 & 4.7	Nid yw'r Pwyllgor Archwilio wedi trefnu i fabwysiadu'r canllawiau "Rheoli Risg o Dwyll - Gwerthrediadau i Atal Twyll a Llygredd" neu rywbeth cyfatebol.	Angen trefnu i fabwysiadu'r cyfarwyddyd Atal Twyll ac arfer orau.	Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio Ar gyfer Mai 2013.
5.2	Mewn perthynas â pholisi cyfrifo a gweithdrefnau ariannol, gofynnodd yr Aelodau am weld y polisi ar ddileu dyledion mawr.	Yr Aelodau i dderbyn copi o'r polisi Dileu Dyledion.	Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio Ar gyfer Mai 2013.
6.6	Trefniadau cynllunio rhwng Archwilio Mewnol ac Allanol.	Angen gwella'r trefniadau ar gyfer ymgynghori a chysylltu ynglyn â chynlluniau blynyddol.	Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio Ar gyfer Mai 2013.
7.1	Cyflwyniad gan Archwilio Allanol a thrafodaeth ar eu cynlluniau archwilio a'u strategaeth gyda'r Pwyllgor Archwilio.	Yr Aelodau wedi gofyn am gryfhau pethau o fewn y maes hwn.	Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio Ar gyfer Mai 2013.
7.6 & 7.7	Ymgynghori gyda'r Pwyllgor Archwilio ar gynllunio, perfformiad a ffioedd Archwilio Allanol.	Yr Aelodau'n dymuno ymwneud mwy â'r broses o gynllunio Archwilio Allanol a gyda cymeradwyo ffioedd fel rhan o'r broses hon. Mwy o gyfarfodydd rhwng cynrychiolwyr y Pwyllgorau Archwilio a Sgriwtini gyda rheoleiddwyr.	Pennaeth Gwasanaeth - Cyllid Ar gyfer Mai 2013.

DIWEDD Y CYNLLUN GWEITHREDU

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	PWYLLGOR ARCHWILIO
DYDDIAD:	5 CHWEFOR 2013
TEITL YR ADRODDIAD:	ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO AR GYFER BLWYDDYNSIROL 2012/13
PWRPAS YR ADRODDIAD:	ER GWYBODAETH
ADRODDIAD GAN:	CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO
GWEITHREDU:	CYMERADWYO'R ADRODDIAD AR GYFER EI GYFLWYNO I'R CYNGOR LLAWN YM MIS MAI

Rhagarweiniad

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn Bwyllgor statudol o'r Cyngor ac mae arno ddeng aelod etholedig ac, ers Mai 2012, ddau Aelod Lleyg. Rôl y Pwyllgor Archwilio yw rhoi sicrwydd annibynnol ynghylch pa mor ddigonol yw trefniadau llywodraethu'r Cyngor, yr amgylchedd rheoli cysylltiedig â'r fframwaith rheoli risg. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am wneud gwaith sgritwini annibynnol ar berfformiad ariannol ac anariannol yr Awdurdod (i'r graddau y mae'n effeithio ar ba mor agored yw'r Awdurdod i risgiau ac yn gwanhau'r amgylchedd rheoli), a goruchwyllo'r broses adrodd ariannol ac adolygu'r cyfrifon blynyddol a'u cymeradwyo i'r Cyngor.

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yw'r Cynghorydd Tom Jones a'r Is-Gadeirydd yw'r Cynghorydd Eric Roberts.

Cyfarfodydd

Yn y flwyddyn sirol, mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod pump gwaith a chynhaliwyd cyfarfod ychwanegol i ethol Cadeirydd y Pwyllgor. Penderfynwyd yn ddiweddarach bod y cyfarfod gwreiddiol i ethol Cadeirydd a gynhaliwyd ar 28 Mai 2012 a'r cyfarfod arferol o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 24 Mai 2012 yn annilys oherwydd nad oedd Aelod Lleyg yn bresennol ynddynt, yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Cafodd y penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod ar 24 Mai 2012 eu cadarnhau'n ddiweddarach gan y Cyngor Llawn a chafodd y cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Archwilio a gafodd ei gynnull yn briodol ei gynnal ar 24 Gorffennaf 2012, gyda'n Aelodau Lleyg newydd yn bresennol ynddo.

Caiff ffigyrau presenoldeb ar gyfer y pum cyfarfod cyffredin eu cynnwys er gwybodaeth yn Atodiad A.

Roedd y cyfarfodydd cyffredin yn dilyn calendr y Pwyllgor Archwilio ac ystyriwyd ymysg busnes arferol y Pwyllgor: adroddiadau gwaith gan archwilwyr mewnol ac allanol, y datganiad cyfrifon ac adroddiad yr archwiliwr allanol ar y datganiad. Yn ogystal, adolygodd y Pwyllgor adroddiadau gwaith ar Reoli'r Trysorlys a'r Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys, adroddiad ar y fframwaith rheoli risg strategol, adroddiadau gwaith ar y Cynllun Atal Twyll Cenedlaethol, y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol, Adolygiad o Bolisi Twyll a Llygredd y Cyngor ac Asesiad Gwella Swyddfa Archwilio Cymru. Yn ogystal, derbyniodd y Pwyllgor y drafft o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Medi. O hyn ymlaen, bydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei chyflwyno'n rheolaidd i Bwyllgorau Archwilio yn y dyfodol.

Yn ogystal, derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau unwaith ac am byth ar y Côt Llywodraethu Lleol, defnyddio swyddogion interim, Rheoli Gwybodaeth, yr Uned Cynnal Chadw Adeiladau, Gwella'r Pwyllgor Archwilio, Amcangyfrifon ac Addasiadau ac Addasiadau ar Gyfrifon 2011/12 a Dangosyddion Perfformiad.

Cwblhawyd y gwaith o baratoi'r Datganiad Cyfrifon gyfer 2011/12 wedi eu harchwilio, ar erbyn y dyddiad cau, sef 30 Medi 2012 a'u hargymell gan y Pwyllgor i'w cymeradwyo gan y Cyngor. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gefnogi rheolwyr gyda mesurau i gryfhau'r swyddogaeth Gyllid ymhellach ac i sicrhau fod modd cynnal y cynnydd presennol yn y dyfodol.

Datganiad Llywodraethu

Mabwysiadwyd Datganiad Llywodraethu blynyddol ar gyfer 2011/12 yn unol â'r gofynion statudol. Cynhyrchwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar ôl ymgynghori'n eang ac adolygu'r trefniadau llywodraethu yn ystod y flwyddyn. Yr un modd â Datganiad 2010/11, roedd llawer o Ddatganiad 2011/12 yn gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE ar gyfer Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol ac roedd yn cynnwys, lle yr oedd hynny'n briodol, gyfeiriad at y prosesau gwella a weithredwyd gan y Comisiynwyr.

Fodd bynnag, roedd y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol yn parhau i adlewyrchu rhai gwendidau o ran trefniadau llywodraethu. Cynhyrchwyd Cynllun Gwella er mwyn rhoi sylw i'r gwendidau hyn.

Y Pwyllgor Archwilio

Mae rôl y Pwyllgor Archwilio wedi datblygu eto yn ystod 2012/13. Mae datblygiadau'n cynnwys cymryd i ystyriaeth Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a'r cyfeiriad ynddo at rôl Pwyllgorau Archwilio o ran Rheoli Risg, Llywodraethu a Rheolaeth Fewnol. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 bellach wedi cael ei sefydlu'n gadarn yn y cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor sydd wedi cael ei ymgorffori yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Croesawodd y Pwyllgor Archwilio ddau Aelod Lleyg yn ystod y flwyddyn ac mae'r Pwyllgor wedi cael budd o wybodaeth, sgiliau a phrofiad yr aelodau hyn yn ystod cyfarfodydd. Croesewir yn arbennig yr olwg 'allanol' hon ar faterion y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor wedi cynnal hunanasesiad o effeithiolrwydd eto eleni gan ddefnyddio rhestr wirio a gafwyd o ganllawiau ymarferol CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio Awdurdodau Lleol. Mae canlyniad yr hunanasesiad hwn wedi llywio'r rhaglen hyfforddi a'r camau gweithredu ar gyfer y Pwyllgor.

Hyfforddiant

Yn ystod y flwyddyn, trefnwyd hyfforddiant ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Archwilio, wedi ei gysylltu gyda'u cyfrifoldebau a'r rhaglen datblygu Aelodau mewn perthynas â:-

- Y Datganiad Cyfrifon;
- Rheoli'r Trysorlys; a
- Fframwaith Rheoli Risg (hyfforddiant ar y cyd gydag Aelodau Sgriwtini)

Cafwyd presenoldeb da yn y digwyddiadau hyfforddi hyn ac fe'u croesawyd gan yr Aelodau. Mae'r rhestr o'r rheini a oedd yn bresennol i'w gweld yn **Atodiad B**.

Effeithiolrwydd

Mae'r Aelodau Pwyllgor Archwilio yn cymryd eu rôl mewn perthynas â llywodraethu a stiwardiaeth o ddifrif. Maent yn cydnabod mai Pwyllgor anwleidyddol yw hwn ac, o'r herwydd, swyddogaeth y Pwyllgor yw dal rheoleiddwyr a swyddogion yn atebol a chyflawni'r dyletswyddau mewn perthynas â rheoleiddio'r fframweithiau rheoli risg, llywodraethu a sicrwydd yn y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau'n rheolaidd i gael sicrwydd ynghylch meysydd gweithgaredd allweddol ac mae hefyd yn cwblhau hunanasesiad o'i effeithiolrwydd ei hun.

Cynhaliwyd hunanasesiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor, fel y disgrifwyd eisoes, ym mis Ionawr 2013 i adolygu cynnydd yn 2012/13 yn erbyn rhestr wirio CIPFA mewn perthynas ag arfer orau ar gyfer Pwyllgorau Archwilio. Fel y mae'r graffiau pry' cop yn dangos yn **Atodiad C**, mae peth cynnydd wedi ei wneud ers cynnal yr un hunanasesiad ar gyfer 2011/12.

Mae trafodaethau yn y gweithdy wedi dwyn sylw at nifer o feysydd lle gellid gwneud gwelliannau pellach a chynhyrchir cynllun gwella i'w ystyried a'i fonitro'n barhaus gan y Pwyllgor yn 2013/14.

Archwilwyr Allanol

Mae'r Cyngor yn cael ei archwilio'n allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), er bod rhan o'r gwaith, sef agweddau ariannol yr archwiliad a rhywfaint o waith perfformiad, yn cael ei wneud gan PwC ar gyfer yr archwilydd penodedig yn SAC. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi bod yn ystyried adroddiadau rheolaidd gan PwC ac mae diweddariad yn cael sylw ym mhob cyfarfod.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi bod yn cael diweddariadau rheolaidd gan SAC ar y Cynllun Rheoleiddiol, sy'n cynnwys holl waith y rheoleiddwyr. Mae hon yn agwedd bwysig o fusnes y Pwyllgor i sicrhau bod yr holl adroddiadau allanol yn cael sylw, un ai gan y Pwyllgor Archwilio neu un o'r Pwyllgorau Sgriwtini, a bod camau priodol yn cael eu cymryd.

Ynghyd â diweddariadau ar y Cynllun Rheoleiddio, mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn diweddariadau gan PwC ar y gwaith archwilio ariannol sy'n cael ei wneud. Mae diweddariadau eleni wedi cynnwys y cynllun gwaith ac amserlen y gwaith.

Archwilio Mewnol

Mae gan y Cyngor Dîm Archwilio Mewnol ei hun a reolir dan gontract gyda RSM Tenon Plc. Yn ei gyfarfod ym Mai 2012, cymeradwyodd y Pwyllgor y Cynllun Strategol a Gweithredol ar gyfer Archwilio Mewnol am 2012/13. Adroddir ar berfformiad yn erbyn y Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol gan y Pennaeth Gwasanaeth Archwilio i bob un o gyfarfodydd cyffredin y Pwyllgor fel rhan o adroddiadau gwaith Archwilio Mewnol. Mae adroddiadau gwaith hefyd yn cynnwys perfformiad yn erbyn nifer o ddangosyddion perfformio y cytunwyd arnynt yn ogystal â chynnydd gwasanaethau o ran gweithredu argymhellion archwilio mewnol.

Mae adroddiadau gwaith hefyd yn cynnwys manylion ynghylch adolygiadau Archwilio Mewnol a gwblhawyd, ynghyd â lefelau sicrwydd a roddir. Dros y flwyddyn, mae'r rhain yn datblygu i fod yn asesiad o gryfder fframwaith rheolaeth fewnol y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn hon, mae'r Adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol wedi cynnwys gwybodaeth ychwanegol ynghylch pob adolygiad a gynhaliwyd, gan gynnwys manylion am gefndir a sgôp yr adolygiadau a'r casgliadau allweddol yn codi o'r gwaith a wnaed.

Darperir datganiad cyffredinol ar reolaeth fewnol yn adroddiad blynyddol y Pennaeth Gwasanaeth Archwilio ac yn y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol.

Rheoli Risg

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mae'n rhaid i awdurdodau lleol benodi Pwyllgor sy'n gyfrifol am adolygu ac asesu'r trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol yn yr Awdurdod. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu gofynion y Mesur Lleol.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Pwyllgor y Strategaeth Rheoli Risg a'r Canllawiau gan eu hargymell ar gyfer eu mabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith.

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith Rheoli Risg yn yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn, a bydd Rheoli Risg a derbyn y Gofrestr Risg Gorfforaethol bellach yn eitem sefydlog ar raglen y Pwyllgor o hyn ymlaen.

Mae'r Pwyllgor yn ystyried mai ei rôl allweddol ef o ran y broses Rheoli Risg yw bodloni ei hun ynghylch digonolrwydd y strwythurau, y prosesau a'r cyfrifoldebau ar gyfer nodi a rheoli'r risgiau allweddol sy'n wynebu'r sefydliad.

Atal Twyll

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi derbyn y Polisi Blynyddol ar gyfer Atal Twyll a Llygredd: adroddiad ar gyfer 2011/12 ym mis Medi 2012. Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariad ynghylch cyfranogiad y Cyngor yn y Cynllun Atal Twyll Cenedlaethol yn 2010/11 (rhyddhawyd y canlyniadau yn 2011).

Cafwyd gwybodaeth gefndirol ynghylch gwaith atal twyll a chyflwyniad ar waith y Tîm Atal Twyll Budd-dal Tai yn y gweithdy i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2013. Mae canlyniadau gweithdy mis Ionawr yn cynnwys cam gweithredu i gynnal sesiwn ymwybyddiaeth twyll ar gyfer Aelodau yn 2013/14 ac ystyried mabwysiadu'n ffurfiol y canllawiau 'Rheoli'r Risg o Dwyll' fel modd o feincodi prosesau cyfredol y Cyngor ar gyfer atal twyll a llygredd.

Mae'r adroddiad cynnydd ar Archwilio Mewnol yn cynnwys cyfeiriad at nifer y cyfeiriadau arweiniodd at gynhyrchu adroddiadau ffurfiol yn ystod y flwyddyn.

Cynlluniau i'r Dyfodol

Yn ogystal â'i fusnes rheolaidd, bydd y Cyngor yn parhau gyda'i raglen ddatblygu, a rhoddir siâp ar y rhaglen ddatblygu honno gan yr hunanasesiad o effeithiolrwydd a chanlyniadau'r sesiwn ymwybyddiaeth twyll ac adolygiad o drefniadau atal twyll y Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys rhagor o ddigwyddiadau hyfforddi a fydd yn ymwneud â'i weithgareddau yn 2013/14.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i ddatblygu ei rôl mewn perthynas â Rheoli Risg yn ystod 2013/14 a bydd yn edrych ar fabwysiadu dull o fedru asesu'n barhaus ddigonolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer atal twyll a llygredd


PWYLLGOR ARCHWILIO - DADANSODDIAD O BRESENOLDEB RHEOLAIDD I GYFARFODYDD - 2012-13

Aelodau	% Presenoldeb Cyfarfodydd Rhestredig	Dyddiad y Cyfarfod	Presenoldeb	Dyddiad y Cyfarfod	Presenoldeb	Dyddiad y Cyfarfod	Presenoldeb	Dyddiad y Cyfarfod	Presenoldeb	Dyddiad y Cyfarfod	Presenoldeb	Nifer Cyfarfodydd a Fynychiwyd
Cllr. Alun Wyn Mummery	67%	24/05/2012	Anaddas	24/07/2012	Anaddas	25/09/2012	✓	12/12/2012	✓	05/02/2013		2
Cllr. Eric Roberts	80%	24/05/2012	✓	24/07/2012	✓	25/09/2012	✓	12/12/2012	✓	05/02/2013		4
Cllr. Vaughan Hughes	50%	24/05/2012	Anaddas	24/07/2012	✓	25/09/2012	✓	12/12/2012	x	05/02/2013		2
Cllr. Thomas H Jones	80%	24/05/2012	✓	24/07/2012	✓	25/09/2012	✓	12/12/2012	✓	05/02/2013		4
Cllr. Eurfryn Griffith Davies	60%	24/05/2012	✓	24/07/2012	✓	25/09/2012	x	12/12/2012	✓	05/02/2013		3
Cllr. Jim Evans	80%	24/05/2012	✓	24/07/2012	✓	25/09/2012	✓	12/12/2012	✓	05/02/2013		4
Cllr. Ieuan Williams	40%	24/05/2012	x	24/07/2012	✓	25/09/2012	✓	12/12/2012	x	05/02/2013		2
Cllr. Keith Evans	60%	24/05/2012	x	24/07/2012	✓	25/09/2012	✓	12/12/2012	✓	05/02/2013		3
Cllr. Clifford Lloyd Everett	40%	24/05/2012	x	24/07/2012	x	25/09/2012	✓	12/12/2012	✓	05/02/2013		2
Cllr. Gwilym O Jones	60%	24/05/2012	x	24/07/2012	✓	25/09/2012	✓	12/12/2012	✓	05/02/2013		3
Mrs Sharon Warnes	75%	24/05/2012	Anaddas	24/07/2012	✓	25/09/2012	✓	12/12/2012	✓	05/02/2013		3
Mr Richard Barker	75%	24/05/2012	Anaddas	24/07/2012	✓	25/09/2012	✓	12/12/2012	✓	05/02/2013		3

PWYLLGOR ARCHWILIO - DADANSODDIAD PRESENOLDEB SESIYNNAU HYFFORDDIANT - 2012-13

Aelodau	% Presenoldeb Cyfarfodydd Rhestredig	Gweithdy Effeithiolrwydd	Presenoldeb	Rheolaeth Risg	Presenoldeb	Datganiad Cyfrif	Presenoldeb	Rheolaeth Trysorfa	Presenoldeb	Nifer Cyfarfodydd a Fynychiwyd
Clr. Alun Wyn Mummery	75%	16/01/2013	✓	06/11/2012	✓	12/09/2012	✓	16/10/2012	×	3
Clr. Eric Roberts	75%	16/01/2013	✓	06/11/2012	×	12/09/2012	✓	16/10/2012	✓	3
Clr. Vaughan Hughes	50%	16/01/2013	×	06/11/2012	×	12/09/2012	✓	16/10/2012	✓	2
Clr. Thomas H Jones	75%	16/01/2013	✓	06/11/2012	✓	12/09/2012	×	16/10/2012	✓	3
Clr. Eurfryn Griffith Davies	50%	16/01/2013	×	06/11/2012	✓	12/09/2012	✓	16/10/2012	×	2
Clr. Jim Evans	100%	16/01/2013	✓	06/11/2012	✓	12/09/2012	✓	16/10/2012	✓	4
Clr. Ieuan Williams	25%	16/01/2013	×	06/11/2012	×	12/09/2012	×	16/10/2012	✓	1
Clr. Keith Evans	50%	16/01/2013	✓	06/11/2012	✓	12/09/2012	×	16/10/2012	×	2
Clr. Clifford Lloyd Everett	0%	16/01/2013	×	06/11/2012	×	12/09/2012	×	16/10/2012	×	0
Clr. Gwilym O Jones	75%	16/01/2013	×	06/11/2012	✓	12/09/2012	✓	16/10/2012	✓	3
Mrs Sharon Warnes	100%	16/01/2013	✓	06/11/2012	✓	12/09/2012	✓	16/10/2012	✓	4
Mr Richard Barker	75%	16/01/2013	✓	06/11/2012	✓	12/09/2012	✓	16/10/2012	×	3

CANLYNIADAU HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2012-13



Gweler fod y cyfeirnod allanol yn dangos maes asesu drwy'r rhestr wirio. Mae'r ffigyrau sy'n deillio o ganol y graff "copyn" tuag allan o 1-12 yn cynrychioli nifer y cwestiynau ymhob ardal.

Mae'r llinell doredig glas yn cynrychioli ein sefyllfa pe basa "ie" wedi ei ateb i gwestiynau ymarfer gorau ymhob ardal. Mae'r llinell goch yn amlinellu ble yr ydym mewn gwirionedd yn erbyn ymarfer gorau ymhob ardal. Yr agosaf yw'r llinell goch i'r llinell doredig glas a llai tuag at y canol, y gorau yr ydym wedi perfformio ymhob ardal.

Mae'r graff ar gyfer 2013, gweler ochr chwith ar ben y dudalen hon yn arddangos gwelliannau o fewn yr ardaloedd Swyddogaeth a Cylch Gwaith, Rheolaeth Mewnol, Archwilio Allanol a Gweinyddiaeth yn ystod 2012/13. Er hynny mae'r tair ardal ddiwethaf wedi eu cynnwys o fewn y Cynllun Gweithredu Pwyllgor gogyfer gwella pellach yn 2013/14.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i	Pwyllgor Archwilio
Dyddiad	5 Chwefror 2013
Pwnc	Rheoli'r Trysorlys - Trydydd chwarter 2012/13
Swyddog(ion) Arweiniol	Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)
Swyddog Cyswllt	Einir Wyn Thomas (Ffôn: 2605)
Natur a rheswm dros adrodd	
I'w sgriwteiddio - yn gyson ag arweiniad proffesiynol.	

1. Cyflwynir yr adroddiad hwn i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ymarfer gorau yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Trysorlys a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) sy'n argymhell diweddarau Aelodau ar weithgaredd rheoli trysorlys o leiaf ddwy waith y flwyddyn a, gorau oll, yn chwarterol.
2. Rhoes Ymgynghorwyr Trysorlys y Cyngor (Sector Treasury Services) grynodedb o'r cefndir economaidd a'r rhagolygon (Atodiad 1) ynghyd â'r rhagolygon canlynol yn fuan ar ôl diwedd y chwarter.

	Mar-13	Jun-13	Sep-13	Dec-13	Mar-14	Jun-14	Sep-14	Dec-14	Mar-15
Bank rate	0.50%	0.50%	0.50%	0.50%	0.50%	0.50%	0.50%	0.50%	0.75%
5yr PWLB rate	1.50%	1.50%	1.60%	1.60%	1.70%	1.70%	1.80%	2.00%	2.20%
10yr PWLB rate	2.50%	2.50%	2.60%	2.60%	2.70%	2.70%	2.80%	3.00%	3.20%
25yr PWLB rate	3.80%	3.80%	3.80%	3.80%	3.90%	3.90%	4.00%	4.10%	4.30%
50yr PWLB rate	4.00%	4.00%	4.00%	4.00%	4.10%	4.10%	4.20%	4.30%	4.50%

Adolygodd Sector ei ragolygon ar gyfer cyfraddau llog yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad chwyddiant diweddaraf gan Fanc Lloegr ar gyfer Tachwedd 2012. Yn yr adroddiad chwyddiant ar gyfer mis Awst, newidiodd y Banc ei safbwynt yn sylweddol gan israddio ei ragolygon ar gyfer cryfder a chyflymder yr adferiad mewn twf GDP lle 'roedd gynt wedi bod yn proffwydo adferiad cryf i dros 3% y flwyddyn. Yn ei adroddiad ar gyfer mis Tachwedd, mae'r Banc wedi parhau i fod yn fwy pesimistaidd o ran cyflymder a chryfder yr adferiad; erbyn hyn nid yw ond yn proffwydo twf o gwmpas 1% yn 2013 a 2% yn 2014. Mae'r datblygiadau hyn wedi gwtio'n ôl y disgwyliadau o ran amseru'r cynnydd yn y gyfradd Banc o chwarter 4 2014 i chwarter 1 2015, yn ogystal â chyflymder y cynnydd mewn elw o giltiau.

Maent yn mynd ymlaen i ddweud bod proffwydo'r economi yn parhau i fod yn anodd gyda chymaint o ddylanwadau allanol yn pwyso ar y DU. Mae anghysondeb mawr yn yr elw o fondiau yn debygol yn ystod 2013 wrth i bryderon a hyder buddsoddwyr amrywio rhwng ffafrio asedau gyda mwy o risg h.y. ecwitiâu a bondiau diogelach. Gwelwyd cynnydd sylweddol ym mhrisiau ecwiti yn ystod ail hanner 2012 a dechrau mis Ionawr, ynghyd â chwymp mewn prisiau bondiau a chynnydd mewn elw o fondiau. Mae 2013 yn debygol o weld brwydr rhwng prisiau bondiau ac ecwiti wrth i hyder a phryderon buddsoddwyr amrywio gan arwain at gynnydd a chwymp yn eu prisiau bob yn ail.

Maent hefyd yn dweud bod y cydbwysedd o risgiau i adferiad economaidd yn y DU yn parhau i fod at i lawr. Maent yn credu mai'r patrwm yn y tymor hir fydd gweld elwon o giltiau a chyfraddau PWLB yn codi oherwydd nifer fawr o giltiau a gyhoeddir yn y DU, a'r dyledion sylweddol yn y gwledydd mawr eraill yn y gorllewin. Er bod y rhagolygon o ragor o liniaru meintiol yn debygol o gadw elw o giltiau yn is nag y byddent fel arall yn y tymor byr, nid yw'r rhaglen hon am barhau am byth. Ar ryw adeg, bydd y disgwyl y bydd liniaru meintiol yn dod i ben yn ychwanegu at y pwysau a'r elwon o giltiau.

- Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd y cyfan o bortffolio benthycar Cyngor o'r PWLB ac roedd £4.6m yn is na'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC). Erbyn diwedd y flwyddyn, rhagwelir y bydd y CFR yn £109m ac mae angen benthycar £13m o ganlyniad. Mae'r opsiwn i fewnoli yn parhau i fod ar gael, ond mae'n debygol bod benthycar gan PWLB yn fwy deniadol o ganlyniad i'r Gyfradd Sicrwydd newydd. Parheir i gadw llygad ar amodau'r farchnad a'u hasesu. Bydd benthycar ar ddiwedd y flwyddyn rhwng o gwmpas £96m a £109m.

Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa ar gychwyn ac ar ddiwedd y chwarter :

	31 Rhagfyr 2012		30 Medi 2012	
	£m	%	£m	%
Benthycar – cyfradd sefydlog	96.1	5.53	96.1	5.53
Benthycar – cyfradd amrywiol	-	-	-	-
Adneuon – Ar gael i 30 diwrnod	3.9	0.73	12.1	0.76
Adneuon – Cyfnod Sefydlog < 1 blwyddyn	10.0	1.63	10.0	1.42
Adneuon – Cyfnod Sefydlog 1 blwyddyn +	-	-	-	-
Cyfanswm yr Adneuon	13.9	1.38	22.1	1.06
Yr Adneuon ar gyfartaledd yn y Chwarter	22.2	1.07	26.7	1.01

Yn ystod y chwarter, aeddfedodd bond cyfnod sefydlog 6 mis, £5m gyda Banc Brenhinol yr Alban ac fe gafodd ei ail-fuddsoddi gyda'r un banc am 364 o ddyddiau ar gyfradd o 1.58%. Ni wnaed unrhyw fuddsoddiadau tymor sefydlog eraill ac ni fenthycwyd unrhyw arian newydd nac aildrefnu dyled.

Parheir i adneuo gyda Santander UK plc a hynny'n gyson â'r penderfyniad a wnaed gan y Cyngor Sir ym Mawrth 2012 ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio. Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod y cyfraddau tymor byr ar gyfer dwy o'r tair asiantaeth wedi disgyn i un categori yn is na'r lefel gymeradwy arferol. Mae'r cyfraddau tymor hir yn parhau i fod yn is na lefel y rhestr a gymeradwywyd.

- Yn ystod y chwarter, bu modd i'r Cyngor gadw o fewn ei Gyfyngiadau Pwylllog a Thrysorlys (Atodiad 2).
- Ym mis Hydref, rhoddwyd hyfforddiant ar faterion rheoli trysorlys i'r aelodau er mwyn cefnogi rôl sgritiini'r aelodau yn y Pwyllgor Archwilio.

6. 'Roedd cyllideb y Cyngor ar gyfer eleni yn cynnwys darpariaeth referniw ar gyfer posibilrwydd o fenthycu digefnogaeth. Bydd gofyn i'r Cyngor Sir gymeradwyo unrhyw angen i gael benthyg rhagor o arian o'r fath.
7. Y cynlluniau ar gyfer gweddill y flwyddyn yw:
 - Parhau i fuddsoddi balansau sy'n weddill mewn modd sy'n sicrhau diogelwch ynghyd â hylifedd a chynnyrch;
 - Parhau i fewnoli benthyciadau tra'n monitro cyflwr y farchnad yn rheolaidd;
 - Monitro'r farchnad fel y gellir aildrefnu ar adeg briodol os daw cyfleon ar gael;
 - Ymateb i gynlluniau posib ar gyfer defnyddio benthyca digefnogaeth neu gymorth benthyca unwaith ac am byth;

8. ARGYMHELLIAD

Ystyried cynnwys yr adroddiad.

Cefndir Economaidd / Economic Background

During the quarter ended 31 December:-

- Indicators suggest that the economy probably contracted;
 - Retail sales weakened but spending off the high street held up;
 - Employment continued to rise, albeit at a slower pace;
 - Inflation remained stubbornly above the MPC's 2% target;
 - The MPC paused its programme of asset purchases;
 - UK equity prices rose and government bond prices fell;
 - The US economy continued to recover at a modest pace.
- The unwinding of the boost from the Olympic Games in August means that GDP probably contracted in the fourth quarter of 2012. The CIPS/Markit business surveys generally weakened, with the measure of services activity in December falling to its lowest level since December 2010.
 - The weakness of the surveys seemed in part to reflect the washing out of the impact of the Olympics, which will have given a temporary boost to activity in the third quarter. Indeed, the official data deteriorated at the start of Q4. Following a 2.1% monthly drop in September, industrial production fell by a further 0.8% in October. In addition, the overall trade deficit widened from £2.5bn in September to £3.6bn in October.
 - Meanwhile, high street spending, which is excluded from the CIPS surveys, was relatively weak. The official measure of retail sales volumes fell by 0.7% in October. With sales volumes stagnant in November, retail sales are likely to detract from overall GDP growth in Q4. For example, if sales volumes remain unchanged again in December, then sales will be 0.6% lower than in the third quarter.
 - However, spending off the high street continued to show evidence of recovery. In particular, private new car registrations were 12% and 11% higher than a year ago in October and November respectively.
 - All in all, the above indicate there is likely to have been a 0.4% quarterly fall in GDP in Q4 2012, which would leave growth for 2012 as a whole at about -0.1%.
 - Meanwhile, although the resilience of the labour market continued, it faded a bit through the quarter. Admittedly, the claimant count measure of unemployment fell by 3,000 in November, while the Labour Force Survey measure of employment rose by 40,000 in the three months to October. However, this was the smallest increase since the start of the year.
 - Pay growth remained depressed. Annual growth of overall average earnings dropped from 1.8% in June to 1.3% in October. Given the rate of inflation over this period, real pay continued to fall on an annual basis.
 - Meanwhile, news on the housing market was mixed. The Halifax measure of house prices declined by 0.1% m/m in October, but then rose by 1% in November. However, the Nationwide measure was flat in November, having risen by 0.6% in October. The big picture is that prices on both measures fell slightly over the year. Elsewhere, mortgage approvals for new house purchase continued to edge up. The total of 52,982 in October was the fifth consecutive monthly rise. Although an encouraging sign, the level is still far below that seen pre-crisis.
 - Banks' funding costs continued to ease over the quarter, reflecting the Bank of England's provision of low cost funding via the Funding for Lending Scheme. Rates on new fixed and floating rate mortgages both declined in October compared to their average level in Q3.

- Meanwhile, although public borrowing has continued to overshoot last year's level, the Government was helped by a number of one offs in December's Autumn Statement. Borrowing from April to November was £93bn, £9bn higher than the same period in 2011/12. However, the Office for Budget Responsibility (OBR) expects net borrowing to come in at £108bn in 2012/13, about £10bn below last year's level, largely reflecting the receipt of funds from the Bank of England's Asset Purchase Facility and the anticipated auction of 4G licences early next year.
- As far as the Autumn Statement went, there were few surprises. Austerity was extended for a further year, to 2017/18, and in light of the deterioration in the borrowing forecasts, the Chancellor chose to disregard one of his fiscal targets, to get debt as a share of GDP falling by 2015/16. While he did announce a number of growth friendly measures, including a cut in corporation tax, it was largely a case of give with one hand and take away with the other.
- Inflation remained stubbornly sticky in Q4. Indeed, CPI inflation rose from 2.2% in September to 2.7% in October, and remained at that level in November. October's jump in university tuition fees, hefty rises in utility prices at the end of the 2012 and a pick-up in food price inflation following poor harvests, mean that inflation is likely to hover between 2.5% and 3% for the best part of 2013.
- Meanwhile, the MPC voted in November to pause its programme of quantitative easing, leaving total asset purchases at £375bn. The announcement in November that Mark Carney, the current Governor of the Bank of Canada, will take on the Governorship of the Bank of England from June 2013, raised speculation that the MPC's current 2% inflation target may be reformulated.
- Equity prices in the UK and overseas largely continued to rise over the course of the fourth quarter, with the FTSE 100 picking up from 5,820 to 5,898. Over the period gilt prices fell, causing 10-year gilt yields to rise from about 1.55% to 1.80%. Meanwhile, the pound was unchanged against the dollar, at about \$1.63, but weakened slightly against the euro from €1.25 to €1.23.
- Internationally, the US economy's recovery has remained soft. A weighted average of the manufacturing and non-manufacturing ISM indices points to annualised GDP growth of 2.0% in Q4. Total non-farm payroll employment rose by 138,000 in October and 146,000 in November, compared to an average increase of 168,000 in the third quarter. However, the agreement reached on 1st January to avert some of the "fiscal cliff" scheduled for the start of 2013 reduces the risk of a new recession.
- In the Eurozone, market sentiment continued to be steadied by the ECB's pledge to buy "unlimited" quantities of peripheral government's sovereign debt. However, activity indicators point to a deepening recession in the region. On past form, the composite Eurozone PMI points to a quarterly drop in GDP of about 0.5% in Q4.

Rhagolygon Economaidd / Economic Outlook

UK economy

Mervyn King was downbeat at the press conference, after the November Inflation Report was published, about the combination of stronger inflation and weaker growth facing the UK. He blamed the downturn in the global economy and viewed the recent reversal of the 25% devaluation of Sterling after the financial crash, to 20%, as being unhelpful to encouraging an export led recovery. However, some commentators are now questioning whether Sterling devaluation is a positive for an economy which is focused on producing high value added specialised goods and services which may not be as price sensitive as UK exports were in previous decades. He also commented that the banks were keeping financially weak “zombie firms” on life support systems by allowing them to breach borrowing covenants so as to avoid debt write offs hitting bank balance sheets. This may mean that more viable firms with expansion plans are being starved of credit and that the potential for a more rapid recovery is being stifled.

The Chancellor’s Autumn Statement recognised that the Government is not going to achieve its original timetable for reducing the budget deficit and total debt; the timescale has accordingly been extended. The housing market looks as if it will continue to be weak for a long time yet and the construction industry is contracting.

Eurozone

Although market anxiety about Greece has currently subsided after the agreement to a further major financial support package amounting to nearly €50bn in December, markets are still concerned that the eventual end game could be that Greece is eventually forced to exit (dubbed “Grexit”) the Eurozone and return to the drachma. There is also increasing concern that the contraction in Spain’s economy and the very high level of unemployment of 25%, similar to Greece’s level, could mean that both countries could get into a downward deflationary spiral which makes achieving fiscal correction increasingly difficult and unachievable. The ECB’s pledge to provide unlimited bond buying support for countries that request an official bailout means that market anxiety about Spain and Greece is likely to be subdued in the immediate future. However, the poor economic fundamentals and outlook for both economies could well mean that a storm in financial markets has only been delayed, not cancelled. Spain has also resisted asking for an official national bailout, although it has received financial support to recapitalise its four largest banks. The imminent general election in Italy also creates uncertainty over which political parties will eventually create a coalition and what their eventual compromise will amount to in terms of economic policy to contain Italy’s own fiscal challenges. There could therefore be volatility in Spanish and Italian bond yields in the near future, depending on political and economic developments. There will also be a general election in Germany in 2013 though it currently looks likely that this will lead to little change in current policy on the Euro and support for peripheral countries.

In summary, our views on the prospects for GDP growth in the major global economies are as follows:-

UK

- The Bank of England November 2012 Inflation Report has again pushed back the timing of a return to trend growth and the rate at which inflation will fall back towards the target rate of 2%.
- It now looks likely that Q4 2012 will see a return to negative growth. If this negativity continues into the first quarter of 2013 it would be the first triple dip recession since records began in 1955.
- A fair proportion of UK GDP is dependent on overseas trade; the high correlation of UK growth to US and Eurozone GDP growth means that the UK economy is likely to register weak growth over 2013 and 2014.

- Consumers are likely to remain focused on paying down debt. Weak consumer sentiment and job fears will all act to keep consumer expenditure suppressed; this will be compounded by inflation being higher than increases in average earnings i.e. disposable income will still be eroded.
- The Coalition government is hampered in promoting growth by the need to tackle the budget deficit.
- Little sign of a coordinated strategy for the private sector to finance a major expansion of infrastructure investment to boost UK growth.
- There is potential for more quantitative easing in 2013 which will help to keep gilt yields lower than they would be otherwise.
- On the other hand, recent discussion around reformulating how RPI is calculated could adversely affect demand for inflation indexed gilts in particular, but also gilts generally, if this proposal is taken forward and was perceived to be a softening of the stand against inflation in the UK.
- The main rating agencies have all made it clear they are reviewing the UK's "AAA" status in early 2013. There is a material chance of the current ratings being downgraded. Although the UK will retain its "safe haven" status, a change in rating may place some upside pressure on gilt yields.

US

- GDP growth is likely to remain weak at around 2% - but that is a lot better than the prospects for the UK and Eurozone.
- The Fed has indicated that is unlikely to increase the central rate until 2015. It changed its policy targets to focus specifically on the employment sector. The new target is for unemployment to fall to 6.5% before official policy rates are raised.
- The "fiscal cliff" has only been partially dealt with at the beginning of January 2013. Increasing the debt ceiling and agreeing the cuts in expenditure part of the "fiscal cliff" will need to be resolved within the next two months.
- The housing market is showing some sustainable signs of having turned a corner.

Eurozone

- Austerity programmes in the various "peripheral" countries are starting to show signs of having an effect in reducing growth rates in "core" countries. The Eurozone looks as if it is heading for another quarter of negative growth in Q4 2012 and prolong the recession which began in Q3.

China

- Efforts to stimulate the economy appear to be succeeding towards the end of 2012. However, there are still concerns around the unbalanced nature of the economy which is heavily dependent on new investment expenditure. The potential for the bubble in the property sector to burst, as it did in Japan in the 1990s, could have a material impact on the economy as a whole.

Allan o gyngor gan / From advice from SECTOR Ltd

Dangosyddion Pwyllog – Chwarter 3 2012/13

Dangosydd Pwyllog	Dangosydd 2012/13	Gwirioneddol Chwarter 3
	£m	£m
Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)	113.7	n/a
Benthyca gros	113.7	96.1
Buddsoddiadau	n/a	13.9
Benthyca net	n/a	82.2
Terfyn awdurdodedig am ddyled allanol	123	O fewn y terfyn
Ffin gweithredol am ddyled allanol	118	O fewn y terfyn
Terfyn graddfeydd llog sefydlog yn seiliedig ar ddyled net	105	O fewn y terfyn
Terfyn graddfeydd llog amrywiol yn seiliedig ar ddyled net	20	Dim
Prifsymiau buddsoddwyd > 364 diwrnod	15	Dim
Strwythur aeddfedu am derfynau benthyca		
O dan 12 mis	20%	7%
12 mis i 2 flynedd	20%	0%
2 flynedd i 5 mlynedd	50%	6%
5 mlynedd i 10 mlynedd	75%	15%
10 mlynedd a throsodd	100%	72%

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i	Pwyllgor Archwilio
Dyddiad	5 Chwefror 2012
Pwnc	Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2013/14
Swyddog(ion) Arweiniol	Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)
Swyddog Cyswllt	Einir Wyn Thomas (Ffôn: 2605)
Natur a rheswm dros adrodd	
Ar gyfer sgrwtini – yn gyson â chyfarwyddyd proffesiynol.	

1. Cyflwynir yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu'r arfer orau yn unol â Chôd Ymarfer ar gyfer Rheoli'r Trysorlys Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth (CIPFA) sy'n argymhell y dylai'r Aelodau sgrwtineiddio'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys cyn iddo gael ei gyflwyno i gael ei fabwysiadu Mae cynllun dirprwyo'r Awdurdod hwn yn gosod y swyddogaeth hon ar y Pwyllgor Archwilio.
2. Dylid nodi bod y cynlluniau gwariant cyfalaf am 2013/14 a thu hwnt yn cael eu datblygu ar hyn o bryd ac nad ydynt, felly, wedi eu hadlewyrchu yn y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys draft hwn. At hyn, felly, bydd Dangosyddion Pwyllgor a Thrysorlys arfaethedig ar gyfer 2013/14 yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad gosod cyllideb 2013/14 yn nes ymlaen.
3. Dylid nodi bod yr Awdurdod hwn yn ystyried bod yn rhan o'r Cynllun Morgais Awdurdod Lleol (LAMS). Pe bai hyn yn digwydd, byddai'n rhaid diwygio'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys i adlewyrchu hynny.

EINIR WYN THOMAS
PENNAETH GWASANAETH (CYLLID)

28 IONAWR 2013

DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS

DATGANIAD AR Y STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL, Y STRATEGAETH DARPARIAETH REFENIW ISAF (DRI) A STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2013/14

1. Rhagarweiniad

1.1 Cefndir

Rhaid i'r Cyngor weithredu cyllideb gytbwys sy'n golygu bod rhaid i gyfanswm y refeniw sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn ariannol fod yn ddigonol i gwrdd â gwariant a hefyd, rhaid i'r arian gwirioneddol a ddaw i mewn bod yn ddigonol i gydbwysu'r arian a fydd yn mynd allan. Rhan allweddol o'r gweithgareddau rheoli trysorlys yw sicrhau bod y llif arian hwn wedi ei gynllunio'n ddigonol a bod arian ar gael pan mae ei angen. Caiff arian sydd dros ben ei fuddsoddi mewn gwrthbartion neu offerynnau risg isel sy'n cydfynd â dull risg isel y Cyngor gan sicrhau hylifedd digonol cyn ystyried y dychweliad ar fuddsoddiadau.

Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn darparu canllawiau ar gyfer anghenion benthycar'r Cyngor, sef cynllunio llif arian ar gyfer y tymor hwy mewn gwirionedd er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn gallu cwrdd â'i oblygiadau o ran gwariant cyfalaf. Gall rheoli'r arian tymor hwy olygu trefnu benthyciadau ar gyfer y tymor hir neu'r tymor byr neu ddefnyddio gwargedau llif arian am dymor hwy. O bryd i'w gilydd, gellir ailstrwythuro dyledion i gwrdd â risgiau neu amcanion cost y Cyngor.

Yn benodol, rhaid i awdurdod lleol glandro ei ofynion cyllidebol ar gyfer pob blwyddyn ariannol i gynnwys y costau refeniw sy'n llifo o benderfyniadau ynghylch cyllido cyfalaf. Mae hyn yn golygu bod rhaid cyfyngu:-

- cynnydd mewn costau refeniw yn sgil ffioedd llog uwch, oherwydd benthycia ychwanegol i gyllido gwariant cyfalaf, ac
- unrhyw gynnydd mewn costau rhedeg prosiectau cyfalaf newydd, i lefel sy'n fforddiadwy o ran incwm rhagamcanedig y Cyngor.

Mae Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys yn diffinio'r polisiau ag amcanion y gweithgareddau rheoli trysorlys. Gweler Atodiad 9.

1.2 Gofynion o ran cyflwyno adroddiadau

Rhaid i'r Cyngor dderbyn a chymeradwyo o leiaf dri phrif adroddiad bob blwyddyn sy'n ymgorffori amrediad o bolisiau, amcangyfrifon a ffigyrau gwirioneddol. Rhaid i'r adroddiadau hyn gael eu sgriftnieddio'n ddigonol gan bwyllgor cyn cael eu hargymell i'r Cyngor. Y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am gyflawni'r swyddogaeth hon.

Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys a'r Strategaeth Trysorlys - Mae'r adroddiad cyntaf a'r un pwysicaf yn cynnwys:-

- y Strategaeth Rheoli Trysorlys (sut bydd y buddsoddiadau a'r benthyciadau'n cael eu trefnu) gan gynnwys dangosyddion trysorlys;
- strategaeth fuddsoddi (canllawiau ynghylch sut y dylid rheoli buddsoddiadau);
- Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (sut mae gwariant cyfalaf gweddilliol yn cael ei drosglwyddo i refeniw dros gyfnod o amser); a
- Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys (diffiniad o'r polisiau ag amcanion y swyddogaeth rheoli trysorlys).

Yn ogystal, mae angen adrodd ar y cynlluniau cyfalaf (gan gynnwys y dangosyddion pwyllog cysylltiedig).

Mae'r cynlluniau cyfalaf ar gyfer 2013/14 a thu hwnt wrthi'n cael eu hystyried ar hyn o bryd. O ganlyniad, cyflwynir manylion y cynlluniau, a'r Dangosyddion Pwylllog a Thrysorlys, i'r Pwyllgor Gwaith fel rhan o'r gwaith gosod cyllideb 2013/14.

Adroddiad Rheoli Trysorlys Canol Blwyddyn - Bydd hwn yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ynghylch cynnydd o ran y sefyllfa gyfalaf, gan ddiwygio'r dangosyddion pwylllog yn ôl yr angen gan nodi a yw'r strategaeth trysorlys yn cwrdd â'i amcanion ynteu a oes angen adolygu unrhyw bolisiau. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n chwarterol, sef yn amlach na'r gofyniad isaf (gyda chwarteri un a tri ond yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio).

Adroddiad Trysorlys Blynyddol – Yn hwn, ceir manylion ynghylch detholiad o ddangosyddion pwylllog a thrysorlys gwirioneddol a gweithgareddau trysorlys gwirioneddol o gymharu â'r amcangyfrifon yn y strategaeth.

1.3 Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2013/14

Mae'r strategaeth a awgrymir ar gyfer 2013/14 mewn perthynas â'r agweddau canlynol o'r swyddogaeth rheoli trysorlys yn seiliedig ar sylwadau'r swyddogion trysorlys ar gyfraddau llog ac ategir at y rhain gan ragolygon o'r farchnad a ddarperir gan ymgynghorydd trysorlys y Cyngor, Sector Treasury Services.

Mae'r strategaeth ar gyfer 2013/14 yn ymwneud â dau brif faes:-

Materion Cyfalaf

- y cynlluniau cyfalaf a'r dangosyddion pwylllog;
- y strategaeth DRI.

Materion rheoli trysorlys

- y sefyllfa gyfredol o ran y trysorlys;
- dangosyddion trysorlys a fydd yn cyfyngu ar risg a gweithgareddau trysorlys y Cyngor;
- y rhagolygon o ran cyfraddau llog;
- y strategaeth fenthyca;
- polisi ar fenthyca o flaen yr angen;
- ail-raglennu dyledion;
- y strategaeth fuddsoddi;
- polisi teilyngdod credyd; a
- polisi ar ddefnyddio darparwyr gwasanaeth allanol.

Mae'r elfennau hyn yn cwrdd â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2003, Côt Pwylllog CIPFA, Canllawiau DRI LIC, Côt Rheoli Trysorlys CIPFA a Chanllawiau Buddsoddi LIC.

1.4 Hyfforddiant

Dan Côt CIPFA mae'n ofynnol fod y swyddog cyfrifol yn sicrhau bod Aelodau â chyfrifoldeb am reoli trysorlys yn derbyn hyfforddiant digonol yn rheoli trysorlys. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Aelodau sy'n gyfrifol am sgrwtini. Yn Hydref 2012, ymgwymerwyd â hyfforddiant Aelodau ar faterion rheoli trysorlys, er mwyn cefnogi rôl sgrwtineiddio Aelodau'r Pwyllgor Archwilio. Trefnir hyfforddiant pellach pan fo'r angen.

O bryd i'w gilydd, fe adolygir anghenion hyfforddi swyddogion rheoli trysorlys.

1.5 Mabwysiadu'r Côt

Rhaid i'r Cyngor nodi a yw wedi mabwysiadu Côt Ymddygiad CIPFA ar Reoli Trysorlys. Mabwysiadwyd Côt gwreiddiol 2001 ar 5 Mawrth 2002 gan y Cyngor llawn, mabwysiadwyd y Côt diwygiedig ar 4 Mawrth 2010 a nawr mae angen mabwysiadu'r Côt cyfredol 2011.

2. Ystyriaethau Cyfalaf

Mae rhagolygon gwariant cyfalaf cyfredol y Cyngor ar gyfer 2013/14 wedi'u nodi isod. O ran y blynyddoedd ar ôl 2013/14, ceir yr amcangyfrifon eu diweddarau yn barod ar gyfer ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith wrth ystyried adroddiadau'r gyllideb ar gyfer 2013/14. Y pwyntiau allweddol i'w nodi yw:-

- bydd y rhaglenni'n gyffredinol yn cael eu cyfyngu i'r hyn sy'n fforddiadwy, o ran y gwariant cyfalaf gwirioneddol ac o ran y goblygiadau refeniw (gweler 1.1 uchod);
- bydd y rhaglenni ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol yn cael eu gostwng yn sylweddol o gymharu â'r lefelau cyfredol, oherwydd cwblhawyd Rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru y CRT yn 2012.

£m	2011/12 Gwirioneddol £m	2012/13 Rhagamcanedig £m	2013/14 Amcangyfrif £m	2014/15 Amcangyfrif £m	2015/16 Amcangyfrif £m
CYFANSWM	21.6	25.8	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau

3. Benthycia

Bydd y cynlluniau gwariant cyfalaf sydd yn cael eu gosod allan yn adroddiad ar wahân i'r Pwyllgor Gwaith yn darparu manylion gweithgaredd gwasanaeth y Cyngor. Mae'r swyddogaeth rheoli trysorlys yn sicrhau bod arian parod y Cyngor wedi ei drefnu yn unol â'r codau proffesiynol perthnasol, i sicrhau fod arian parod digonol ar gael i gwrdd â'r gweithgaredd gwasanaeth yma. Bydd hyn yn cynnwys trefnu'r llif arian parod a, lle mae'r cynlluniau cyfalaf ei angen, trefnu'r cyfleusterau benthycia priodol. Mae'r strategaeth yn rhoi sylw i'r dangosyddion trysorlys / pwylllog perthnasol, y sefyllfa dyled gyfredol ac a ragwelir, a'r strategaeth buddsoddi flynyddol.

3.1 Sefyllfa Portffolio ar hyn o bryd

Roedd sefyllfa'r Cyngor o ran y portffolio trysorlys ar 16 Ionawr 2013 fel a ganlyn:-

		Prifswm (£m)	Cyfraddau Cyfartalog (%)
Cyllid Cyfradd Sefydlog	BBGC	£96.1m	5.53%
Cyllid Cyfradd Amrywiol	d/b	£ 0.0m	d/b
Cyfanswm y Dyledion		£96.1m	5.53%

BBGC: Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus

Ceir eglurhad manylach ynghylch dyledion allanol yn Atodiad 1.

3.2 Rhagolygon o ran Cyfraddau Llog

Mae'r Cyngor wedi penodi Sector fel ei ymgynghorydd trysorlys a rhan o'r gwasanaeth yw cynorthwyo'r Cyngor i lunio barn ar gyfraddau llog. Yn Atodiad 3, dygir ynghyd nifer o ragolygon cyfredol y ddinas ar gyfer cyfraddau llog tymor byr (Cyfradd y Banciau) a chyfraddau sefydlog tymor hwy. Yn y tabl isod, ceir barn Sector.

Cyfartaledd Blynyddol (%)	Cyfraddau Banc (%)	Cyfraddau Benthycia BBGC (yn cynnwys addasiad graddfa sicrwydd)		
		5 mlynedd	25 blwyddyn	50 blwyddyn
Rhagfyr 2012	0.50	1.50	3.70	3.90
Mawrth 2013	0.50	1.50	3.80	4.00
Mehefin 2013	0.50	1.50	3.80	4.00
Medi 2013	0.50	1.60	3.80	4.00
Rhagfyr 2013	0.50	1.60	3.80	4.00
Mawrth 2014	0.50	1.70	3.90	4.10
Mehefin 2014	0.50	1.70	3.90	4.10
Medi 2014	0.50	1.80	4.00	4.20
Rhagfyr 2014	0.50	2.00	4.10	4.30
Mawrth 2015	0.75	2.20	4.30	4.50
Mehefin 2015	1.00	2.30	4.40	4.60
Medi 2015	1.25	2.50	4.60	4.80
Rhagfyr 2015	1.50	2.70	4.80	5.00
Mawrth 2016	1.75	2.90	5.00	5.20

Mae adferiad yr economi yn y DU ers 2008 wedi bod yr adferiad gwaethaf a'r un mwyaf araf yn hanes diweddar, er i'r ecoomi ddychwelyd i dyfiant positif yn nhrydydd chwarter 2012. Gwan yw'r rhagolygon tyfiant ac mae gwariant defnyddwyr, yr hyn sy'n gyrru adferiad fel arfer, yn debygol o barhau dan bwysau o ganlyniad i ddefnyddwyr yn canolbwytio ar ad-dalu dyled personol, chwyddiant yn erydu incwm sydd ar gael i'w wario, anhwylder cyffredinol ynglyn â'r economi ac ofnau cyflogaeth.

Bydd prif yrwyr economi'r DU yn debygol o barhau'n rhai allanol. Mae 40% o allforion y DU yn mynd i'r Parth Ewro, felly mae'r anawsterau yn yr ardal yma yn debygol o barhau i rwystro tyfiant y DU. Mae'r UD, prif economi'r byd, yn wynebu problemau dyled debyg i'r DU, ond maent angen datrys ar frys y clogwyn ariannol nawr mae'r etholiadau Arlywyddol allan o'r ffordd. Bydd y tynhau cyllidol canlyniadol yn yr UD a'r problemau sy'n parhau ym Mharth Ewro yn gwasgu tyfiant y DU ac mae'n debygol gwelwn lithrant yng nghynlluniau i leihau diffyg y DU.

Mae gan y rhagolygon economaidd heriol ac ansicr hyn nifer o oblygiadau o ran rheoli trysorlys:-

- Mae'r problemau o ran dyledion sofran Parth yr Ewro, yn arwydd clir o risg uwch o lawer o wrth bartion. Mae hyn yn parhau i awgrymu y dylid defnyddio gwrth bartion ansawdd uwch am gyfnodau byrrach o amser;
- Mae dychweliadau ar fuddsoddiadau yn debygol o aros yn weddol isel yn ystod 2013/14 a thu draw;
- Mae cyfraddau llog ar fenthyciadau yn ddeniadol ar hyn o bryd ond maent yn debygol o barhau i fod yn isel am beth amser. Bydd angen monitro'n ofalus amseru unrhyw fenthyciadau;
- Erys cost cyfalaf - bydd unrhyw fenthyciadau a gymerir sy'n arwain at gynnydd mewn buddsoddiadau yn arwain at golled refeniw rhwng y costau benthyca a'r dychweliadau ar y buddsoddiadau.

Mae adolygiad manwl o'r cefndir economaidd cyfredol ynghlwm yn Atodiad 5 yr adroddiad hwn.

3.3 Gofynion Benthyca

Y symudiadau a ragwelir yng ngofyniad cyllido cyfalaf (GCC) y Cyngor yw :-

SYMUDIADAU AMCANGYFRIFIR YNG NGOFYNIAD CYLLIDO CYFALAF A BENTHYCA NEWYDD 2012/13 I 2015/16				
	2012/13 Rhagamcanedig £'000	2013/14 Amcangyfrif £'000	2014/15 Amcangyfrif £'000	2015/16 Amcangyfrif £'000
Symudiad yn y GCC				
Benthyciadau Newydd i gefnogi Gwariant Cyfalaf				
<i>Benthyca gyda Chefnogaeth</i>	3,526	5,051	2,140	2,140
<i>Benthyca digefnogaeth</i>	5,700	6,050	6,777	7,300
Cyfanswm	9,226	11,101	8,917	9,440
<i>Lleihau gan : Isafswm Darpariaeth Refeniw a derbyniadau Cyfalaf wedi eu neilltuo</i>	(4,380)	(5,183)	(4,970)	(5,169)
<i>Symudiad net yn y GCC</i>	4,846	5,918	3,947	4,271
Symudiadau posib yn y benthyca gwirioneddol				
Symudiad yn y GCC (uchod)	4,846	5,918	3,947	4,271
Allanoli benthyca mewnol cyn 2012/13	4,564	-	-	-

Benthyca newydd	6	6,507	7	8
Cyfanswm benthyca newydd posib	9,416	12,425	3,954	4,279

Mae hyn yn ymgorffori effaith llawn y Rhaglen Cyfalaf drafft am 2013/14. Ar gyfer y blynyddoedd ariannol dilynol, cyfyngir benthyciadau newydd i'r dyraniadau datganwyd ar gyfer Benthyca gyda Chefnogaeth, plws swm blynyddol o £1m o Fenthyca Digefnogaeth ychwanegol ynghyd a chyfar am dderbyniadau cyfalaf gohiriedig ynghyd ag effaith Menter Benthyca Llywodraeth Leol a'r rhaglen rhesymoli asedau (£5m yn 2014/15 a 2015/16).

Y tebygolrwydd yw ni fydd y cyfan o'r angen yma'n cael ei ddiwallu gan fenthyca allanol (gweler 3.4.1 isod).

3.4 Y Strategaeth Fenthyca

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor mewn sefyllfa o dan-fenthyca. Mae hyn yn golygu bod yr angen am fenthyciadau cyfalaf (sef y Gofyniad Cyllido Cyfalaf), heb ei ariannu'n llawn ac mae dyledion benthyca wedi cael eu defnyddio fel mesur dros dro i gefnogi arian wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor. Mae'r driniaeth hon yn un bwylog oherwydd bod dychweliadau ar fuddsoddiadau yn isel a risg o ran wrth bartion yn uchel a bwriedir glynu wrthi lle'n briodol (gweler 3.4.1 isod am ystyriaeth fwy manwl o fenthyca mewnol ac allanol).

Yn erbyn y cefndir hwn ar risgiau o fewn y rhagolygon economaidd, mabwysiedir dull pwylog o ran gweithgareddau trysorlys 2013/14. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro cyfraddau llog yn y marchnadoedd ariannol ac yn mabwysiadu dull pragmatig at amgylchiadau sy'n newid:-

- Os roedd teimlad bod risg sylweddol o GWYMP sydyn yn y cyfraddau tymor byr a thymor hir, e.e. oherwydd mwy o risg o ddisgyn yn ôl i ddirwasgiad neu risgiau datchwyddiant, yna bydd benthyciadau tymor hir yn cael eu gohirio ac ystyrir newid o gyllido cyfradd sefydlog i fenthyca tymor byr.
- Os roedd teimlad bod risg sylweddol o GYNNYDD llawer mwy yn y cyfraddau tymor hir a thymor byr na'r rhagolygon cyfredol, efallai oherwydd cynnydd mwy na'r disgwyl mewn gweithgareddau economaidd byd-eang neu gynnydd sydyn mewn risgiau chwyddiant, yna byddai sefyllfa'r portffolio yn cael ei hailasesu gyda'r tebygolrwydd o gyllido tymor sefydlog tra byddai cyfraddau llog yn parhau i fod yn weddol isel.

Adroddir ar unrhyw benderfyniadau i'r corff gwneud penderfyniadau priodol pan ddaw'r cyfle nesaf.

Yn wyneb yr uchod, bydd strategaeth fenthyca'r Cyngor yn seiliedig ar y ffynonellau isod yn darparu gwerth:-

- Benthyca dros dro gan y marchnadoedd arian neu awdurdodau lleol eraill;
- Benthyciadau ar gyfraddau amrywiol gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) am hyd at 10 mlynedd;
- Benthyca am gyfnodau byr o ffynonellau y tu allan i'r BBGC;
- Bydd triniaeth hyblyg i'r cymysgedd o fenthyca mewnol ac allanol (gweler 3.4.1 isod);
- Benthyciadau marchnad cyfradd sefydlog tymor hir, lle mae'r cyfraddau yn llawer is na chyfraddau'r BBGC ar gyfer y cyfnod aeddfedu cyfatebol, a chynnal balans priodol rhwng dyled BBGC a dyled marchnad yn y portffolio dyledion;
- Benthyca gan y BBGC am gyfnodau sy'n llai na 10 mlynedd lle disgwylir i gyfraddau fod yn sylweddol is na'r cyfraddau ar gyfer cyfnodau hwy. Mae hyn yn cynnig amrediad o opsiynau ar gyfer benthyca newydd a fydd yn symud i ffwrdd o ganolbwyntio ar ddyledion tymhorau hwy.

Bydd y Swyddog Adran 151 hefyd yn adolygu cyfleoedd posib i gymryd bondiau neu i fynd ar drywydd trefniadau benthyca cydweithredol arall.

DRAFFET

3.4.1 Benthycia mewnol yn erbyn benthycia allanol

Mae'r gymhariaeth rhwng sefyllfaoedd dyled gros a net ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn (mae hyn ar sail cael ei gyllido'n llawn):-

BENTHYCA NET 2011/12 HYD AT 2015/16					
	2011/12 Gwirioneddol £m	2012/13 Rhagamcanedig £m	2013/14 Amcangyfrif £m	2014/15 Amcangyfrif £m	2015/16 Amcangyfrif £m
Cyfanswm benthycia	96,103	96,096	111,430	115,377	119,648
Cyfanswm buddsoddi	16,151	11,299	20,000	20,000	20,000
Benthycia Net	79,952	84,797	91,430	95,377	99,648

Mae'r amodau cyfredol yn nodi bod angen agwedd hyblyg o ran y dewis rhwng benthycia mewnol ac allanol. Mae llawer o'r ffactorau a oedd wrth wraidd y polisi blaenorol i allanoli'r holl fenthycia yn parhau i fod yn ddilys, e.e.

- I warchod y rheini sy'n talu'r dreth gyngor rhag colledion a achoswyd gan y dull o gyfrifo'r Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai yn y system gyfredol;
- Lleddfu unrhyw faterion hylifedd a achoswyd gan weithredu darpariaethau penodol yn y dyfodol i gyfyngu benthycia digefnogaeth;
- Gan fod y Gyfradd Banc yn parhau i fod yn anarferol o isel yn hanesyddol, erys cyfle unigryw i awdurdodau lleol reoli eu strategaeth o gymryd benthyciadau allanol newydd.

Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau yn parhau mewn perthynas â'r dull hwn o weithredu, fel y dywedwyd eisoes, e.e.:-

- Gall y polisi olygu bod yn agored i risg credyd, felly bydd raid rheoli'r elfen hon yn ofalus iawn;
- Rhaid parhau i roi sylw manwl i'r gwahaniaeth rhwng y cyfraddau benthycia a'r cyfraddau buddsoddi i sicrhau bod y Cyngor yn cael gwerth am arian unwaith y mae lefel briodol o reolaeth risg wedi ei chyrraedd i sicrhau diogelwch buddsoddiadau.

O blaid mewnoli, dros y tair blynedd nesaf disgwylir y bydd cyfraddau buddsoddi yn is na'r cyfraddau benthycia tymor hir. Mae hynny'n golygu bod ystyriaethau gwerth am arian yn awgrymu y gellid cael gwerth gorau trwy osgoi benthycia allanol newydd a thrwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyled allanol sy'n aeddfedu (cyfeirir at hyn fel benthycia mewnol). Byddai hynny'n sicrhau'r arbedion tymor byr mwyaf posib.

Fodd bynnag, rhaid pwysu a mesur arbedion tymor byr a geid trwy osgoi benthycia allanol tymor hir yn 2013/14 yn erbyn y posibilrwydd o gael costau tymor hir ychwanegol, trwy ohirio cymryd benthyciadau allanol newydd nad oes modd eu hosgoi tan yn hwyrach ymlaen pan ragwelir y bydd cyfraddau tymor hir y BBGC yn sylweddol uwch.

Bydd newidiadau posib i Gymhorthdal Tai hefyd yn cael dylanwad ar y balans rhwng allanoli/mewnoli, ond disgwylir am ragor o wybodaeth ar y mater hwn gan LIC.

Mae'r Cyngor wedi edrych ar y posibilrwydd o ad-dalu rhai dyledion allanol i'r BBGC yn gynnar er mwyn gostwng y gwahaniaeth rhwng ei sefyllfaoedd debyd gros a net. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod y BBGC wedi cyflwyno cyfraddau ad-dalu sy'n llawer is na'r cyfraddau benthycia newydd ym mis Tachwedd 2007, ynghyd â'r ffaith bod y gwahaniaeth rhwng y cyfraddau benthycia newydd ac ad-dalu yn Hydref 2010 yn parhau i ledu, yn golygu o bosib y byddai gweithredu yn y fath modd yn golygu premiymau mawr; mae'n annhebygol y gellid cyfiawnhau lefelau premiwm mor fawr ar sail gwerth am arian. Caiff y sefyllfa hon ei monitro rhag ofn y bod y BBGC yn lleihau'r gwahaniaethau hyn rhyw dro yn y dyfodol.

Yn erbyn y cefndir hwn, byddir yn wylidwrus gyda gweithgareddau trysorlys 2013/14. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro'r farchnad cyfraddau llog ac yn cymryd agwedd ymarferol tuag at amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi gwybod am unrhyw benderfyniadau i'r corff gwneud penderfyniadau priodol pan ddaw'r cyfle nesaf ar gael.

3.5 Y polisi ynghylch benthycia ymlaen llaw i gwrdd ag anghenion

Ni fydd y Cyngor yn benthycia mwy nag y mae ei angen, na chyn bod angen gwneud hynny, dim ond er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycir. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthycia ymlaen llaw o fewn amcangyfrifon gofynion cyllido cyfalaf a gymeradwywyd ymlaen llaw a bydd penderfyniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn ofalus i sicrhau bod modd dangos gwerth am arian a bod y Cyngor yn gallu sicrhau diogelwch arian o'r fath.

Wrth benderfynu a fydd y Cyngor yn benthycia cyn bod angen gwneud hynny bydd y Cyngor yn:-

- sicrhau bod cyswllt clir rhwng y rhaglen gyfalaf a phroffil aeddfedrwydd y portffolio dyled gyfredol sy'n cefnogi'r angen i fenthycia cyn i'r angen godi;
- sicrhau bod cyfrifoldebau refeniw parhaus sy'n cael eu creu, a'r goblygiadau ar gyfer cynlluniau a chyllidebau'r dyfodol wedi eu hystyried;
- pwysu a mesur y ffactorau economaidd a marchnad a allai gael dylanwad ar ddull ac amseriad unrhyw benderfyniad i fenthycia;
- ystyried manteision ac anfanteision dulliau cyllido eraill;
- ystyried y cyfraddau llog eraill sydd ar gael, y cyfnodau mwyaf priodol i gyllido a'r proffiliau ad-dalu i'w defnyddio;
- ystyried effaith benthycia ymlaen llaw ar falansau arian buddsoddi sy'n cynyddu dros dro (hyd nes y bydd angen cyllido gwariant cyfalaf) a'r ffaith y byddir yn fwy agored yn sgil hynny i risg gwrth barti, a risgiau eraill, a lefel risgiau o'r fath o gofio'r trefniadau sydd wedi eu sefydlu i'w cyfyngu i'r eithaf.

Bydd y risgiau'n gysylltiedig ag unrhyw weithgaredd benthycia o flaen y galw yn amodol ar gwerthusiad o flaen llaw ac adroddiadau dilynol drwy'r mechanwaith adrodd canol-blwyddyn neu flynyddol.

3.6 Ad-drefnu Dyled

Yn sgil BBGC yn cyflwyno gwahaniaeth yn 2007 rhwng y cyfraddau ar gyfer benthycia newydd a'r cyfraddau ar gyfer ad-dalu dyledion, ynghyd â'r ffaith bod y gwahaniaeth wedi tyfu rhwng cyfraddau benthycia newydd ac ad-dalu ar 20 Hydref 2010, mae ailstrwythuro dyledion trwy fenthycia gan BBGC yn llawer llai deniadol nag yr oedd cyn y digwyddiadau hyn. Yn arbennig, byddai'n rhaid rhoi sylw i'r premiymau mawr a fyddai'n digwydd yn sgil ad-dalu benthyciadau gan BBGC yn gynnar, ac mae'n annhebygol iawn y gellid cyfiawnhau'r rhain ar sail gwerth am arian os byddid yn defnyddio cyllid gan BBGC yn eu lle. Fodd bynnag, efallai y byddai modd gwneud rhai arbedion llog trwy ddefnyddio benthyciadau LOBO (Lenders Option Borrowers Option), a benthyciadau marchnad eraill, mewn ymarferion ad-drefnu yn hytrach na defnyddio benthyciadau BBGC fel ffynhonnell gyllido.

Gan y bydd cyfraddau benthycia tymor byr yn sylweddol rhatach na chyfraddau llog tymor sefydlog hwy, efallai y bydd cyfleoedd i wneud arbedion trwy symud o ddyledion tymor hir i ddyled tymor byr. Fodd bynnag, bydd angen ystyried yr arbedion hyn yn wyneb sefyllfa gyfredol y trysorlys a maint a chost ad-dalu dyledion (h.y. y premiymau a godir).

Bydd y rhesymau dros ad-drefnu yn cynnwys:-

- Cynhyrchu arbedion arian parod ac/neu arbedion llif arian gyda disgownt;
- Cynorthwyo i gwrdd â'r strategaeth trysorlys;
- Gwella balans y portffolio (diwygio'r proffil aeddfedu ac/neu falans yr anwadalrwydd ariannol).

Rhoddir ystyriaeth hefyd i nodi a oes posibilrwydd ar ôl i wneud arbedion trwy adael i falansau buddsoddi gostwng trwy ad-dalu dyled yn gynnar oherwydd bod cyfraddau tymor byr ar fuddsoddiadau yn debygol o fod yn is na chyfraddau a delir ar ddyledion cyfredol.

Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am yr holl weithgareddau ad-drefnu dyled yn y cyfarfod nesaf ar ôl cymryd y camau.

4. Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

4.1 Sefyllfa Gyfredol y Portffolio

Roedd sefyllfa portffolio trysorlys y Cyngor ar 16 Ionwawr 2013 yn cynnwys :-

	Prifswm (£m)	Graddfa Cyfartalog (%)
Adneuo – ar alw i 30 diwrnod	14.4	0.74
Adneuo – tymor sefydlog < 1 blwyddyn	10.0	1.63
Adneuo – tymor sefydlog 1 blwyddyn +	-	-
Cyfanswm adneuo	24.4	1.11

4.2 Polisi Buddsoddi

Mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn cymryd i ystyriaeth Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol ("y Canllawiau") a Chôd Ymarfer Diwygiedig CIPFA 2011 ar gyfer Awdurdodau Lleol ynghylch Rheolaeth Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Nodiadau Canllawiau i'r Sectorau eraill. Blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor fydd diogelwch yn gyntaf, hylifedd yn ail ac wedyn elw.

Yn unol â'r uchod, ac er mwyn gostwng risgiau i fuddsoddiadau i'r eithaf, mae'r Cyngor wedi nodi'n glir yr ansawdd credyd isaf sy'n dderbyniol yn achos gwrthbartion i'w cynnwys ar y rhestr fenthyca (gweler Atodiad 5). Mae'r fethodoleg o ran teilyngdod credyd a ddefnyddir i greu'r rhestr gwrthbartion yn cymryd ystyriaeth lawn o raddfeydd a rhagolygon a gyhoeddwyd gan y tair asiantaeth graddio ynghyd â dealltwriaeth glir o'r hyn y mae'r rhain yn ei adlewyrchu ym marn pob asiantaeth. Gan ddefnyddio cyfraddau Sector, mae graddfeydd y banciau yn cael eu monitro ar sail amser gwirioneddol gyda manylion am unrhyw newidiadau yn cael eu cyfleu'n electronig wrth i'r asiantaethau roi gwybod am newidiadau.

Ymhellach, mae swyddogion y Cyngor yn cydnabod nad y graddfeydd hyn ddylai fod yr unig beth sy'n penderfynu ar ansawdd sefydliad a'i fod yn bwysig asesu a monitro'r sector ariannol yn barhaus ar sail micro a macro ac mewn perthynas â'r amgylcheddau economaidd a gwleidyddol y mae sefydliadau yn gweithredu y tu mewn iddynt. Bydd yr asesiad hefyd yn cymryd i ystyriaeth wybodaeth sydd yn adlewyrchu barn y marchnadoedd. I'r perwyl hwn, bydd y Cyngor yn ymgysylltu gyda'i ymgynghorwyr i fonitro prisiau marchnad fel "Trosglwyddo Risgiau Credyd" ac yn troshaenu'r wybodaeth honno am ben y graddfeydd credyd. Mae hyn wedi ei integreiddio'n llawn i'r fethodoleg credyd a ddarparwyd gan ymgynghorwyr y Cyngor, Sector, wrth gynhyrchu ei godau lliw sy'n dangos gwahanol lefelau teilyngdod credyd.

Bydd ffynonellau gwibodaeth eraill a ddefnyddir yn cynnwys y wasg ariannol, prisiau cyfraddau a gwibodaeth arall mewn perthynas â'r sector bancio er mwyn sefydlu proses sgrwtini gadarn ynghylch addasrwydd gwrthbartion buddsoddi posib.

Nod y strategaeth yw cynhyrchu rhestr o wrthbartïon gyda theilyngdod credyd cryf a fydd hefyd yn sicrhau y bydd modd arallgyfeirio ac osgoi canoli risg mewn un lle.

Bwriad y strategaeth yw sicrhau diogelwch buddsoddiadau a gostwng risgiau i'r eithaf.

